

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

05/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:

19/01/2023

Datblygu ecosystem data a gwybodaeth newydd sy'n cefnogi'r system ysgolion ddiwygiedig yng Nghymru – canfyddiadau o astudiaeth ymchwil

Teitl: Datblygu ecosystem data a gwybodaeth newydd sy'n cefnogi'r system ysgolion ddiwygiedig yng Nghymru

Is-deitl: Canfyddiadau o astudiaeth ymchwil

Awdur(on): Cyllid Cymdeithasol – Christopher Owen, Georgia Hill, Jessica Kyriacou, Oliver Southwick, Thomas Bermudez, Tom Davies.



Adroddiad Ymchwil Llawn: Owen, C, Hill, G, Kyriacou, J, Southwick, O, Bermudez, T, Davies, T., (2023). *Datblygu ecosystem data a gwybodaeth newydd sy'n cefnogi'r system ysgolion ddiwygiedig yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad 05/2023
Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/ymchwil-archwilio-system-wybodaeth-newydd-ar-gyfer-ysgolion>

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag:

Ymchwil Ysgolion

Is-adran Ymchwil a Gwybodaeth Gymdeithasol

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

Ebost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

Diolchiadau

Mae'r awduron yn ddiolchgar iawn i'r llu o bobl o bob rhan o system addysg Cymru a roddodd yn hael o'u hamser a'u harbenigedd i gefnogi'r prosiect hwn. Hoffem ddiolch yn arbennig i Gangen Gwybodaeth a Gwella Ysgolion Llywodraeth Cymru a swyddogion ymroddedig eraill am eu cymorth, arweiniad a her adeiladol, ac aelodau o Grŵp Llywio a Grŵp Cynghori'r prosiect.

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau.....	3
Rhestr o ffigurau	4
1. Geirfa	5
2. Cyflwyniad	7
3. Methodoleg	13
4. Canfyddiadau – Diffinio rhannau allweddol o'r ecosystem data a gwybodaeth	23
5. Canfyddiadau – mapio anghenion data a gwybodaeth rhanddeiliaid	36
6. Canfyddiadau – asesiad o feysydd lle mae angen newidiadau	54
7. Canfyddiadau – dulliau o ddefnyddio data a gwybodaeth mewn gwledydd eraill	65
8. Canfyddiadau – mewnwelediadau eraill a chasgliadau o brofi argymhellion drafft..	70
9. Argymhellion	77
Atodiad A – Crynodeb o ymgysylltu â rhanddeiliaid	104
Atodiad B – Enghraifft o ddogfen fanwl anghenion defnyddwyr	107
Atodiad C – Methodoleg adolygu llenyddiaeth enghreifftiol ryngwladol	108
Atodiad D – Templed ar gyfer datblygu argymhellion manwl	112
Atodiad E – Meysydd lle nad ydym wedi gwneud argymhellion	114

Rhestr o dablau

Tabl 4.1: Swyddogaethau craidd ac anghenion data ar gyfer rhanddeiliaid allweddol	23
Tabl 4.2: Mathau o ddata meintiol a dangosyddion a ddefnyddir yn ecosystem addysg Cymru.....	31
Tabl 5.1: Prif anghenion data a gwybodaeth rhanddeiliaid allweddol.....	37
Tabl 6.1: Rhestr hir o anghenion defnyddwyr ar gyfer rhanddeiliaid allweddol	54
Tabl 6.2: Crynodeb o asesiad anghenion defnyddwyr ar gyfer lles dysgwyr	56
Tabl 6.3: crynodeb o adborth ar ddangosyddion a ddefnyddiwyd yn flaenorol i gynhoi canlyniadau cymwysterau CA4	60
Tabl 8.1: crynodeb o'r angen am newidiadau penodol i'r defnydd presennol o ddata a gwybodaeth i ddiwallu anghenion rhanddeiliaid	70
Tabl 9.1: Crynodeb o'r holl argymhellion.....	80
Tabl A.1: Crynodeb o ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Ngham 1	104
Tabl A.2: Crynodeb o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod Cam 2	105
Tabl A.2: crynodeb o ymgysylltu i brofi argymhellion drafft	106
Tabl B.1: Enghraifft eglurhaol o ddogfennau anghenion defnyddiwr manwl – dyfyniad o ddogfen a anfonwyd at ysgolion.....	107
Tabl C.1: crynodeb o chwiliadau llenyddiaeth lled-strwythuredig.....	109

Rhestr o ffigurau

Ffigur 3.1: Trosolwg o fethodoleg ymchwil	14
Ffigur 3.2: Crynodeb o'r broses i ddatblygu argymhellion	21
Ffigur 4.1: Mapio cyllid, prosesau, a rhannu gwybodaeth ar draws y system ysgolion yng Nghymru.....	268
Ffigur 4.2: Mapio pŵer ar draws y system ysgolion.....	29
Ffigur 4.3: Sbectrwm o hyblygrwydd data a gwybodaeth o fewn yr ecosystem	29
Ffigur 4.4: Cyfaddawdau rhwng swyddogaethau craidd gyda lefelau gwahanol o rannu data yn yr ecosystem bresennol.....	32
Ffigur 9.1: Map ffordd ar gyfer adeiladu diwylliant o hunanwerthuso a gwella	101
Ffigur 9.2: Crynodeb o adolygiad parhaus iteraidd o'r broses ecosystem data	103

1. Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
ADY	Anghenion dysgu ychwanegol – y term a ddefnyddir i gyfeirio at anghenion dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol i gyfranogi'n llawn mewn addysg, er enghraifft anghenion dysgu, corfforol neu synhwyraidd.
MDPh	Meysydd Dysgu a Phrofiad – chwe maes y mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi'i rannu iddynt (Celfyddydau Mynegiannol; lechyd a Lles; Dyniaethau; leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Mathemateg a Rhifedd; Gwyddoniaeth a Thechnoleg). O fewn pob Maes Dysgu a Phrofiad, mae datganiadau gorfodol o'r hyn sy'n bwysig yn gweithredu fel canllawiau i ysgolion ddatblygu eu cwricwla eu hunain.
AWCDS	Set Ddata Graidd Cymru Gyfan – cyfres o adroddiadau dadansoddol a grëir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru ac a anfonir i ysgolion. Maent yn cynnwys ystod o ddangosyddion cyd-destunol a dysgu. Cafodd llawer o adroddiadau AWCDS eu hatal o'r flwyddyn academaidd 2019/20 oherwydd effaith y pandemig corona-firws.
CiG	Cwricwlwm i Gymru – y cwricwlwm a gyflwynwyd i bob lleoliad meithrin a chynradd a ariennir yn gyhoeddus ym mis Medi 2022, ac a fydd yn dod yn statudol ar gyfer dysgwyr ym Mlwyddyn 8 o fis Medi 2023.
eFSM	Cymhwysedd ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim – dynodwr anfantais, yn seiliedig ar incwm cartref dysgwr. Defnyddir canran y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn aml fel dangosydd o gyfran y dysgwyr o fewn poblogaeth sydd dan anfantais.
EOTAS	Addysg heblaw yn yr ysgol – darpariaeth addysg sydd wedi'i dylunio i ddiwallu anghenion penodol dysgwyr nad ydynt, am ba reswm bynnag, yn gallu mynychu ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig. Mae EOTAS yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u gwahardd o leoliadau prif ffrwd.
CA4	Cyfnod Allweddol 4 – y ddwy flynedd o addysg (Blynyddoedd 10 ac 11) pan fydd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio tuag at gymwysterau cenedlaethol megis TGAU. Ar adeg ysgrifennu, mae cymwysterau Cyfnod Allweddol 4 yn dal i fod ar waith, er y cânt eu disodli gan fframwaith asesu newydd o'r flwyddyn academaidd 2026/27.
Sefydliadau haen ganol	Awdurdodau cyhoeddus heblaw Llywodraeth Cymru sy'n gweithredu ar lefel ranbarthol neu genedlaethol yn y system ysgolion, gan gynnwys Estyn, awdurdodau lleol, a chonsortia rhanbarthol. Mae sefydliadau eraill megis awdurdodau Esgobaethol hefyd wedi'u cynnwys yn yr haen ganol o sefydliadau, er yn yr adroddiad hwn rydym yn defnyddio sefydliadau haen ganol i'r tri sefydliad blaenorol oni nodir yn wahanol. Ac yn yr adroddiad hwn rydym yn cyfeirio at y trefniadau partneriaeth gwella ysgolion rhwng awdurdodau lleol fel consortia rhanbarthol, sydd ar waith yn y rhan fwyaf o ranbarthau. Lle mae awdurdodau lleol wedi dewis cyflwyno'r holl weithgareddau

	gwella ysgolion eu hunain, dylid dehongli'r cyfeiriadau i fod yr un mor berthnasol iddynt hwy.
NEET	Ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant – dangosydd allweddol o'r farchnad lafur a chyrchfannau pobl ifanc 16 oed a hŷn.
NR:EI	Yr adnodd cenedlaethol: gwerthuso a gwella – adnodd i gefnogi ysgolion gyda hunanwerthuso a gwella, rhan o Ganllaw Gwella Ysgolion Llywodraeth Cymru .
CYBLD	Cyfrifiad ysgol blynyddol ar lefel disgyblion – datganiad statudol o ddata dysgwyr a lefel ysgol a ddarperir gan holl ysgolion cynradd, canol, uwchradd, meithrin ac arbennig y sector a gynhelir i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr bob blwyddyn.
ÔI-16	Mae hyn yn cyfeirio at leoliadau addysg y tu hwnt i oedran ysgol uwchradd, ac mae'n cynnwys lleoliadau addysg bellach megis colegau a dysgu galwedigaethol a dysgu seiliedig ar waith megis prentisiaethau.
SHRN	Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion – partneriaeth ymchwil, a arweinir gan Brifysgol Caerdydd ac sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), Cancer Research UK, a Sefydliad Ymchwil, Data a Dulliau Cymdeithasol ac Economaidd Cymru. Mae'n creu ac yn gweinyddu sawl offeryn ymchwil ysgol gan gynnwys arolwg lles.
Data safonedig	Unrhyw ddata a gesglir a/neu yr adroddir arnynt mewn ffordd gyson a safonedig ar draws sefydliadau lluosog (e.e., sawl ysgol neu bob ysgol, pob awdurdod lleol).
SWAC	Cyfrifiad Blynyddol Gweithluoedd Ysgolion – datganiad data blynyddol a gwblheir gan leoliadau a gynhelir, ag eitemau data ar lefel aelod o staff ac ysgol. Mae'r canlyniadau'n llywio polisi Llywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud â chyflogau ac amodau, a recriwtio a chadw.
MALIC	Dangosydd Amddifadedd Lluosog Cymru – mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n nodi'r ardaloedd sydd â'r crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd ac yn eu graddio o 1 (mwyaf difreintiedig) i 1,909 (lleiaf difreintiedig).

2. Cyflwyniad

Cefndir a chyd-destun

- 2.1 Mae'r system ysgolion yng Nghymru yn cael ei diwygio'n sylweddol. Mae [Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl](#) yn gosod gweledigaeth feiddgar ar gyfer trawsnewid y cwricwlwm a gwella sgiliau a gwybodaeth plant a phobl ifanc. Mae hyn yn adeiladu ar yr ymateb i adroddiad [Dyfodol Llwyddiannus](#) 2015, adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a threfniadau asesu yng Nghymru, a gwaith parhaus i gyflawni blaenoriaethau polisi cenedlaethol cysylltiedig megis [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg](#) a Deddf [Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#).
- 2.2 Mae Cwricwlwm i Gymru (CiG), sy'n gonglfaen i'r diwygiadau, wedi'i ddatblygu ers hynny gydag ysgolion, athrawon ac arbenigwyr. Ei nod yw rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau sydd eu hangen ar ddysgwyr ar gyfer cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithredol yn y byd sy'n newid yn gyflym. Mae ysgolion a lleoliadau addysgol eraill wedi dechrau addysgu CiG i bob dysgwr hyd at Flwyddyn 6. Mae bron i hanner yr ysgolion uwchradd hefyd wedi manteisio ar yr opsiwn i'w haddysgu i ddysgwyr Blwyddyn 7 o'r flwyddyn academaidd. 2022/23 cyn iddo ddod yn statudol ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 7 ac 8 ym mhob ysgol o fis Medi 2023.¹ Bydd y cymwysterau cyntaf o dan y cwricwlwm newydd yn cael eu dyfarnu yn 2027.
- 2.3 Mae [Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl, a ddiweddarwyd ym mis Hydref 2020](#), yn nodi cynllun gweithredu ar gyfer parhau i roi CiG ar waith. Fe'i hategir gan bedwar amcan galluogi sy'n ganolog i wireddu'r weledigaeth newydd ar gyfer y system ysgolion a'i dysgwyr. Mae'r pedwerydd o'r amcanion galluogi hyn yn creu 'trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn' sy'n cyd-fynd ag egwyddorion CiG ac sy'n gallu cefnogi system hunan wella.
- 2.4 Comisiynwyd yr astudiaeth hon i hyrwyddo'r pedwerydd amcan hwn. Mae'n rhan o raglen ehangach o dystiolaeth ac ymchwil. Er enghraifft, lansiodd [Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd](#) yn ystod haf 2022, ynghyd â phhecyn cyfatebol o [adnoddau i gefnogi ysgolion i gynnal hunanwerthuso cadarn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth](#). (NR:EI). Cwblhawyd [astudiaeth Gwmpasu ar wahân ar gyfer gwerthuso'r diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru](#), a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ddiweddar hefyd, a oedd yn archwilio ac

¹ [Datganiad Ysgrifenedig: Cyflwyno Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion uwchradd o fis Medi 2022](#)

yn gwneud argymhellion ar sut i fonitro a gwerthuso gweithrediad y diwygiadau a'u heffeithiau dros y 10 mlynedd nesaf.

- 2.5 Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried canfyddiadau'r astudiaeth gwmpasu gwerthusiad ynghyd â meysydd ymchwil a datblygu polisi cysylltiedig yn hydref a gaeaf 2022, gyda'r bwriad o gyhoeddi cynllun gwerthuso manwl yn ystod haf 2023.

Am yr astudiaeth ymchwil

- 2.6 Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw 'ecosystem' data a gwybodaeth sy'n gwbl gyson ag egwyddorion CiG ac sy'n cefnogi'r holl bartneriaid i'w rhoi ar waith yn llwyddiannus. Mae'r ecosystem hon yn cwmpasu tair swyddogaeth allweddol:
- hunan-werthuso a gwella
 - atebolrwydd
 - thryloywder i ddinasyddion ehangach.²
- 2.7 Mae'r swyddogaethau hyn yn bodoli ar draws pob un o'r tair haen o'r system ysgolion: mae ysgolion a lleoliadau eraill, er enghraifft, yn gyfrifol am hunan-werthuso a gwella eu cwricwla a'u gwasanaethau; ar yr haen ganol, Estyn sy'n gyfrifol am atebolrwydd ysgolion, ac mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn cefnogi ysgolion gyda'u hunan-werthuso a'u gwella eu hunain; ac ar lefel genedlaethol, mae Llywodraeth Cymru yn ysgogi hunan-werthuso a gwella polisi a thryloywder i rieni a gofalwyr, cymunedau a rhanddeiliaid ehangach. Mae gan y sefydliadau hyn ac asiantaethau eraill ystod o wahanol anghenion ar gyfer defnyddio data a gwybodaeth i gefnogi pob swyddogaeth.³
- 2.8 Arweiniodd nifer o ffactorau at gomisiynu'r astudiaeth ymchwil hon. Yn gyntaf, yn hanesyddol bu ffocws anghymesur ar gyrhaeddiad dysgwyr mewn asesiadau crynodol (h.y. canlyniadau cymwysterau Cyfnod Allweddol 4) o fewn yr ecosystem data a gwybodaeth ar gyfer y tair swyddogaeth. Mae hyn wedi arwain at ganlyniadau anfwriadol lle nad yw budd dysgwyr unigol wedi'i roi wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Er enghraifft, roedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o ganfyddiadau ymhlith rhanddeiliaid systemau bod: rhai ysgolion wedi dewis cynnig cymwysterau oherwydd eu bod yn 'werth' mwy mewn mesurau

² Rydym wedyn yn cyfeirio at y swyddogaethau allweddol hyn fel hunanwerthuso, atebolrwydd a thryloywder.

³ Yn yr adroddiad hwn rydym yn cyfeirio at y trefniadau partneriaeth gwella ysgolion rhwng awdurdodau lleol fel consortia rhanbarthol, sydd ar waith yn y rhan fwyaf o ranbarthau. Lle mae awdurdodau lleol wedi dewis cyflwyno'r holl weithgareddau gwella ysgolion eu hunain, dylid dehongli'r cyfeiriadau i fod yr un mor berthnasol iddynt hwy.

perfformiad ysgolion, waeth beth fo'u haddasrwydd ar gyfer dysgwyr unigol; mae eraill wedi tynnu dysgwyr o ddosbarthiadau yn rhy gynnar gan fod canlyniadau eu cymwysterau yn debygol o gael effaith negyddol ar brif ffigurau perfformiad yr ysgol; a bod data wedi'u defnyddio y tu allan i'r cyd-destun o fewn yr haen ganol ac ar lefel genedlaethol, gan arwain at ysgolion yn teimlo eu bod yn cael eu craffu'n annheg (e.e. tablau cynghrair a sgorau yn seiliedig ar ddeilliannau cymwysterau CA4) a chamddyrrannu adnoddau ar gyfer cymorth a chynllunio gwella.

2.9 Mae CiG hefyd yn llawer mwy hyblyg – mae ysgolion yn dylunio eu cwricwla eu hunain – ac yn fwy eang. Mae'r [pedwar diben](#) yn nodi gweledigaeth ehangach ar gyfer addysg yng Nghymru, ac yn blaenoriaethu cefnogi dysgwyr i ddod yn: gyfranwyr mentrus, creadigol, dinasyddion moesegol, gwybodus, ac unigolion iach, hyderus, ochr yn ochr ag uchelgeisiau a safonau uchel ar gyfer dysgu a chyrhaeddiad. Nid yw'r hen ecosystem data a gwybodaeth, sy'n canolbwyntio'n gul ar gymwysterau Cyfnod Allweddol 4 a chanlyniadau asesu eraill, yn cefnogi'r weledigaeth hon.

2.10 Yn hydref 2021, felly, comisiynodd Llywodraeth Cymru Cyllid Cymdeithasol (SF) i gynnal yr astudiaeth ymchwil hon i gefnogi datblygiad ecosystem data a gwybodaeth newydd sy'n adlewyrchu cynnwys ac ethos CiG.

Amcanion a chwestiynau ymchwil allweddol

2.11 Nod yr astudiaeth ymchwil hon yw diffinio ecosystem data a gwybodaeth ysgolion newydd i Gymru a all gefnogi tair swyddogaeth graidd rhanddeiliaid o fewn y system ysgolion:

- hunan-werthuso a gwella gwasanaethau, cymorth, neu bolisïau ar draws pob haen
- atebolrwydd a throsolwg effeithiol ar bob haen
- tryloywder ar draws y system, gan ddangos perfformiad a chynnydd i rieni a gofalwyr, cymunedau a rhanddeiliaid ehangach.

2.12 Diffinnir 'Ecosystem' yma yn y termau ehangaf posibl, gan gwmpasu'r ystod lawn o wybodaeth a gesglir ac a ddefnyddir gan bartneriaid ar bob haen. Yn wir, yn y [canllawiau gwella Ysgolion](#) a gyhoeddwyd yn ddiweddar, anogir y partneriaid hyn i ddefnyddio ystod lawer ehangach o ddata a gwybodaeth nag a ddefnyddiwyd yn flaenorol i gyflawni eu priod swyddogaethau craidd. Wrth ddeall a diffinio'r ecosystem bresennol a gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau a gwelliannau yn

y dyfodol, mae'r astudiaeth felly'n ceisio ystyried, ymhlith ffactorau eraill: data ansoddol a meintiol; data newydd presennol a phosibl; 'teithiau' data (sut mae data'n cael eu casglu, eu prosesu a'u defnyddio gan wahanol bartneriaid i lywio penderfyniadau); dangosyddion ac adrodd; a diogelwch a moeseg. Mae'r adran Methodoleg yn amlinellu sut yr aethom ati i ddeall a diffinio'r agweddau amrywiol hyn ar yr ecosystem.

2.13 Nodwyd sawl elfen arall fel rhai pwysig wrth ddiffinio'r ecosystem newydd:

- aliniad â CiG: rhaid i'r ecosystem newydd adlewyrchu ehangder y cwricwlwm, gan helpu i greu dealltwriaeth fwy cyfannol o gyrhaeddiad, a'i roi ar yr un lefel â phethau megis lles
- ymddiriedaeth a chefnogaeth: rhaid i'r ecosystem newydd gael ymddiriedaeth a chefnogaeth rhanddeiliaid ar bob lefel, yn enwedig ysgolion, awdurdodau lleol, a chonsortia rhanbarthol, ac felly dylid ei datblygu'n agos gyda nhw
- hunan-werthuso a gwella: rhaid i'r ecosystem hefyd helpu i gyflawni nodau'r canllawiau gwella Ysgolion diweddar, sy'n nodi y dylai'r rhan fwyaf o'r egni a'r ffocws yn y system fod ar wella ysgolion, er wedi'u hategu gan fecanweithiau atebolrwydd a thryloywder cryf
- wedi'i adeiladu ar gyfer y dyfodol: yn ogystal ag argymell newidiadau yn y tymor agos, dylid datblygu egwyddorion a dulliau mwy cyffredinol a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i barhau i esblygu'r ecosystem wrth i ddealltwriaeth a phrofiad ysgolion o CiG ddatblygu
- dysgu o ddulliau eraill: mae sawl gwlad arall ar daith debyg i Gymru neu wedi bod ar daith debyg i Gymru wrth ddiwygio eu systemau addysg. Mae'n hanfodol felly ystyried yr arferion diweddaraf o'r gwledydd hyn a rhannau eraill o'r DU sy'n cefnogi systemau addysg blaengar sy'n gweithredu'n dda.

2.14 Gosododd yr astudiaeth nifer o gwestiynau ymchwil yn ymwneud ag anghenion penodol rhanddeiliaid yn y system ar gyfer defnyddio data a gwybodaeth (isod). Y bwriad wedyn oedd defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd o ateb y cwestiynau hyn fel man cychwyn ar gyfer datgelu mewnwelediad ehangach i natur a diffiniad yr ecosystem data a gwybodaeth yng Nghymru ac egwyddorion cyffredinol i danategu ei esblygiad yn y dyfodol (trafodir yn fanylach yn yr adran Methodoleg).

1. pa ddata a gwybodaeth sydd fwyaf defnyddiol i fodloni'r tair swyddogaeth allweddol?

2. pa ddata a gwybodaeth sydd eisoes yn cael eu casglu, eu dadansoddi ac sydd ar gael i wahanol haenau o'r system? Pa mor ddefnyddiol ydyw ac i bwy?
3. pa ddata a gwybodaeth sydd eisoes yn bodoli nad ydynt yn berthnasol neu'n ddefnyddiol at y dibenion hyn? Ble mae'r bylchau blaenoriaeth?
4. sut gall rhanddeiliaid wneud y defnydd gorau o ddata a gwybodaeth sydd eisoes yn bodoli?
5. beth yw'r opsiynau i fynd i'r afael â bylchau data a gwybodaeth â blaenoriaeth?
6. beth yw manteision, costau a risgiau'r opsiynau hyn?

Cwmpas

- 2.15 Nid oedd y cymwysterau a ddefnyddir yn y system ysgolion o fewn y cwmpas. Mae Cymwysterau Cymru, y rheoleiddiwr cymwysterau annibynnol, wrthi'n adolygu'r cymwysterau a'r trefniadau asesu yn y dyfodol o dan y CiG yn barod i'r dysgwyr cyntaf eu sefyll yn 2026/27. Fodd bynnag, mae data canlyniadau cymwysterau – o ganlyniadau crai asesuadau crynodol yn CA4 i ddangosyddion cryno o lefel ysgol a chyrhaeddiad cenedlaethol – wrth gwrs yn un o'r rhannau pwysicaf o unrhyw ecosystem data a gwybodaeth ysgolion, waeth beth yw'r cymwysterau. Felly penderfynwyd bod dangosyddion perfformiad, o'r math a ddefnyddir i grynhoi data canlyniadau cymwysterau, o fewn cwmpas y prosiect hwn. Nid oedd trefniadau ôl-16 o fewn y cwmpas.
- 2.16 Nid yw'r adroddiad hwn ychwaith yn ymdrin â phob agwedd ar y defnydd o ddata a gwybodaeth yn y system ysgolion. Cydnabyddir gwerth ymchwil sy'n cysylltu data yn yr [astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru](#), ond nid yw'r adroddiad hwn yn ymdrin â hyn yn benodol. Roedd y wybodaeth y mae ysgolion a rhanddeiliaid eraill yn ei defnyddio o ddydd i ddydd at ddibenion gweithredol, er enghraifft cofnodi cynnydd cynyddrannol dysgwyr unigol, y tu allan i'r cwmpas. Er bod y wybodaeth hon yn sicr yn rhan allweddol o'r ecosystem data a gwybodaeth, roedd yr adroddiad hwn yn ymwneud yn bennaf ag achosion lle mae anghenion data a gwybodaeth ysgolion lluosog yn dod at ei gilydd, er enghraifft pan fydd data'n cael eu casglu a/neu eu hadrodd mewn ffordd gyson a safonol ar draws sefydliadau lluosog a grwpiau rhanddeiliaid. Trafodir y gwahaniaeth hwn yn fanylach yn adran 4 y Canfyddiadau.
- 2.17 Yn yr un modd, nid yw pob maes polisi ysgol yn cael ei gynnwys. Roedd ein hymagwedd seiliedig ar anghenion (a ddisgrifir yn y Fethodoleg) yn golygu bod ein

canfyddiadau a'n hargymhellion yn ymateb i'r anghenion rhanddeiliaid hynny a ddaeth i'r amlwg fel blaenoriaethau ar adeg yr ymchwil ac ysgrifennu. Nid yw hyn yn golygu nad yw meysydd polisi a defnyddiau eraill o ddata a gwybodaeth nad ydynt yn amlwg yn yr adroddiad yn berthnasol nac yn eistedd y tu allan i'r ecosystem data a gwybodaeth. Yn wir, bydd y data a'r ecosystem bob amser yn esblygu wrth i'r CiG ddod yn fwy sefydledig ac wrth i'r system ysgolion weithio tuag at y weledigaeth a nodir yn y Canllawiau Gwella Ysgolion, felly mae'n bosibl iawn adolygu'r meysydd hyn a/neu eu diwygio yn y dyfodol. Trafodir hyn ymhellach yn yr adran Argymhellion.

- 2.18 Yn olaf, cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r ymchwil ar gyfer yr astudiaeth hon yn ystod y flwyddyn academaidd 2021/22, a oedd yn gyfnod o gynnwrf sylweddol yn y system ysgolion wrth i ysgolion a phartneriaid eraill wella o'r pandemig corona-firws (Covid-19). Roedd rhai o'r dulliau cyn-Coronafirws o ddefnyddio data a gwybodaeth (e.e. mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4) wedi'u gohirio yn ystod y cyfnod hwn. Felly, ystyriodd yr astudiaeth hon y dulliau a oedd ar waith ar adeg yr ymchwil a'r ysgrifennu yn ogystal â'r rhai cyn-Coronafirws. Gwneir y gwahaniaeth hwn drwy gydol yr adroddiad lle bo'n berthnasol.

3. Methodoleg


Trosolwg o'r fethodoleg

3.1 Dechreuodd Cyllid Cymdeithasol y prosiect ymchwil hwn ym mis Mai 2021. Ein dull oedd gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid ar draws y system ysgolion yng Nghymru drwy gydol y prosiect i gyd-greu atebion a oedd yn bodloni eu hanghenion. Roedd pedwar cam i'r ymchwil:

1. **Cyfnod 1: Deall yr ecosystem** – dechreuasom gyda chyfnod cwmpasu eang i ddeall y dirwedd bolisi, rolau a chyfrifoldebau gwahanol rhanddeiliaid, a chyflwr presennol yr ecosystem data a gwybodaeth; a sut y gallai'r rhain newid ac esblygu wrth i'r CiG gael ei gyflwyno. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu cychwynol â rhanddeiliaid, mapio systemau a mapio data, ac ymchwil desg. Fe wnaethom greu fframweithiau cysyniadol ar gyfer deall gwahanol agweddau ar yr ecosystem data a gwybodaeth, a lywiodd ein dulliau ymchwil a'n proses datblygu argymhellion yn y cyfnodau dilynol.
2. **Cyfnod 2: Mapio anghenion rhanddeiliaid** – cynhaliwyd ail gylch manylach o ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddeall anghenion data penodol rhanddeiliaid, beth sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd, a lle canfyddir bod bylchau yn y data a'r defnydd ohonynt. Fe wnaethom greu dogfennau manwl ynghylch anghenion defnyddwyr yn crynhoi canfyddiadau ar gyfer pob grŵp rhanddeiliaid, a gafodd eu rhannu a'u profi gyda rhanddeiliaid allweddol.
3. **Cyfnod 3: Synthesis ac asesiad o anghenion defnyddwyr** – cyfosodwyd yr adborth ar ddogfennau manwl ynghylch anghenion defnyddwyr yn ogystal â chanfyddiadau o feysydd ymchwil eraill i gyrraedd rhestr gyfunol o anghenion defnyddwyr ar gyfer yr ecosystem data a gwybodaeth. Yna fe wnaethom gynnal asesiad manwl o anghenion pob defnyddiwr gan ddefnyddio templed cyffredin i benderfynu a yw'n cael ei ddiwallu gan ddata a gwybodaeth gyfredol, neu a oes angen data safonol newydd neu ychwanegol. Fe wnaethom hefyd gynnal adolygiad rhyngwladol enghreifftiol yn y cyfnod hwn.
4. **Cyfnod 4: Datblygu opsiynau ac argymhellion** – nododd yr asesiad o'r rhestr o holl anghenion defnyddwyr feysydd lle mae angen rhywfaint o newid neu ddata safonol ychwanegol (a lle nad oes angen). Rhoesom hyn ynghyd â chanfyddiadau perthnasol o feysydd ymchwil eraill i ddatblygu set o argymhellion ar ble mae angen newidiadau ar gyfer yr ecosystem data a gwybodaeth newydd,

eto gan ddefnyddio templed cyffredin i archwilio'r manylion a'r goblygiadau. Roedd hon yn broses iteraidd yn cynnwys profi gyda rhanddeiliaid amrywiol.

Ffigur 3.1: Trosolwg o fethodoleg ymchwil



Ymagwedd at ymchwil ac ymgysylltu â rhanddeiliaid

3.2 Nodwyd bod ymgysylltu a chyd-adeiladu helaeth â phartneriaid ar draws y system addysg ac o amgylch Cymru yn hanfodol i lwyddiant yr ymchwil. Felly, fe wnaethom gymhwyso pedair egwyddor foesebol i danategu ein dull ymchwil cydgynhyrchu ac ymchwil cyfranogol:

- **cydfuddiannol** – rydym yn gwerthfawrogi arbenigedd gweithwyr proffesiynol, dysgwyr, teuluoedd a rhanddeiliaid eraill, a byddwn yn rhoi iawndal teg iddynt am eu cyfraniadau. Lle bo'n briodol, bydd hyn yn cynnwys iawndal ariannol / taleb. I weithwyr proffesiynol, gall iawndal fod yn llai diriaethol, gan y bydd eu dirnadaeth yn helpu i ddatblygu system sy'n gwasanaethu eu hanghenion yn well
- **ymgysylltu parhaus** – efallai y bydd pobl yn awyddus i gymryd rhan drwy gydol y broses, er mwyn sicrhau bod eu harbenigedd yn llywio newid. Bydd yr holl rhanddeiliaid sy'n ymgysylltu â ni yn cael eu gwahodd i fwydo i mewn i'r prosiect drwy gydol ei oes a byddwn yn darparu manylion cyswllt uniongyrchol ar gyfer yr ymchwilwyr i alluogi hyn.
- **anechdynnol** – byddwn yn sicrhau bod unrhyw faterion sensitif yn cael eu trin â gofal. Er bod sgysiau am ddata yn debygol o ddatgelu pynciau sensitif, gallai

rhai cyfweleion fyfyrion ar eu profiadau personol eu hunain o ran pa ddata sy'n bwysig (yn enwedig ynghylch lles). Byddwn yn ymwybodol o hyn ac ni fyddwn byth yn ymchwilio ymhellach nag sy'n briodol

- **diogelu a chydysniad** – rhaid i bob ymchwilydd gael gwiriad DBS ac ni fydd cyfweiliadau â phobl ifanc neu oedolion agored i niwed byth yn cael eu cynnal fel un-wrth-un. Fel rhan o sicrhau caniatâd gwybodus, byddwn yn esbonio i randdeiliaid sut y gallant roi gwybod am bryderon. Bydd y canfyddiadau'n ddiennw a bydd holl ddefnydd/storio data a gesglir yn y prosiect yn unol â GDPR

3.3 Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau ymchwil ar gyfer defnyddwyr wedi'u teilwra i wahanol gynulleidfaoedd a rhoddwyd cyfle i bawb ymgysylltu â ni yn Gymraeg (yn ysgrifenedig ac mewn sesiynau personol). Roedd dulliau ymchwil yn cynnwys:

- **cyfweiliadau:** gwnaed mwyafrif yr ymchwil trwy gyfweiliadau lled-strwythuredig (tua 60 munud), gyda chanllawiau pwnc a chwestiynau penagored. Caniatawyd ar gyfer trafod ac archwilio materion allweddol
- **grwpiau ffocws:** defnyddiwyd grwpiau ffocws, yn nodweddiadol o bedwar i chwech o bobl (naill ai o fewn yr un sefydliad neu ar draws sefydliadau), i feithrin cyd-ddealltwriaeth, archwilio materion o safbwyntiau lluosog, a datblygu a phrofi syniadau newydd
- **arolygon:** i wneud y mwyaf o ehangder a hygyrchedd ymgysylltu, fe wnaethom ddsbarthu arolwg i rieni a gofalwyr ac ysgolion
- **gweminarau:** fe wnaethom gynnal gweminarau i wahodd adborth ar ein hargymhellion gan gymuned ehangach yr ysgol.

3.4 Er mwyn ceisio ymgysylltu â sampl mor gynrychioliadol â phosibl o ysgolion, fe wnaethom ddatblygu maen prawf samplu (gan gynnwys sector, llywodraethu, cyfrwng y Gymraeg / Saesneg, canran y disgyblion sy'n gymwys i gael FSM, cymeriad crefyddol, a lleoliad), a ddefnyddiwyd wrth ddylunio holl feysydd ymgysylltu ag ysgolion.

3.5 Dylid nodi bod ein hymchwil wedi digwydd yn ystod y flwyddyn academiaidd 2021/22, pan oedd llawer o'r trefniadau ar gyfer defnyddio data a gwybodaeth a ddefnyddiwyd cyn corona-firws wedi'u hatal. Felly roedd ein hymchwil yn cwmpasu myfyrdodau'r rhanddeiliaid ar ddulliau gweithredu cyn corona-firws ac ar ddata sydd ar gael nawr.

Dull iteratidd a gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru

- 3.6 Roedd yr ymagwedd at yr ymchwil yn iteraidd ac yn addasol. Ar ddechrau'r prosiect, er bod gennym ni a Llywodraeth Cymru ddealltwriaeth hewristig gadarn o siâp, cyd-destun a chynnwys yr ecosystem data a gwybodaeth, nid oedd wedi'i diffinio'n ffurfiol o'r blaen. O'r herwydd, roedd angen oedi a myfyrio'n barhaus ar ganfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg, asesu a oedd ein dulliau ymchwil yn rhoi'r canlyniadau disgwylidig, ac addasu yn unol â hynny (e.e. meysydd ar gyfer ymchwil pellach, fformat a chynnwys yr allbynnau)
- 3.7 Buom yn gweithio'n agos gydag aelodau Cangen Gwybodaeth a Gwella Ysgolion Llywodraeth Cymru, a gomisiynodd yr ymchwil, drwy gydol y prosiect. Darparodd y tîm hwn fynediad at ddogfennaeth a rhanddeiliaid perthnasol ar gyfer ymgynghori, gwirio a herio, ac adborth rheolaidd ar ganfyddiadau ac argymhellion a oedd yn dod i'r amlwg. Roedd ein perthynas waith agos â'r tîm hwn yn amhrisiadwy i lwyddiant y prosiect.
- 3.8 Darparodd Grŵp Llywio drefniadau llywodraethu a goruchwylio prosiectau. Ei rôl oedd sicrhau bod dulliau ymchwil o ansawdd uchel yn unol â Safonau Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth. Roedd yr aelodaeth yn cynnwys penaethiaid ac aelodau o dimau polisi Llywodraeth Cymru. Cyfarfuom hefyd yn chwarterol â Grŵp Cynghori ar wahân. Darparodd y grŵp hwn gyd-destun ychwanegol, gwybodaeth, a her adeiladol, amlygodd feysydd i'w hymchwilio ymhellach, a chefnogodd ymgysylltu â rhanddeiliaid. Roedd yr aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, Estyn, consortia rhanbarthol, Cymwysterau Cymru, a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Cyfnod 1: Deall yr ecosystem

- 3.9 Defnyddiwyd y cam cwmpasu cychwynnol hwn i fireinio ein dealltwriaeth o'r dirwedd polisi a rolau a chyfrifoldebau rhanddeiliaid allweddol. Fe wnaethom gynnal adolygiad bwrdd gwaith o ddeddfwriaeth addysg, polisi, a dogfennau mewnol i gael dealltwriaeth sylfaenol o'r ecosystem data a gwybodaeth gyfredol. Cynhaliwyd cyfweiliadau cwmpasu cychwynnol gyda rhanddeiliaid ar draws y system. Mae Atodiad A yn rhoi crynodeb o'r ymchwil bwrdd gwaith a defnyddwyr a wnaethom yn ystod y cyfnod hwn.
- 3.10 Yn ystod y cyfnod hwn fe wnaethom hefyd gynnal gwaith mapio data a mapio gweledol o'r ecosystem data a gwybodaeth. Roedd hyn er mwyn nodi pa ddata sydd ar gael ac a ddefnyddir ar hyn o bryd, ac i gael syniad o heriau a materion yn y

system i'w harchwilio ymhellach. Ar gyfer mapio data, fe wnaethom adeiladu ar waith a ddechreuwyd gan Arad yn eu hastudiaeth gwmpasu gyfochrog ar gyfer [gwerthuso'r diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru](#), a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

- 3.11 Roedd y gweithgareddau hyn hefyd yn bwysig ar gyfer diffinio agweddau allweddol ar yr ecosystem a oedd yn sail i gyfnod dilynol yr ymchwil (e.e. mathau o ddata, data hyblyg yn ôl data safonol). Fe wnaethon ni ddiffinio data safonedig fel unrhyw ddata a gesglir a/neu yr adroddir arnynt mewn ffordd gyson a safonedig ar draws sefydliadau lluosog (e.e., sawl ysgol neu bob ysgol, pob awdurdod lleol).

Cyfnod 2: Mapio anghenion rhanddeiliaid

- 3.12 Nod y cam hwn oedd deall a mapio'n fanwl anghenion gwahanol rhanddeiliaid yn y system addysg, a'r data a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i ddiwallu'r anghenion hyn. Er enghraifft, mae angen i Estyn gynnal arolygiadau rheolaidd ar ysgolion yn unol â'u [Fframwaith Arolygu](#) statudol, ac mae angen ystod o ddata a gwybodaeth arnynt i wneud hyn yn effeithiol. Defnyddiwyd dull gweithredu a arweinir gan anghenion, sy'n gonglfaen i gynllunio data a gwasanaethau digidol da (e.e. un o'r egwyddorion yn [Safonau Gwasanaeth Digidol Cymru y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol](#)).
- 3.13 Roedd cwestiynau ymchwil allweddol ar gyfer y cyfnod hwn yn cynnwys:
- ble mae angen data ar rhanddeiliaid o fewn y system ysgolion yng Nghymru i gyflawni neu gefnogi eu priod swyddogaethau a chyfrifoldebau craidd?
 - pa ddata a gwybodaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd sy'n bodloni'r anghenion hyn?
 - ble mae bylchau yn y data a'r wybodaeth sydd ar gael – a chyfleoedd ar gyfer data a gwybodaeth newydd, gwerthfawr?
 - ble byddai'n fuddiol i ddata gael eu safoni?
- 3.14 Fe wnaethom ateb y cwestiynau hyn mewn tair ffordd: ymgysylltu pellach, manylach â rhanddeiliaid; ymchwil bwrdd gwaith wedi'i dargedu i archwilio cwestiynau a nodwyd yn ystod ymgysylltu manylach; a chreu dogfennau manwl ynghylch anghenion defnyddwyr ar gyfer pob un o'r grwpiau rhanddeiliaid allweddol, a rannwyd gyda'r rhanddeiliaid hyn i'w dilysu ac i roi adborth.

- 3.15 Ar y pwynt hwn yn y prosiect, rhannwyd rhanddeiliaid yn ddau gategori: i) rhanddeiliaid allweddol; a ii) rhanddeiliaid pwysig eraill. Roedd rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys:
- ysgolion (lefel leol)
 - Estyn, awdurdodau lleol, a chonsortia rhanbarthol (haen ganol)
 - Llywodraeth Cymru (lefel genedlaethol).
- 3.16 Mae gan y rhanddeiliaid allweddol hyn y prif rolau o ran cyflawni swyddogaethau craidd hunanwerthuso, atebolrwydd a thryloywder ac felly gwneud y defnydd mwyaf o ddata a gwybodaeth. Fe wnaethom ymgysylltu â nhw yn amlach ac yn fanylach.
- 3.17 Wrth gwrs, mae gan rhanddeiliaid eraill – gan gynnwys awdurdodau Esgobaethol, cyflogwyr, lleoliadau addysg bellach ac uwch, dysgwyr, a rhieni a gofalwyr – anghenion data a gwybodaeth pwysig. Rhoddwyd yr un pwys ar y rhain â rhai rhanddeiliaid allweddol wrth ddatblygu atebion, fodd bynnag, canfuwyd yn gyffredinol eu bod angen data a gwybodaeth yn llai aml neu at ddiben penodol iawn, felly roedd angen i ni ymgysylltu llai â nhw. Mae Atodiad A yn amlinellu'r gweithgareddau ymchwil defnyddwyr ar gyfer pob grŵp rhanddeiliaid.
- 3.18 Yn ogystal ag ymchwil wyneb yn wyneb, fe wnaethom arolygu rhieni a chymunedau ysgolion trwy arolwg. Roedd yr arolwg yn ddiennw gyda'r opsiwn i adael cyfeiriad e-bost os oedd cyfranogwyr am fod yn rhan o grŵp ffocws dilynol. Cawsom 50 o ymatebion i'r arolwg, a chynhaliom un grŵp ffocws. Amcan ymgysylltu â rhieni a gofalwyr oedd deall pa wybodaeth fyddai'n eu helpu i ddeall sut roedd ysgolion unigol a'r system ehangach yn gweithio.

Ymchwil bwrdd gwaith

- 3.19 Ochr yn ochr â'n cyfweiliadau ymchwil defnyddwyr, fe wnaethom gynnal ymchwil bwrdd gwaith i gael mewnwleidiad pellach. Roedd hyn yn cynnwys ymchwil i:
- **cyd-destun polisi:** buom yn ystyried argymhellion a oedd yn dod i'r amlwg o ddogfennau polisi perthnasol – gan gynnwys yr Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol, adroddiad gwerthuso Cwricwlwm i Gymru Arad, a'r [Ymagwedd Ysgol Gyfan at Iechyd Meddwl: Asesiad Gwerthusadwyedd](#) – a'u heffaith ar ein hymchwil. Gwnaethom hefyd nodi meysydd polisi a oedd yn dal i gael eu datblygu (e.e. trefniadau cymwysterau Blwyddyn 11) a allai effeithio ar ein hargymhellion terfynol

- **mapio data presennol:** Gan adeiladu ar waith a gwblhawyd gan Arad yn eu hastudiaeth gwmpasu, fe wnaethom gynnal ymarfer mapio data. Diben hyn oedd nodi setiau data perthnasol presennol i lywio ein dealltwriaeth o 'fel y mae' yr ecosystem ddata ac i lywio ein sgysiau diweddarach â rhanddeiliaid ynghylch y data y maent yn eu defnyddio ar hyn o bryd.
- **mapio anghenion data o'r brig i lawr:** Ar sail ein dealltwriaeth o gyfrifoldebau rhanddeiliaid o ymchwil bwrdd gwaith, fe wnaethom nodi rhestrau cychwynnol o ofynion data posibl ar gyfer rhanddeiliaid allweddol. Yna cafodd y mewnwleidiadau hyn eu dilysu yn ôl canfyddiadau o gyfweiliadau â rhanddeiliaid.

Creu a phrofi dogfennau anghenion defnyddwyr manwl

3.20 Cafodd canfyddiadau ac allbynnau'r gweithgareddau ymchwil uchod eu cyfuno i greu rhestrau hir o anghenion defnyddwyr ar gyfer pob rhanddeiliad allweddol. Anfonwyd crynodebau o'r wybodaeth hon – dogfennau manwl anghenion defnyddwyr – at gynrychiolwyr pob rhanddeiliad allweddol i'w dilysu a'u hadolygu. Roedd y dogfennau hyn yn crynhoi, ar gyfer pob rhanddeiliad allweddol, eu hanghenion blaenoriaeth, y data sydd ar gael ar hyn o bryd, a bylchau a heriau posibl. Roeddent hefyd yn cyflwyno opsiynau ar gyfer newidiadau a/neu data safonol ychwanegol y gellid eu casglu i fynd i'r afael â bylchau a heriau (gan gynnwys eu manteision a'u hanfanteision priodol), a gofynnodd am adborth ar yr opsiynau hyn. Cafwyd adborth naill ai'n ysgrifenedig neu mewn sgwrs ddilynol gan nifer o ysgolion, awdurdodau lleol, a thimau polisi Llywodraeth Cymru. Darparodd Estyn a chonsortia rhanbarthol adborth wedi'i goladu. Gweler Atodiad B am enghraifft o'r dogfennau manwl hyn.

Cyfnod 3: Synthesis ac asesiad o anghenion defnyddwyr

3.21 Roedd dwy ran i drydydd cyfnod yr ymchwil:

- asesu anghenion defnyddwyr a datblygu damcaniaethau – gan adeiladu ar y dogfennau manwl ynghylch anghenion defnyddwyr fe wnaethom greu un rhestr hir gynhwysfawr o anghenion defnyddwyr ar gyfer yr ecosystem gyfan. Aseswyd pob un o'r rhain gan ddefnyddio templed cyffredin i nodi a oes angen newid ac i gynhyrchu damcaniaethau cychwynnol ar gyfer sut y gallai hyn edrych.
- adolygiad rhyngwladol enghreifftiol – adolygiad cyflym o systemau addysg mewn gwledydd tebyg i Gymru i nodi arfer perthnasol wrth ddylunio agweddau ar system data a gwybodaeth.

Asesiad o anghenion defnyddwyr a datblygu damcaniaeth

- 3.22 Drwy edrych ar y dogfennau manwl ynghylch anghenion defnyddwyr a ddatblygwyd ac a brofwyd yng Nghyfnod 2, gwnaethom nodi bod gan nifer o randdeiliaid anghenion cyffredin am ddata a gwybodaeth. Felly fe wnaethom gyfuno'r canfyddiadau hyn yn un rhestr hir gynhwysfawr o anghenion defnyddwyr ar gyfer yr ecosystem gyfan.
- 3.23 Fe wnaethom greu templed i asesu pob un o anghenion cyfun y defnyddwyr. Roedd hwn yn tynnu ynghyd yr holl wybodaeth berthnasol a gasglwyd hyd yma ar gyfer pob angen defnyddiwr (e.e. data sydd ar gael ar hyn o bryd a bylchau, anghenion pob rhanddeiliad a thensiynau rhyngddynt, cwestiynau ymchwil heb eu datrys). Yn ystod cyfres o weithdai mewnol, fe wnaethom werthuso'r wybodaeth hon a chreu damcaniaethau ynghylch a oes angen rhywfaint o newid neu ddata newydd i ddiwallu anghenion. Mae crynodeb o'r allbynnau o'r broses hon ar gyfer angen un defnyddiwr (lles y dysgwr) yn ymddangos yn adran 5 Canfyddiadau isod. Cyflwynwyd canfyddiadau'r ymarfer i Lywodraeth Cymru a'r Grŵp Llywio a'r Grŵp Cynghori mewn adroddiad interim.


Adolygiad enghreifftiol rhyngwladol – dysgu o wledydd eraill

- 3.24 Ochr yn ochr â'r asesiad o anghenion data a gwybodaeth rhanddeiliaid, fe wnaethom gynnal adolygiad llenyddiaeth lled-strwythuredig o bolisi ac ymarfer perthnasol mewn systemau data a gwybodaeth addysg mewn gwledydd eraill. Y diben oedd deall arfer da yn ymwneud â gwelliannau, atebolrwydd a thryloywder, a nodi gwersi allweddol a allai lywio ein hargymhellion ar gyfer Cymru.
- 3.25 Targedwyd ymchwil i archwilio materion a chwestiynau penodol sy'n berthnasol i'r Gymraeg a'n dealltwriaeth o anghenion rhanddeiliaid ar y cam hwn yn y prosiect. Cyfyngwyd ymchwil hefyd i leoedd tebyg i Gymru er mwyn sicrhau bod y canfyddiadau'n gymwys ac yn berthnasol. Y gwledydd a ddewiswyd oedd y Ffindir, Seland Newydd (Aotearoa), Singapôr, rhanbarthau dwyieithog Sbaen (Catalonia a Gwlad y Basg), yr Alban, a Gogledd Iwerddon. Fe wnaethom archwilio'r agweddau canlynol ar ecosystemau data a gwybodaeth: lles, samplu, cipio data dwyieithog/lluieithog, dilyniant (o ran cyflawniad a chyrhaeddiad), a chyfathrebu. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad C.

Cyfnod 4: Datblygu opsiynau ac argymhellion

- 3.26 Nododd yr asesiad manwl o anghenion defnyddwyr feysydd lle mae newidiadau i'r ffordd y defnyddir data cyfredol a/neu lle gall fod angen data safonol gwahanol neu ychwanegol. Yn ystod y cyfnod olaf, gwnaethom gyfuno ein mewnwelediadau ymchwil cyfunol i greu argymhellion yn canolbwyntio ar y meysydd hyn. Rhagwelwyd y byddai hyn yn cynnwys argymhellion ar gyfer newidiadau penodol (e.e. sut i gasglu a defnyddio data am les dysgwyr) ac egwyddorion a dulliau mwy cyffredinol i danategu data ac ecosystem y dyfodol yn gyffredinol. Defnyddiwyd templed cyffredin gennym i ddatblygu'r manylion ar gyfer pob argymhelliad, a oedd yn cwmpasu: crynodeb o'r argymhelliad a'r rhesymeg; sut mae'n cydbwysu anghenion gwahanol randdeiliaid; y daith ddata arfaethedig (e.e. sut y dylid casglu, prosesu, rhannu a defnyddio data); y math o ddangosyddion, allbynnau, ac adroddiadau i'w creu; lefel y rhagnodi ar gyfer yr eitemau data a gasglwyd ac unrhyw ganllawiau cyfatebol y dylai Llywodraeth Cymru eu darparu; asesiad o fanteision a chostau a ragwelir, gan gynnwys beichiau newydd sy'n gysylltiedig; ac yn olaf trafod unrhyw risgiau o weithredu / peidio â gweithredu'r argymhelliad. Mae'r templed a ddefnyddiwyd yn Atodiad D.
- 3.27 Crynhoir y broses gyffredinol ar gyfer datblygu argymhellion, o Gyfnodau 2 i 4, yn Ffigur 3.2.

Ffigur 3.2: Crynodeb o'r broses i ddatblygu argymhellion



Sylwch: mae'r graffig hwn yn cyflwyno fersiwn symlach o'r broses i ddatblygu argymhellion at ddibenion esboniadol.

- 3.28 Yn olaf, fe wnaethom gynnal sawl rownd o brofi argymhellion drafft i sicrhau eu bod yn werthfawr ac yn ymarferol, yn bodloni'r anghenion a nodwyd, ac yn gwneud synnwyr yn eu cyfanwydd. Mae'r fformat a'r partneriaid sy'n rhan o'r profion i'w gweld yn Atodiad A.

Cyfyngiadau

- 3.29 Y brif her oedd cyrchu sampl cynrychioliadol llawn o ysgolion i ymgymryd ag ymchwil. Roedd hyn yn bennaf oherwydd blaenoriaethau cystadleuol ar adeg yr ymchwil, sef effaith corona-firws ar lefelau addysgu a staffio ynghyd â pharatoadau ar gyfer cyflwyno'r CiG. Er y cysylltwyd â nifer fawr o ysgolion yn y lle cyntaf drwy e-bost (e.e. ar gyfer grwpiau ffocws a chyfweliadau), penderfynwyd wedi hynny na ddylid rhoi pwysau gormodol ar ysgolion i ymgysylltu, ac o'r herwydd, ni wnaethom ddilyn i fyny gyda'r rhan fwyaf o ysgolion yn fwy nag unwaith os nad oeddent yn ymatebol. Felly bu i ni droi ein hymagwedd at ymgysylltu dyfnach â nifer fach o ysgolion a oedd yn ymatebol ac yn cymryd rhan yn y broses, yn hytrach nag ymgysylltu ysgafnach ehangach â sampl ehangach. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi cael mewnwelediadau manylach yn gynharach yn y broses ymchwil. Yn gyffredinol fe wnaethom gyrraedd 'pwynt dirlawnder' ar ôl siarad â thair neu bedair ysgol am yr un pwnc, ac ar ôl hynny roedd mewnwelediadau newydd sylweddol yn gyfyngedig.
- 3.30 Er mwyn ehangu'r ystod o adborth gan ysgolion a rhoi'r cyfle i bob ysgol roi eu mewnbyn, yng Nghyfnod 4 cynhaliwyd dwy weminar a oedd yn agored i bob ysgol yng Nghymru lle buom yn rhannu ac yn profi ein hargymhellion drafft. Gwahoddwyd y rhai a oedd yn bresennol hefyd i gwblhau arolwg dilynol.

4. Canfyddiadau – Diffinio rhannau allweddol o'r ecosystem data a gwybodaeth

4.1 Amcanion cyfnod cyntaf yr ymchwil oedd deall y dirwedd bolisi yn well; ymgysylltu â rhanddeiliaid a deall eu swyddogaethau craidd a'u rolau'n well o ran hunan-werthuso, atebolrwydd a thryloywder; a datblygu diffiniadau a mewnwelediadau i helpu i ddeall yr ecosystem data a gwybodaeth gyfredol a fyddai'n llywio gweithgareddau ymchwil dilynol.

Ymgysylltu cychwynnol â rhanddeiliaid – swyddogaethau a rolau

4.2 Yn ystod yr ymgysylltu cychwynnol, fe wnaethom fapio prif swyddogaethau a rolau a chyfrifoldebau rhanddeiliaid allweddol a chael trosolwg lefel uchel o'u prif anghenion a'u heriau o fewn yr ecosystem data a gwybodaeth gyfredol. Crynhoir y rhain yn Nhabl 4.1 isod.

Tabl 4.1: Swyddogaethau craidd ac anghenion data ar gyfer rhanddeiliaid allweddol

Rhanddeiliad	Swyddogaethau craidd	Anghenion lefel uchel
- 5.27 Cwricwlwm ac Asesu: nododd swyddogion y siaradom ni â hwy nad yw'r data sydd ar gael ar hyn o bryd yn yr ecosystem a'r ffordd y caiff eu defnyddio yn cyd-fynd yn llwyr ag ethos diwygiadau'r CiG gan eu bod yn canolbwyntio ar gymwysterau a chanlyniadau PISA. Mae data ar gynnydd yn gyfyngedig, yn rhannol oherwydd eu bod yn eu hanfod yn anodd eu mesur mewn ffordd gymesur. Fel tîm, mae angen iddynt hefyd ddeall sut mae'r diwygiadau'n cael eu cyflwyno a'u heffeithiolrwydd parhaus. Yn gyffredinol, mae'r is-dîm asesu yn defnyddio data dienw, ar lefel genedlaethol a gesglir o asesiadau rhifedd a llythrennedd personol i ddeall tueddiadau dros amser. Codwyd cwestiynau ganddynt ynghylch pa mor hawdd fyddai mesur lles neu gynnydd mewn ffordd ystyrlon – ond nodwyd ei fod yn bwysig ar gyfer y diwygiadau newydd. Nododd y tîm hefyd fwelch yn y data sydd ar gael ar hyn o bryd ynghylch sgiliau dysgwyr, gan nodi datrys problemau a meddwl yn feirniadol fel enghreifftiau.
- 5.28 Dysgu Proffesiynol: roedd y tîm hwn yn teimlo bod gormod o ffocws o fewn y system ar hyn o bryd ar ddangosyddion meintiol. Mae'r rhain wedi creu cymhellion gwrthnysig yn y gorffennol, ac nid yw agweddau ar y CiG a ddylai fod yn bwysicaf i Lywodraeth Cymru yn fesuradwy, megis cynllunio a gweithredu'r cwricwlwm. Nodwyd bod angen dangosyddion meintiol o gasglu data safonedig weithiau, fel arall byddai bylchau yn y ddealltwriaeth ar lefel genedlaethol. Ond dylai hyn fod yn gyfyngedig, a gellid lliniaru'r risgiau o ddefnyddio dangosyddion o'r fath trwy gyflwyno'r canfyddiadau o arsylwadau a gwybodaeth ansoddol arall ochr yn ochr â nhw. Mae ganddynt ddi-ddordeb mewn deall lles staff a dysgu proffesiynol yn y modd hwn, hynny yw, craidd o ddata safonedig cymharol gyfyngedig, wedi'u harlliwio gan fewnwelediadau ansoddol.
- 5.29 Ystadegau Ysgolion a Gweithlu Ysgolion: fel y tîm Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion, nid yw'r tîm hwn yn ddefnyddwyr data eu hunain, ond maent yn cynhyrchu ystadegau i lywio gwaith timau eraill. Nodwyd bod bwelch mawr ar hyn o bryd mewn dealltwriaeth am safonau a chynnydd cyn CA4, sy'n cyfyngu ar allu Llywodraeth

Cymru i hunan-werthuso. Teimlai'r tîm hwn fod Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion (SWAC) wedi gwella dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o'r gweithlu ysgolion yn fawr, ond gellid cynnwys pynciau eraill yn y dyfodol megis lles.

- 5.30 Tegwch mewn Addysg (gan gynnwys is-timau Prydau Ysgol am Ddim ac Anghenion Dysgu Ychwanegol): mae angen i'r tîm hwn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, ac felly mae angen iddo allu cymharu canlyniadau a dangosyddion eraill ar gyfer gwahanol grwpiau o ddysgwyr. Yn gyffredinol, y pynciau o ddiddordeb oedd cyrhaeddiad a lles. Roeddent yn adleisio rhanddeiliaid eraill wrth amlygu tensiynau rhwng rhai rhanddeiliaid ynghylch y defnydd o ddata a gwybodaeth (e.e. tueddiad haen ganol i ddefnyddio gwybodaeth a fwriedir at ddibenion hunan-werthuso i gynyddu craffu ac atebolrwydd ysgolion), a all greu cymhellion gwrthnysig ac arwain rhai ysgolion i gyflwyno eu data yn y 'golau mwyaf cadarnhaol'. Codwyd pryderon hefyd y gallai anghydraddoldebau ym mhrofiad dysgwyr fynd heb eu sylwi pe bai data safonol yn cael eu lleihau.

Anghenion grwpiau rhanddeiliaid eraill

- 5.31 Fe wnaethom hefyd gasglu anghenion grwpiau eraill sydd â rhan yn ecosystem data a gwybodaeth yr ysgolion trwy amrywiaeth o ymgynghoriadau ansoddol ac arolygon:
- 5.32 **Awdurdodau esgobaethol:** siaradom ni â chynrychiolydd o Addysg Gatholig, sy'n cynrychioli esgobaeth addysg Gatholig, a chawsom adborth ysgrifenedig gan gynrychiolydd o'r Eglwys yng Nghymru. Y canfyddiad allweddol oedd bod ar awdurdodau esgobaethol angen yr un fath o wybodaeth am ysgolion unigol ag y maent yn gyfrifol amdanynt ag awdurdodau lleol, ond nad yw hon bob amser ar gael iddynt mewn modd amserol ac nid yw bob amser yn gyflawn. Mae hyn yn golygu bod gan awdurdodau esgobaethol fylchau yn eu dealltwriaeth o brofiadau dysgwyr yn yr ysgolion y maent yn gyfrifol amdanynt, sy'n ei gwneud yn anos a/neu yn cymryd llawer o amser i gyflawni eu rôl gwella nag y dylai fod.
- 5.33 Mae ar awdurdodau esgobaethol angen ystod eang o ddangosyddion a gwybodaeth gyd-destunol am yr ysgolion y maent yn gyfrifol amdanynt, a byddent hefyd yn gwerthfawrogi gallu cymharu'r ysgolion hyn mewn ffordd syml ac ystyrlon.

- 5.34 **Addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS):** fe wnaethom gasglu barn ac anghenion rhanddeiliaid EOTAS o grwpiau ffocws gyda thimau EOTAS awdurdodau lleol. Mae EOTASI yn amrywio ledled Cymru o ran darpariaeth a chwmpas. Mae gwahaniaethau sylweddol, er enghraifft, rhwng darpariaeth ger canolfannau trefol mawr fel Caerdydd, lle mae mwy o amrywiaeth o ddarpariaeth ar gael, a rhai ardaloedd gwledig. Oherwydd hyn, mae casglu data anstatudol a dulliau o'u defnyddio hefyd yn amrywio: bydd gan ddarparwyr wahanol fathau o ffynonellau data, sy'n darparu data ar wahanol amleddau, ag amcanion darpariaeth a chwmpas gwahanol yn arwain at allbynnau dymunol gwahanol, gan ei gwneud yn anodd safoni casglu data.
- 5.35 Mae llai o ddata'n cael eu casglu am ddysgwyr mewn darpariaeth EOTAS na'r rheini mewn lleoliadau prif ffrwd – nid yw sawl maes yn y CYBLD wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad EOTAS cyfatebol, sef y Cyfrifiad EOTAS. Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr y grwpiau ffocws yn teimlo, mewn egwyddor, y dylai'r un gofynion casglu data fodoli ar gyfer EOTAS a dysgwyr prif ffrwd. Roeddent hefyd yn teimlo bod dibyniaeth ar ddata presenoldeb a gwaharddiadau i ddeall cyflwr y ddarpariaeth ac anghenion dysgwyr. Fodd bynnag, nodwyd bod awdurdodau lleol ac ysgolion yn canolbwyntio fwyfwy ar 'fesurau meddalach'. Soniodd y cyfranogwyr fod data lles a disgrifiadau ansoddol o hanes dysgwr yn cael eu defnyddio fwyfwy gan ddarparwyr EOTAS ac awdurdodau lleol i ddeall natur anghenion dysgwyr EOTAS a datblygu darpariaeth addas.
- 5.36 Dywedodd cyfranogwyr y grwpiau ffocws hefyd fod dysgwyr EOTAS yn symud yn amlach rhwng ardaloedd awdurdodau lleol. Mae olrhain dysgwyr mewn data yn heriol oherwydd meddalwedd anghydnaws y cyngor (nid yw systemau yn 'siarad â'i gilydd'), ac hefyd amlygodd ymchwil yn y gorffennol i'r garfan ddiffyg cysondeb o ran deall gofynion cofrestru ar gyfer dysgwyr EOTAS. Teimlai'r cyfranogwyr y byddai'n werthfawr deall teithiau'r dysgwr wrth iddynt symud, yn enwedig gyda gwell dealltwriaeth o'u lles. Ar gyfer hyn, dywedon nhw y byddai'n werthfawr cael set ddata sylfaenol ar gyfer pob dysgwr a ffordd o olrhain cynnydd. At hynny, mae darpariaeth addysg EOTAS yn aml yn gofyn am gydweithio ar draws asiantaethau lluosog gan gynnwys gofal cymdeithasol ac iechyd. Er mwyn galluogi hyn, mae cytundebau rhannu data yn cael eu rhoi ar waith, a byddai cael llai o wrthdaro rhwng systemau cynghorau hefyd yn debygol o hwyluso'r trosglwyddiadau data hyn.

- 5.37 Roedd heriau ac anghenion eraill a godwyd gan ddarparwyr EOTAS Awdurdodau Lleol yn cynnwys: mae data cyfredol yn ymwneud â darpariaeth EOTAS a chyflawniad a chynnydd dysgwyr yn gynhwysfawr ar y cyfan, ond nid yw'n adlewyrchu gwaith darparwyr o ddydd i ddydd yn effeithiol; nid yw darpariaeth EOTAS 'yn cael y statws y mae'n ei haeddu', h.y. nid yw'n cael yr un lefel o sylw â lleoliadau prif ffrwd o fewn Llywodraeth Cymru; efallai nad yw data'n amlygu i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol (e.e. timau awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru) yr hyn y mae dysgwyr ei angen mewn gwirionedd, gyda chyfranogwyr yn gofyn a oedd y cwestiynau cywir yn cael eu gofyn am y data; mae camsyniadau parhaus o fewn y system ysgolion ac ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol ynghylch yr hyn y mae darpariaeth EOTAS yn ei olygu, ei angen ac yn ei gyflawni; ac mae angen datblygu gwell dealltwriaeth o les dysgwyr cyn iddynt symud i ddarpariaeth EOTAS ac ar ôl iddynt gyrraedd, gan gynnwys a yw'r ddarpariaeth yn cael effaith gadarnhaol.
- 5.38 **Cyflogwyr:** i ddeall anghenion data a gwybodaeth cyflogwyr am y system ysgolion buom yn siarad â chynrychiolwyr Gyrfa Cymru, sy'n arwain cynllunio gyrfaoedd a chymorth i ddysgwyr yn ysgolion Cymru (uwchradd ac Ôl-16), ac un o'r pedair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, sydd â'r dasg o ddadansoddi heriau economaidd a meysydd twf tebygol i nodi'r sgiliau sydd eu hangen yn y gweithlu.
- 5.39 Mae Gyrfa Cymru yn cael data'n uniongyrchol gan ysgolion ac yn gweld data ar gyrraedd a dilyniant dysgwyr yn fwyaf perthnasol a defnyddiol ar gyfer cynllunio eu gwasanaethau eu hunain. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch lefel dysgwr a ddefnyddir i dargedu gweithgareddau cymorth ychwanegol. Mae Gyrfa Cymru yn casglu gwybodaeth ychwanegol am ddysgwyr yn ymwneud â gyrfaoedd trwy offeryn diagnostig o'r enw Gwriad Gyrfa a gynhelir gyda dysgwyr Blwyddyn 10. Cesglir data arall trwy sgysiau â phenaethiaid blwyddyn neu benaethiaid, yn enwedig i ddeall unrhyw anghenion ADY a dysgwyr sydd mewn perygl o beidio â bod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant. (NEET). Mae Gyrfa Cymru hefyd yn cael lanlwythiadau data gan ysgolion 3 gwaith y flwyddyn ac mae gan Gyngorwyr Gyrfa fynediad i Systemau Rheoli Gwybodaeth Ysgolion (SIMS), ond mae'r trefniadau hyn yn amrywio rhwng ysgolion. Mae gan Gyrfa Cymru swyddogaeth gydymffurfio hefyd ac mae'n cynnal archwiliadau o effeithiolrwydd y ddarpariaeth cymorth gyrfa mewn ysgolion. Mae'r llifau data a gwybodaeth amrywiol hyn yn gweithio'n dda yn fras ar hyn o bryd ac yn bodloni anghenion Cyngorwyr Gyrfa.

- 5.40 Un maes lle teimlai Gyrfu Cymru fod angen data safonedig gwell yw ynghylch cyrchfannau. Er enghraifft, awgrymwyd y gallai ysgolion gasglu data safonedig ychwanegol ar gyrchfannau arfaethedig dysgwyr yn y cyfnod cyn gadael addysg a defnyddio hwn i fesur yn ôl eu cyrchfan wirioneddol. Gallai hwn fod yn ddangosydd gwerthfawr o gyflawniad dysgwyr ar gyfer ysgolion a Llywodraeth Cymru sy'n rhoi llais y dysgwr wrth galon y system a byddai hefyd yn helpu Gyrfu Cymru i ymholi a gwella ansawdd eu darpariaeth eu hunain. Dylai'r ddealltwriaeth hon hefyd ystyried cyrchfannau parhaus gan dynnu llinell o'r gyrchfan gychwynol arfaethedig i'r gyrchfan wirioneddol nesaf, i'r canlyniad tymor hwy.
- 5.41 Ategwyd hyn gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Roedd eu hangen pwysicaf o ran data nas diwallwyd yn ymwneud â gwell dealltwriaeth o gyrchfannau dysgwyr ar ôl addysg uwchradd ac ôl-16, ac o fewn hyn, pa gyswllt sydd gan ddysgwyr â chyflogwyr ar gamau gwahanol. Roedd gan gyfranogwyr y grwpiau ffocws ddiddordeb arbennig mewn deall profiadau dysgwyr o gysylltiadau â chyflogwyr (e.e. faint o gysylltiadau, ansawdd a chanlyniadau, dadansoddiad yn ôl diwydiant/sector). Trwy gyrchu'r math hwn o ddata, gallent feithrin gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio a gwella eu hymagweddau at amlygiad cyflogwyr a phrofiad gwaith. Yn hollbwysig, fe wnaethon nhw ailadrodd y pwynt a wnaed gan Gyrfu Cymru ynghylch deall nid yn unig cyrchfan dysgwr ond a oedd hynny'n cydfynd â'u diddordebau a'u nodau. Yn fwy cyffredinol, mae angen i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y diwygiadau addysg a'r pynciau a gwmpesir yng nghwricwla ysgolion fel y gallant barhau i ddeall sgiliau dysgwyr wrth iddynt nesáu at y farchnad swyddi.
- 5.42 **Addysg bellach:** buom yn siarad â cholegau i ddeall eu harferion presennol a'u hanghenion data a gwybodaeth. Roedd adborth yn canolbwyntio'n naturiol ar sut mae data ar lefel dysgwyr ysgol yn cael eu rhannu â cholegau, yn hytrach na sut y caiff eu defnyddio ar gyfer swyddogaethau craidd hunan-werthuso, atebolrwydd a thryloywder.
- 5.43 O ran y defnydd presennol o ddata, mae datganiad statudol y Cofnod Dysgu Gydol Oes yn casglu ystod o wybodaeth am ddysgwyr unigol a'u haddysg a/neu taith cyflogaeth. O ysgolion maent yn derbyn canlyniadau cymwysterau CA4 dysgwyr unigol, yn ogystal â data ar ddysgwyr sy'n agored i niwed (e.e. y rhai ag ADY). Yna mae'r holl bwyntiau data hyn hefyd yn bwydo i mewn i gynllunio'r cwricwlwm a dyrannu adnoddau o fewn y sefydliad. Y brif her a nodwyd ganddynt oedd

problemau gyda data y tu allan i'r Cofnod Dysgu Gydol Oes yn cael eu fformatio mewn ffyrdd di-fudd fel cofnodion presenoldeb yn cael eu cofnodi'n wahanol rhwng ysgolion ac adroddiadau ysgol â chynnwys amrywiol. Dyma un o'r rhesymau pam roedd un o'r cyfranogwyr yn y grŵp ffocws wedi rhoi'r gorau i ofyn am gyfeiriadau a data presenoldeb.

- 5.44 Wrth ystyried anghenion y dyfodol, byddai colegau yn gwerthfawrogi gwell dealltwriaeth o deithiau pob dysgwr i ddeall yr hyn y maent wedi cael trafferth ag ef yn y gorffennol. Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe bai pwyntiau datblygu dysgwyr yn cael eu trosglwyddo yn ystod eu cyfnod pontio i addysg bellach er mwyn atal y coleg neu sefydliad arall rhag gorfod dechrau o'r newydd. Byddai rhannu data'n gynharach rhwng ysgolion a lleoliadau addysg bellach yn helpu i gefnogi pontio ac yn sicrhau bod pob dysgwr yn dilyn y cyrsiau sy'n iawn iddyn nhw. Ac yn debyg i'r syniadau a gynigir gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a Gyrfa Cymru, byddai lleoliadau addysg bellach yn gwerthfawrogi gwybodaeth sy'n cipio llais y dysgwr a fyddai'n helpu'r sefydliadau hyn i gefnogi dysgwyr gyda gwell cyngor ac arweiniad o ddechrau eu cyfnod mewn addysg Ôl-16. Nododd y cyfranogwyr hefyd y byddent yn ei chael yn ddefnyddiol cael data presenoldeb mwy safonol, data cynnydd dysgu, a graddau a ragfynegydd gyda'r syniad i helpu i gynghori dysgwyr a dyrannu adnoddau'n fewnol.
- 5.45 **Dysgwyr:** roedd dysgwyr yn gweld eu cyfoedion ac weithiau athrawon (yn dibynnu ar y grŵp oedran) fel y ffynonellau gorau o wybodaeth am amgylchedd a pherfformiad eu hysgol. Roedd dysgwyr yn gyffredinol yn awyddus i gael gwell dealltwriaeth o ystod o agweddau ar amgylchedd eu hysgol, ond lles oedd y flaenoriaeth uchaf iddynt hwy ar gyfer unrhyw gasglu data ychwanegol.⁸
- 5.46 Cymwysterau a chyrhaeddiad: yn gyffredinol nid oedd hyn mor bwysig i ddysgwyr ag ar gyfer grwpiau rhanddeiliaid eraill. Yn hytrach, roedd dysgwyr yn poeni am agweddau eang ar amgylchedd eu hysgol a system yr ysgol yn ehangach. Roedd y meysydd o ddiddordeb arbennig yn cynnwys: sut roedd ysgolion yn eu cefnogi nhw a'u cyfoedion, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai ag ADY; sut roedd ysgolion (eu rhai nhw ac eraill) yn mynd i'r afael â phethau fel bwlio a chamdrin rhywiol; hawliau dysgwyr; penderfyniadau ynghylch cynllun y cwricwlwm a'r hyn sy'n cael ei gynnwys neu beidio mewn gwersi; a materion tegwch a chydaddoldeb,

⁸ Casglwyd mewnwelediadau trwy ddau weithdy ar gyfer dysgwyr rhwng saith ac un ar ddeg oed a 12 i 16 oed yn y drefn honno.

er enghraifft bechgyn yn cael mwy o opsiynau ar gyfer cyfnodau chwaraeon.

Cyfeiriodd dysgwyr yn y grŵp oedran hŷn at fwlio fel maes pryder penodol.

- 5.47 Llais y dysgwr: Yn olaf, pwysleisiodd y dysgwyr eu bod am i'w hysgolion glywed eu lleisiau, a gweld hyn yn cael ei adlewyrchu mewn gweithredoedd a newidiadau. Roedd hyn yn cynnwys gallu myfyrio ar sut roedden nhw'n teimlo am eu hysgol, yr amgylchedd, ac athrawon. Er enghraifft, roeddent am allu siarad am eu gwersi a rhoi mewnbwn i'r cynnwys, a chael lle i fyfyrion ar eu perthynas ag athrawon. Wrth feddwl am ffyrdd o fynd i'r afael â'r diffyg hwn, ymatebodd dysgwyr yn gadarnhaol i'r syniad o arolwg llais y dysgwr.
- 5.48 **Rhieni a gofalwyr:** buom yn ymgysylltu â rhieni a gofalwyr drwy arolwg a gweithdy dilynol. Y prif faterion a godwyd gan rieni a gofalwyr o ran data a gwybodaeth oedd: atebolrwydd ysgolion; lles dysgwyr; ariannu ysgolion a chost effeithiolrwydd; a gwybod mwy am athrawon. Ymhlith y pethau penodol yr hoffai rhieni a gofalwyr wybod mwy amdanynt yn eu hysgol leol mae:
- lefelau cymwysterau athrawon a chyfraddau cadw athrawon
 - cyfran y dysgwyr sydd hefyd yn cael gwersi preifat
 - 'hapusrwydd' dysgwyr, neu ddangosyddion lles tebyg
 - cost addysgu rhai pynciau, gyda'r Gymraeg yn cael ei chrybwyll yn benodol.
- 5.49 Lles: o ran lles dysgwyr, roedd gan rieni a gofalwyr a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws ddiddordeb mewn deall beth oedd ar gael i gefnogi anghenion meddyliol ac emosiynol plant. Roedd diddordeb mwy cyffredinol hefyd mewn gwybod lefel hapusrwydd dysgwyr yn yr ysgol, a sut roedd yr ysgol yn mynd i'r afael â materion fel bwlio a phwysau gan gyfoedion. Yn gyffredinol, roedd gan rieni a gofalwyr fwy o ddiddordeb mewn cael darlun ansoddol o les dysgwyr yn eu hysgol leol, yn hytrach na gwybodaeth feintiol am amllder digwyddiadau'n ymwneud â lles (e.e. bwlio) neu sgoriau / dangosyddion meintiol (e.e. sgôr lles dysgwyr cyfartalog allan o 10).
- 5.50 Hygyrchedd: daeth gallu cyrchu gwybodaeth yn gyflym ac yn hawdd i'r amlwg yn fater allweddol o'r arolwg a'r grŵp ffocws. O'r 50 o rieni a gofalwyr a atebodd yr arolwg, dywedodd ychydig llai na hanner eu bod wedi chwilio am ddata'n ymwneud â'r system ysgolion, a'r pwnc mwyaf poblogaidd oedd y dadansoddiad diweddaraf o ddeilliannau cymwysterau CA4 mewn ysgol benodol. Roedd eu profiad o wneud hyn yn negyddol ar y cyfan, gyda heriau'n cynnwys bod data'n anodd eu canfod, o ansawdd amrywiol, neu'n amwys. Roedd ymatebion rhieni a gofalwyr yn amrywio o

bump i saith (allan o 10) pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn teimlo bod ganddynt wybodaeth ddigonol am eu hysgolion lleol (un = dim digon, 10 = yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt). Mynegodd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg a'r grŵp ffocws ddiddordeb hefyd mewn gwell mynediad at wybodaeth yn manylu ar gyllid ysgolion a'r defnydd o gyllidebau, a dywedon nhw ei bod yn anodd dod o hyd iddi a'i dehongli ar hyn o bryd. Yn ystod trafodaeth yn y grŵp ffocws, lleisiodd rhieni a gofalwyr y dylai ysgolion gyhoeddi eu hunanarfarniadau a'u cynlluniau gweithredu yn fwy gweladwy ac mewn fformat sy'n haws ei ddeall fel y gallent ofyn cwestiynau (e.e. cyfarfodydd llywodraethwyr) a dal yr ysgol yn atebol. Roedd rhai rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o borth Fy Ysgol Leol, sydd ar hyn o bryd yn cyhoeddi ystod o wybodaeth ar lefel ysgol, er nad oedd eraill. Dywedodd 16% o ymatebwyr yr arolwg eu bod yn ei chael yn anodd dod o hyd i wybodaeth berthnasol yn gyffredinol, a theimlai'r rhai a oedd yn gyfarwydd â Fy Ysgol Leol y gellid ei gwella'n sylweddol. Ymatebodd rhieni a gofalwyr yn gadarnhaol i'r awgrym o ail-ddylunio'r porthol, er enghraifft gan gynnwys dangosfwrdd cryno syml – meintiol (e.e. presenoldeb) ac ansoddol (e.e. datganiad cryno o arolygiad diweddaraf Estyn neu arolwg lles blynyddol) – gyda'r gallu i drilio'n fanylach yn ôl yr angen (e.e. mynediad at adroddiad arolygu llawn neu ganlyniadau arolwg).

- 5.51 Syniadau ar gyfer cymharu: Yn ystod y grŵp ffocws, fe wnaethom hefyd brofi peth o'r adborth a dderbyniwyd gan ysgolion ynghylch eu gwrthwynebiad i gyhoeddi tablau cynghrair perfformiad neu gymharu ysgolion yn ôl ei gilydd at ddibenion atebolrwydd neu wella. Roedd gan rieni a gofalwyr farn anghyson ar y mater hwn - roedd rhai yn sylweddoli'r anfanteision posibl y gallai hyn eu cael, tra bod eraill yn teimlo y byddent yn gwerthfawrogi cael mynediad at wybodaeth gymharol am yr ysgol yr oedd eu plentyn yn ei mynychu.
- 5.52 Mae'n ddiddorol nodi, o'r holl grwpiau rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r prosiect hwn, efallai mai rhieni a gofalwyr a leisiodd yr awydd mwyaf am fwy o wybodaeth o ansawdd gwell am ysgolion lleol a'r system ysgolion yn ehangach. Mae'n anodd dyfalu pam fod hyn oherwydd, o gymharu â grwpiau rhanddeiliaid eraill, roedd ein hymgysylltiad â rhieni a gofalwyr yn fwy cyfyngedig o gymharu â maint a chymhlethdod y grŵp cyfan.
- 5.53 Fodd bynnag, rydym yn awgrymu dau reswm posibl. Yn gyntaf, efallai nad yw'r data sydd ar gael ar hyn o bryd yn mynd i'r afael ag anghenion data a gwybodaeth rhieni a gofalwyr cystal ag anghenion grwpiau rhanddeiliaid eraill, ac os felly dylai

Llywodraeth Cymru ac asiantaethau cyhoeddus eraill roi blaenoriaeth i wella eu swyddogaethau tryloywder a chyfathrebu yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n bosibl hefyd nad yw ethos canllawiau'r CiG a gwella Ysgolion wedi treiddio'n llawn eto i rieni a gofalwyr yn yr un ffordd ag y mae i asiantaethau cyhoeddus (e.e. lleihau'r ffocws cul ar ddangosyddion cyrhaeddiad cul, mwy o bwyslais ar hunanwerthuso a arweinir gan yr ysgol). Mae hyn efallai'n naturiol o ystyried bod y CiG yn ei ddyddiau cynnar o hyd a'r newidiadau niferus eraill i systemau ysgolion yn y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i'r pandemig.

- 5.54 Archwilir y mater hwn yn fanylach yn yr adran Canfyddiadau 8 isod. Byddai ymchwil pellach gyda rhieni a gofalwyr ar y pwnc hwn yn werthfawr yn dilyn yr adroddiad hwn.

6. Canfyddiadau – asesiad o feysydd lle mae angen newidiadau

Rhestr sengl, gyfunol o anghenion defnyddwyr

- 6.1 Yn dilyn mapio anghenion data a gwybodaeth rhanddeiliaid allweddol, fe wnaethom gynnal dadansoddiad pellach, manylach i asesu a yw unrhyw newid i argaeledd a defnydd presennol data a gwybodaeth i ddiwallu anghenion pob defnyddiwr. Fel y mae Tabl 5.1 uchod a'r crynodebau o adborth gan wahanol rhanddeiliaid yn ei ddangos, mae cryn orgyffwrdd rhwng anghenion data a gwybodaeth y rhanddeiliaid gwahanol hyn. Felly, fe wnaethom gyfuno anghenion defnyddwyr ar gyfer gwahanol rhanddeiliaid yn un rhestr gyfunol, gyda gwybodaeth wedi'i grwpio yn ôl angen cyffredin defnyddwyr yn hytrach na fesul rhanddeiliad. Crynhoir y rhestr hir ddilynol o anghenion defnyddwyr yn Nhabl 6.1.

Tabl 6.1: Rhestr hir o anghenion defnyddwyr ar gyfer rhanddeiliaid allweddol

Angen	Trosolwg	Perthnasol i
Deilliannau cymwysterau CA4	Gohiriwyd y trefniadau ar gyfer adrodd ar gymwysterau CA4 yn dilyn y pandemig. Er bod cyhoeddi mesurau perfformiad CA4 wedi creu rhai canlyniadau negyddol, nododd rhanddeiliaid rai bylchau yn eu dealltwriaeth hebdo.	I gyd
Datblygiad trawsgwricwlaidd	Mae'r CiG yn blaenoriaethu ystod eang o sgiliau trawsgwricwlaidd; mae angen i ysgolion a phartneriaid eraill ddeall datblygu sgiliau at ddibenion hunan-werthuso a gwella.	Pob un
Cynnydd	Nodwedd arall sy'n diffinio'r CiG yw'r pwyslais a roddir ar ddilyniant dysgwyr. Mae angen i ysgolion a rhanddeiliaid eraill ddeall y cynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud drwy gydol eu haddysg er mwyn sicrhau eu bod yn barod ar gyfer asesiadau ym Mlwyddyn 11.	Pob un
Lles (dysgwyr a staff)	Mae lles yn rhan allweddol arall o'r CiG (e.e. y pedwerydd diben, 'unigolion iach, hyderus') gydag ymrwymadau yn y genhadaeth genedlaethol i fuddsoddi mewn lles dysgwyr a staff a gwella'u dealltwriaeth ohono.	Pob un
Ymddygiad a phresenoldeb y dysgwr	Er y gall ysgolion ddeall y rhan fwyaf o agweddau ar ymddygiad dysgwyr trwy arsylwi a phrosesau o ddydd i ddydd, mae rhanddeiliaid heblaw'r ysgol angen data cadarn, cymaradwy am ddigwyddiadau allweddol	Haen ganol, Llywodraeth Cymru

	(presenoldeb, gwaharddiadau, symudiadau disgyblion) at ddibenion atebolrwydd.	
Nodweddion a Thegwch	Mae angen i randdeiliaid ddeall demograffeg y boblogaeth o ddysgwyr i asesu a yw'r system ysgolion yn deg, ac i addasu dulliau gweithredu, ariannu a dadansoddi yn unol â hynny.	I gyd
Ysgolion sy'n peri pryder	Mae angen i ysgolion a phartneriaid haen ganol allu nodi meysydd o bryder lle mae angen gwella, nodi ymatebion effeithiol a monitro cynnydd.	Haen Ganol, Ysgolion
Gwasanaethau cefnogi a gwella	Mae angen i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol allu adolygu a chwestiynu ansawdd ac effaith eu gwasanaethau cymorth fel rhan o'u gweithgareddau hunan-werthuso a gwella eu hunain.	Awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol / Targedau Cymraeg 2050	Fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, bydd Awdurdodau Lleol yn gosod amcanion ar draws ystod o bynciau, y gallai fod angen i ysgolion adrodd arnynt. Fel rhan o Cymraeg 2050, mae angen i ysgolion hefyd adrodd ar lefelau siarad Cymraeg.	Awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru
Cyfathrebu	Mae angen i Lywodraeth Cymru allu cyfathrebu taith a llwyddiant diwygiadau'r CiG i'r cyhoedd a meithrin hyder.	Llywodraeth Cymru
Agwedd at ddysgu	Mae angen i Estyn ddeall a gwerthuso ymagweddau Lles ac Agwedd at Ddysgu ysgolion, fel rhan o'u Fframwaith Arolygu.	Estyn
Deilliannau dysgu proffesiynol	Mae datblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel yn un o bedwar amcan galluogi'r <i>Genhadaeth Genedlaethol</i> . Mae sawl cwestiwn o fewn hyn, gan gynnwys pa mor ddeniadol yw'r proffesiwn addysgu, ac a yw sgiliau athrawon yn cyfateb i'r galw	Llywodraeth Cymru

6.2 Gan ddefnyddio'r fframwaith hwn, roeddem wedyn yn gallu asesu ar gyfer pob angen i ba raddau y mae'n cael ei ddiwallu gan ddata a gwybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd (h.y. yn y flwyddyn academaidd 2021/22), ac a oes angen rhywfaint o newid. Defnyddiwyd templed cyson i werthuso pob un, gan gloi gyda damcaniaethau cychwynnol ar gyfer unrhyw ddata neu wybodaeth newydd sydd eu hangen. Mae Tabl 6.2 yn asesiad enghreifftiol ar gyfer lles dysgwyr.

Tabl 6.2: Crynodeb o asesiad anghenion defnyddwyr ar gyfer lles dysgwyr

<p>1. Crynodeb angen y defnyddiwr</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Estyn: Mae lles dysgwyr ac agwedd at ddysgu yn rhan allweddol o'r fframwaith arolygu ysgolion (atebolrwydd) • Awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol: gan fod lles dysgwyr yn rhan allweddol o'r CiG, mae angen i'r sefydliadau hyn gefnogi dulliau ysgolion o hunanfarnu a gwella (hunanfarnu gwasanaethau) • Ysgolion: mae angen dealltwriaeth fanwl, gyfredol o les dysgwyr ar ysgolion am yr un rheswm (hun-an-werthuso gwasanaethau). Mae angen iddynt hefyd gyfathrebu materion a sut maent yn cefnogi lles dysgwyr i gymunedau ysgolion lleol (tryloywder) • Llywodraeth Cymru: mae lles dysgwyr yn rhan o'r pedwar diben, felly mae angen i dimau Llywodraeth Cymru ddeall effaith diwygiadau/polisiâu ar hybu lles cadarnhaol (hun-an-werthuso polisi) a chyfathrebu hyn i'r cyhoedd (tryloywder)
<p>2. 'Fel y mae' h.y. pryd y cynhaliwyd yr ymchwil, blwyddyn academaidd 2021/22</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Prifysgol Caerdydd yn cynnal y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN), gyda dros 200 o ysgolion yn aelodau, gan gynnwys yr holl ysgolion uwchradd a chanol a gynhelir yng Nghymru, ac mae'n cynnal arolwg bob dwy flynedd o iechyd a lles dysgwyr yn yr ysgolion uwchradd sy'n aelodau ohoni. Nid yw'r arolwg yn orfodol ond mae lefelau cyfranogiad yn uchel: cymerodd mwy na 90 y cant o ysgolion uwchradd a 77 y cant o ddisgyblion yn yr ysgolion hyn ran mewn 2019/20. Cynhelir gwaith peilot ar hyn o bryd i ehangu SHRN i ysgolion cynradd. Mae ysgolion sy'n cymryd rhan yn cael adroddiad pwrpasol gyda'u data eu hunain, sy'n cynnwys rhai cymariaethau â thueddiadau cenedlaethol • Mae rhai ysgolion hefyd yn defnyddio nifer o arolygon (e.e. PASS, HAPN, Arolwg gwrth-fwlio) yn ogystal â'u harolygon pwrpasol eu hunain a dulliau ansoddol i ddeall lles dysgwyr • Mae dirprwyon ar gyfer lles dysgwyr yn cael eu cynnwys yn y CYBLD (e.e. presenoldeb, gwaharddiadau) • Mae Estyn yn cynnal holiaduron dysgwyr, rhieni, llywodraethwyr a staff fel rhan o arolygiadau, sy'n cwmpasu lles yn rhannol, yn ogystal â gwydnwch dysgwyr, a medrau corfforol a chreadigol. • Hoffai rhai awdurdodau lleol gymharu lles dysgwyr ar draws ysgolion yn eu hardal, felly maent yn cynnig offer arolygu pwrpasol i ysgolion. Mae'r SHRN hefyd yn darparu eu hadroddiad lefel awdurdod lleol eu hunain i awdurdodau lleol • Mae consortia rhanbarthol yn fodlon ar y cyfan ar y ddealltwriaeth o les dysgwyr y maent yn ei chael o ddata ansoddol cyfredol a pherthnasoedd / rôl gefnogi barhaus gydag ysgolion

<p>3. Materion a bylchau gyda 'fel y mae'</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Nodwyd rhai eitemau data a allai fod yn ddefnyddiol nad ydynt yn cael eu cipio mewn ffordd safonedig ar hyn o bryd fel rhan o'r adroddiad Datblygu theori newid ac asesu gwerthuso ar gyfer y dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles emosiynol. Maent yn cynnwys: Digwyddiadau ymddygiadol (gan gynnwys bwlio), Atgyfeiriadau at gymorth arbenigol, Profiad Gofal, Anabledd, a Materion iechyd eraill • Defnyddir arolwg lles SHRN gan nifer fawr o ysgolion (dros 90 y cant o ysgolion uwchradd gydag ehangiad mewn i ysgolion cynradd yn digwydd ar hyn o bryd). Er i ysgolion adrodd bod yr adroddiadau a gânt o'r arolwg hwn yn werthfawr, dywedodd rhai nad ydynt wedi'u halinio'n llawn â'u hanghenion penodol o ran hunanarfarnu a chyfathrebu, ac awgrymwyd cwestiynau ychwanegol a fyddai'n werthfawr i'w cynnwys. • Gall lles dysgwyr helpu i roi gwybodaeth arall am yr ysgol mewn cyd-destun, megis cyrhaeddiad a chynnydd. Heb rai dangosyddion safonol, mae risg y bydd partneriaid system yn parhau i ystyried cyrhaeddiad ar ei ben ei hun • Cwestiynau ynglŷn ag ansawdd data ar symud disgyblion a 'thynnu oddi ar y gofrestr' ar lefel ysgol
<p>4. Tensiynau a chwestiynau i'w harchwilio ymhellach</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Tensiwn cyffredinol rhwng sefydliadau haen ganol a Llywodraeth Cymru, a fyddai'n gwerthfawrogi dealltwriaeth fwy cyson a manwl o les dysgwyr; ac ysgolion, sydd, er eu bod yn gwerthfawrogi lles, yn teimlo bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn eisoes drwy eu dulliau pwrpasol eu hunain, ac sydd braidd yn amheus o'r beichiau amser ychwanegol sy'n gysylltiedig â gweinyddu arolwg gorfodol neu offeryn ymchwil arall • Arfer dda – Mae gan Seland Newydd yn arbennig ddull aeddfed o gasglu data ar les dysgwyr a'u defnyddio ar wahanol lefelau o'r system ysgolion. A oes unrhyw rannau yn berthnasol i'r cyd-destun Cymreig? • SHRN – pa mor dda y mae hyn yn diwallu anghenion ysgolion ar hyn o bryd? Pe byddai ef (neu rywbeth tebyg) yn dod yn orfodol, a fyddai hyn yn creu unrhyw gymhellion gwrthnysig? Pa allbynnau fyddai fwyaf gwerthfawr i ysgolion a phartneriaid eraill a sut y dylid eu defnyddio? Pa bwyntiau data ychwanegol y gellid eu hychwanegu'n resymol – tra'n sicrhau bod cwestiynau'n parhau i fod yn foesebol a phriodol a bod yr arolwg yn parhau i fod o hyd addas? • Beichiau ychwanegol – beth yw'r ymrwymiad amser ymarferol i ysgolion gynnal arolwg ysgol gyfan, neu ar gyfer grŵp blwyddyn penodol? Pa risg o flinder arolwg?

5.
Rhagdybiaet
hau i'w profi

Crynodeb: byddai sefydliadau haen ganol a Llywodraeth Cymru yn croesawu rhywfaint o ddata safonedig. Mae hyn yn llai pwysig i ysgolion, er y byddai mynediad at ystod o offer meintiol i ddeall lles dysgwyr yn well yn werthfawr, cyn belled â bod yr allbynnau/adroddiadau yn hygyrch ac yn darparu llwybrau amlwg i weithredu. Opsiynau i'w profi ymhellach:

a. Unrhyw fudd posib a geir o naill ai arolwg safonedig o les dysgwyr sydd yn orfodol ym mhob ysgol uwchradd, gyda'r potensial i fod yn gyfwerth ag oedran cynradd; NEU bod Llywodraeth Cymru yn gweinyddu arolygon lles cyfnodol a gesglir o sampl o ysgolion; NEU mae arolygon lles yn parhau i fod yn ddewisol ond gyda mwy o anogaeth gan Lywodraeth Cymru i gael cefnogaeth ysgolion

b. Mae data ar gyfer dirprwyon lles (e.e. presenoldeb, gwaharddiadau) yn cael eu casglu a'u cyhoeddi'n amlach nag unwaith y flwyddyn

c. Adolygu diffiniadau data symudiadau disgyblion mewn gwybodaeth reoli a chofnodion statudol; Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canlyniadau

Plymio'n ddwfn ar gyfer anghenion defnyddwyr penodol

- 6.3 Efallai nad yw'n syndod bod llawer o'r anghenion blaenoriaeth a nodwyd yn ystod yr ymchwil hwn yn cyd-fynd ag agweddau ar y CiG sy'n newydd neu'n wahanol. Mae'r adran hon yn archwilio anghenion defnyddwyr y mae hyn yn berthnasol iddynt yn fanylach, gan nodi'r materion a'r bylchau penodol y mae rhanddeiliaid yn eu profi ar hyn o bryd a meysydd lle gallai data a gwybodaeth newydd neu wahanol fod yn fwyaf gwerthfawr.
- 6.4 Dylid nodi hefyd bod ein dealltwriaeth o anghenion defnyddwyr a'r derminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio anghenion y defnyddiwr wedi datblygu yn ystod y prosiect. Fel y gwelir yn Nhabl 6.2 uchod, yn y dogfennau manwl ynghylch anghenion defnyddwyr a anfonwyd at randdeiliaid i'w dilysu yng Nghyfnod 2 ein hymchwil, roedd angen defnyddiwr sengl o'r enw 'Profiad, sgiliau a gwybodaeth.' Roedd hyn yn cynnwys pob agwedd ar ddysgu yn ymwneud â chyrhaeddiad a dilyniant. Wrth i'n hymchwil a'n canfyddiadau fynd rhagddynt, mewn cyfnodau diweddarach o ymchwil rhannwyd y rhain yn anghenion defnyddwyr gwahanol. Dyna pam, erbyn Cyfnod 3 yr ymchwil, mae anghenion ar wahân ar gyfer dangosyddion canlyniadau cymwysterau CA4, datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd, a chynnydd (gweler Tablau 6.1 a 6.2). Rydym yn gwerthfawrogi nad yw'r rhain yn gysyniadau cwbl ranadwy yn y CiG – dylai cyrhaeddiad gynnwys sgiliau, cymwysterau CA4, a dilyniant tuag at y pethau hyn ar hyd y daith addysg. Fodd bynnag, daeth i'r amlwg yn glir bod gwerth i'w hasesu ar wahân yn ystod y prosiect ymchwil hwn i ddatblygu atebion ymarferol i

fylchau cyfredol mewn data a gwybodaeth, gan sylweddoli y dylid dod â'r data hwn ynghyd yn y pen draw i'w deall yn gyfannol.

Data canlyniadau cymwysterau CA4: asesiad o ddulliau blaenorol

- 6.5 Nid yw'r adolygiadau o gymwysterau y mae dysgwyr yn eu sefyll ym mlwyddyn 11 eu hunain o fewn cwmpas y prosiect ymchwil hwn. Fodd bynnag, mae trefniadau ar gyfer casglu, prosesu, rhannu a defnyddio data canlyniadau cymwysterau o fewn cwmpas. Yn hanesyddol maent wedi bod o bwysigrwydd mawr o fewn yr ecosystem data a gwybodaeth.
- 6.6 Rhoddodd Llywodraeth Cymru y gorau i gyhoeddi dangosyddion canlyniadau cymwysterau CA4 yn ystod y flwyddyn academaidd 2019/20 oherwydd y pandemig ac ar adeg ysgrifennu maent yn ystyried a ddylid eu hailgyflwyno a sut. Yn ein hymchwil, gofynnwyd felly i bobl am eu profiad o'r dangosyddion a'r dulliau o adrodd ar gyrhaeddiad CA4 a ddefnyddiwyd cyn coronafirws er mwyn llywio opsiynau ar gyfer unrhyw newidiadau yn y dyfodol. Yn ogystal ag ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid ar y pwnc hwn, cawsom hefyd friffiau manwl gan Estyn a thimau polisi perthnasol Llywodraeth Cymru yn crynhoi eu profiad o ddangosyddion cymwysterau CA4. Crynhoir y prif fathau o ddangosyddion a ddefnyddiwyd ac adborth arnynt yn Nhabl 6.3.

Tabl 6.3: crynodeb o adborth ar ddangosyddion a ddefnyddiwyd yn flaenorol i grynhoi canlyniadau cymwysterau CA4

Math o ddangosydd	Crynodeb o adborth	Goblygiad
Sgorau / dyfarniadau crynodol <i>e.e. tablau cynghrair, codau lliw</i>	<ul style="list-style-type: none"> Rhoi gormod o farn a phwysigrwydd ar ddangosyddion cul, amherffaith, nad ydynt yn cyfrif am y cyd-destun 	Osgoi defnydd bob amser.
Mesurau sy'n seiliedig ar bwyntiau <i>e.e. Sgôr 9 pwynt wedi'i chapio</i>	<ul style="list-style-type: none"> Ystyried yr holl ddysgwyr a'r holl gymwysterau y mae dysgwr yn eu sefyll, ond yn distyllu gormod o gymhlethdod i mewn i un prif ddangosydd Ddim yn amlwg i ysgolion a'r cyhoedd sut maent yn cael eu cyfrifo ac yn anodd eu dehongli 	Osgoi defnydd yn y dyfodol; neu ochr yn ochr â dangosyddion eraill yn unig.
Mesurau trothwy <i>e.e. trothwy cynhwysol Lefel 2</i>	<ul style="list-style-type: none"> Peth adborth cadarnhaol ar iteriadau blaenorol o ddangosyddion trothwy (e.e. L1, 5A*/A) Ond fe wnaeth L2/L2+ adrodd ei fod wedi arwain at ganlyniadau negyddol sylweddol (e.e. dewis pynciau, tynnu oddi ar y gofrestr, gormod o ffocws ar ddysgwyr ar ffiniau graddau) Adborth gan ysgolion a oedd yn llai negyddol na chan Llywodraeth Cymru am y dangosyddion hyn Fe wnaeth Estyn gydnabod gwerth ac effaith gadarnhaol rhai o'r dangosyddion hyn ond cydnabu hefyd bod rhai eraill wedi gyrru ymddygiad negyddol 	Potensial i'w ddefnyddio ar gyfer hunan-werthuso a swyddogaethau eraill yn y dyfodol, ond gyda rhai addasiadau i liniaru canlyniadau anfwriadol blaenorol.
Mesurau gwerth ychwanegol <i>e.e. gwerth ychwanegol FFT</i>	<ul style="list-style-type: none"> Adborth cadarnhaol bod y dangosyddion hyn yn canolbwyntio ar gynnydd yn hytrach na chyrhaeddiad crynodol yn unig. Mae hyn yn cyfateb i ganfyddiadau ymchwil o Loegr Fodd bynnag, yng Nghymru nid oes unrhyw linell sylfaen ddibynadwy / gyson ar gyfer mesur cynnydd (h.y. dileu asesiadau CA2/3) 	Gallai fod yn fuddiol mewn theori, ond byddai'n golygu newidiadau sylweddol i asesu
Mesurau cyson ôl-16	<ul style="list-style-type: none"> Yn defnyddio basged o dri dangosydd cyflenwol ar gyfer cymwysterau Ôl-16: gwerth ychwanegol (FFT), cyflawniad, a chyrchfannau (gan ddefnyddio set ddata Canlyniadau Cyflogaeth Hydredol) Wedi'i ddefnyddio cyn coronafirws ac yn cael ei ystyried yn gadarnhaol gan fod pwysigrwydd unrhyw ddangosydd unigol yn cael ei gydbwysu gan y ddau arall 	Model posibl ar gyfer ymagwedd CA4

6.7 Mae mewnwelediadau perthnasol eraill o ymchwil ar ddangosyddion canlyniadau cymwysterau CA4 yn cynnwys:

- trefniadau ers coronafirws – fe wnaeth ysgolion a sefydliadau haen ganol fyfyrion'n gadarnhaol ar roi'r gorau i fesurau perfformiad megis 9 wedi'i Chapio
- bylchau mewn gwybodaeth – fodd bynnag, nododd rhai rhanddeiliaid fylchau yn eu gallu i weld cyrhaeddiad dysgwyr ers i'r AWCDs ddod i ben, yn enwedig awdurdodau lleol. Fodd bynnag, adroddodd Estyn a chonsortia rhanbarthol nad yw hyn wedi amharu'n sylweddol ar eu gallu i gyflawni swyddogaethau atebolrwydd a chymorth ysgol
- galluoedd ysgol – dywedodd rhai ysgolion fod eu galluoedd dadansoddol mewnol wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf i'r graddau y gallant greu eu gwybodaeth eu hunain ynghylch cyrhaeddiad dysgwyr ar gyfer CA4, ac yn aml yn llawer cynt nag y rhyddhawyd adroddiadau AWCDs yn nodweddiadol. Mae amrywiaeth o feddalwedd trydydd parti ar gael hefyd i hwyluso hyn. Fodd bynnag, gallai hyn fod yn berthnasol i ysgolion mwy a/neu uwchradd yn unig. Yn anecdotaidd, nid oes gan ysgolion llai yr un capasiti a galluoedd, felly byddent yn gwerthfawrogi gwybodaeth gyda sicrwydd ansawdd 'wrth gefn' a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn yr adroddiadau AWCDs.
- defnyddioldeb i ysgolion – tynnodd amrywiol rhanddeiliaid sylw at y ffaith nad oedd agweddau ar yr adroddiadau AWCDs yn cyd-fynd ag anghenion hunanarfarnu a gwella ysgolion (e.e. gormod o wybodaeth, graffeg yn anodd ei dehongli, cymariaethau ag ysgolion eraill ddim yn ddefnyddiol).⁹

6.8 Roedd opsiynau ar gyfer newidiadau i'r dull cyfredol/blaenorol o adrodd ar gyrhaeddiad CA4 (a awgrymwyd gan gyfuniad o E, ysgolion a thimau Llywodraeth Cymru) yn cynnwys:

- pynciau – gellid adrodd ar ganlyniadau ar lefel cymhwyster / pwnc i bwysleisio gwerth pob pwnc, yn hytrach ng, er enghraifft, y mesur trothwy L2+, a allai orbriso cymwysterau llythrennedd a rhifedd

⁹ Cododd rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru gwestiynau hefyd am y system a ddefnyddir i neilltuo pwyntiau i wahanol raddau canlyniadau arholiadau, gan gynnwys ei bod wedi dyddio. Er na chafodd y system hon ei harchwilio'n fanwl yn yr adroddiad hwn, awgrymodd Cymwysterau Cymru a thimau polisi perthnasol Llywodraeth Cymru fod yn rhaid adolygu'r system hon ac yna ei rheoli'n weithredol a chael adnoddau priodol i sicrhau y gall unrhyw fesurau trothwy neu ddangosyddion eraill yn y dyfodol osgoi'r heriau a amlygwyd yn yr adran hon.

- cyflwyno ystadegau – gellid addasu'r ffordd y cyflwynir dangosyddion i ysgolion a sefydliadau haen ganol yn y dyfodol er mwyn lleihau'r graddau y caiff dangosyddion eu gweld fel dyfarniadau diffiniol o berfformiad, er enghraifft drwy gynnwys ysbeidiau hyder
- cymariaethau – mae ysgolion yn gwerthfawrogi cymariaethau rhyngddynt hwy ac ysgolion eraill cyn belled â'u bod yn ystyrlon ac nad ydynt yn cael eu cymryd allan o'r cyd-destun. Er enghraifft, fe wnaeth yr arfer blaenorol o raddio ysgolion o fewn teulu ysgol mewn i chwarteli yrru cystadleuaeth yn hytrach na chydweithrediad rhwng ysgolion. Teimla Estyn fod cymariaethau i weddill-olion (h.y. canlyniadau disgwylidig yn seiliedig ar boblogaeth ysgol), a ddefnyddiwyd yn y gorffennol, yn fwyaf gwerthfawr. Ystyriwyd bod cymharu canlyniadau deilliannau â blynyddoedd blaenorol hefyd yn llai dilys / defnyddiol oherwydd effaith coronafirws a chwyddiant gradd na chymariaethau rhwng ysgolion o fewn pob blwyddyn.

Datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd

- 6.9 Mae llawer mwy o ffocws ar ddatblygu sgiliau yn y CiG nag o'r blaen. Mae'r rhain yn cynnwys y tri [sgil trawsgwricwlaidd](#) gorfodol, sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, a'r pedwar sgil sy'n rhan annatod o'r pedwar diben: creadigrwydd ac arloesi, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, a chynllunio a threfnu. Roedd consensws cyffredinol bod bylchau ar hyn o bryd yng ngallu rhanddeiliaid i ddeall sut ac a yw dysgwyr yn datblygu'r sgiliau hyn ac y byddai data a gwybodaeth ychwanegol yn werthfawr i wneud hyn, boed hynny ar lefel dysgwr unigol (e.e. dulliau asesu hyblyg ac arsylwadau gan athrawon), lefel poblogaeth (e.e. asesu safonol a chasglu data), neu'r ddau. Mantais ychwanegol creu'r data hyn yw y byddai'n helpu i gydbwyso'r ffocws anghymesur blaenorol ar ddeilliannau cymwysterau CA4 fel ffordd o ddeall cyrhaeddiad a chyflawniad dysgwyr.
- 6.10 Ystyriaeth allweddol ar gyfer datblygu atebion i fynd i'r afael â'r bwlch hwn mewn gwybodaeth yw mesuradwyedd – mae rhai o'r sgiliau a restrir uchod yn haws i'w hasesu nag eraill ar hyn o bryd. Er enghraifft, o'r tri sgil trawsgwricwlaidd gorfodol, dim ond llythrennedd a rhifedd sy'n cael eu hasesu mewn ffordd safonedig ar hyn o bryd. Nid yw'n glir a yw hyn oherwydd eu bod yn cael eu hystyried yn bwysicach na llythrennedd digidol, neu oherwydd bod llythrennedd digidol yn anoddach i'w fesur

Cynnydd

- 6.11 Nododd rowndiau cychwynnol o ymgysylltu â rhanddeiliaid bryderon nad yw agweddau ar y CiG yn ymwneud â dilyniant yn cael eu deall yn gyson, sy'n peri risg pan ddaw dysgwyr i sefyll arholiadau CA4. Er bod ysgolion o dan y CiG yn datblygu ac yn addysgu eu cwricwla eu hunain, mae dysgwyr yn sefyll yr un arholiadau yn CA4, felly os deellir dilyniant yn wahanol ar draws ysgolion, gall hyn arwain at amrywiadau yn effeithiolrwydd addysgu a dysgu ac amrywiadau cyfatebol yng nghyrhaeddiad CA4.¹⁰
- 6.12 Fel y disgrifir yn adran Canfyddiadau 5 uchod, roedd rhai rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw o blaid mynd i'r afael â'r broblem hon drwy gyflwyno rhyw fath o fframwaith asesu meintiol i olrhain cynnydd dysgwyr dros amser. Felly buom yn archwilio gyda phobl yr hyn y gellid cysylltu fframwaith o'r fath ag ef yn y cwricwlwm. Roedd yr awgrymiadau'n amrywio o, ar y lefel uchaf, y 27 Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig, hyd at yr Egwyddorion Dilyniant a Disgrifiadau Dysgu, ac ar y lefel fwyaf manwl y Camau Cynnydd. Fodd bynnag, roedd timau polisi Llywodraeth Cymru yr ymgynghorwyd â hwy ar y pwnc hwn yn nodi'n glir bod cyflwyno fframweithiau asesu meintiol, gronynnog i olrhain cynnydd dysgwyr drwy addysg yn groes i ethos y CiG, sy'n canolbwyntio ar 'gyfnod ac nid oedran' y dysgwr. Mae'r Camau Cynnydd hefyd yn bodoli i helpu ysgolion i ddylunio eu cwricwla eu hunain yn hytrach nag unrhyw ddisgwyliadau penodol sy'n gysylltiedig ag oedran o ran cyrhaeddiad neu ddealltwriaeth. Yn olaf ac o safbwynt ymarferol, byddai unrhyw fframwaith hefyd yn heriol iawn ac yn cymryd llawer o amser i'w ddylunio a'i weinyddu. Ailadroddwyd y farn hon gan nifer o rhanddeiliaid eraill.
- 6.13 Ymddengys felly mai'r ateb i'r mater hwn yw newidiadau ymarfer a/neu gwell arweiniad a chymorth gan gymheiriaid, yn hytrach na data a gwybodaeth safonedig. Yn wir, cyhoeddwyd ystod o ganllawiau a chyfarwyddebau gan Lywodraeth Cymru tra'r oedd yr adroddiad hwn yn cael ei ddrafftio i fynd i'r afael â'r mater.¹¹

¹⁰ Mae'r her hon wedi'i phrofi gan wledydd eraill sydd wedi gweithredu diwygiadau addysg tebyg i Gymru. Trafodir eu hymatebion i'r her hon yn fanwl yn yr adran nesaf.

¹¹ Er enghraifft yn y [Deunyddiau ategol ar gyfer y cwricwlwm, asesu a gwerthuso cynnydd dysgwyr](#), sy'n cynnwys arweiniad ar [ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o ddilyniant](#) yn benodol. Mae [Cyfarwyddyd Gweinidogol](#) yn darparu canllawiau ychwanegol ar ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd o fewn ysgol ac ar draws ysgolion

Ymddygiad ac agweddau at ddysgu

- 6.14 Nododd ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, ac Estyn fod angen deall ymddygiad ac agweddau dysgwyr at ddysgu, a digwyddiadau fel gwaharddiadau. Mae hyn at ddibenion hunan-werthuso, ac ar gyfer atebolrwydd, gan y gallai digwyddiadau fel gwaharddiadau arddangos risgiau i degwch a chynhwysiant dysgwyr. Yn ogystal â gwybodaeth ansoddol o sgysiau ac ymgysylltiad parhaus rhwng sefydliadau, mae dangosyddion dirprwyol a gasglwyd trwy gasglu data safonol megis presenoldeb, gwaharddiadau, digwyddiadau ymddygiad, a symudiad disgyblion hefyd yn bwysig.
- 6.15 Fodd bynnag, clywsom gan nifer o gyfranogwyr ymchwil – gan gynnwys y tri phennaeth a roddodd adborth ysgrifenedig ar ein dogfennau manwl ynghylch anghenion defnyddwyr – nad oes ganddynt hyder llawn yn rhai o'r dangosyddion hyn. Mae hyn yn rhannol oherwydd gwahaniaethau rhwng polisiâu ac arferion ysgolion sy'n ymwneud ag agweddau ar ymddygiad (e.e. mae gan rai ysgolion yr opsiwn i symud dysgwyr sydd mewn perygl o gael eu gwahardd yn barhaol dros dro i ganolfan adnoddau), ac felly sut y cânt eu cofnodi mewn cofnodion gwybodaeth reoli a statudol (e.e. CYBLD). Fodd bynnag, clywsom yn anecdotaidd hefyd y gallai rhai dulliau ysgolion o gofnodi'r eitemau data hyn dan-gofnodi rhai digwyddiadau ymddygiadol a fyddai fel arfer yn denu craffu gan sefydliadau haen ganol (e.e. gwaharddiadau, symudiadau disgyblion) o gymharu ag ysgolion eraill. Er enghraifft, mae rhai ysgolion yn cofrestru presenoldeb dysgwyr cyn yn hytrach nag ar ôl cinio; mae eraill yn diffinio gwaharddiadau yn unol â pholisi eu hysgol unigol, nad yw o bosibl yn cyd-fynd â diffiniadau data Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn erydu defnyddioldeb allbynnau a dangosyddion at ddibenion hunanwerthuso ac atebolrwydd.
- 6.16 Efallai felly fod ymddygiad a phresenoldeb yn astudiaeth achos addysgiadol o sut mae pryderon ysgolion ynghylch denu prosesau craffu ac atebolrwydd yn effeithio ar ddulliau o gofnodi a defnyddio data ar gyfer hunan-werthuso. Gallai cywirdeb ac ansawdd data ymddygiad a phresenoldeb fod yn ddangosydd defnyddiol ar gyfer cynnydd y system ysgolion wrth greu diwylliant o ddefnyddio data a gwybodaeth ar gyfer hunan-werthuso a gwella yn y dyfodol.

7. Canfyddiadau – dulliau o ddefnyddio data a gwybodaeth mewn gwledydd eraill

7.1 Mae'r adran hon yn crynhoi'r canfyddiadau pwysicaf o'r adolygiad enghreifftiol rhyngwladol. Edrychwyd ar ddulliau o ddefnyddio data a gwybodaeth mewn gwledydd sydd wedi cael diwygiadau addysgol tebyg i Gymru neu sydd â phrofiad o arferion a oedd yn berthnasol i'n hargymhellion newydd (e.e. samplu). Trefnir y canfyddiadau fesul gwlad.

Ffindir – lles, cynnydd, samplu

7.2 Lles: Asesir lles dysgwyr yn y Ffindir yn flynyddol gan nyrsys sydd wedi'u gwreiddio mewn ysgolion (Coburn 2019). Yn ogystal, cynhelir tair astudiaeth wahanol yn genedlaethol ar les dysgwyr. Mae'r arolygon ar gael mewn pum iaith ac yn cael eu rhedeg gan ysgolion, y gofynnir iddynt neilltuo un cyfnod gwers i ddysgwyr gwblhau'r arolygon. Mae'r arolygon hyn yn casglu ystod o ddata gan gynnwys: lefelau boddhad bywyd, profiad o fwlio a bygythiad corfforol, cam-drin sylweddau, a phrofiad y dysgwr o les personol ac iechyd (Helakorpi a Kivimäki 2021). Mae data a gesglir yn ecosystem data a gwybodaeth y Ffindir gan gynnwys yr arolygon hyn yn cael eu defnyddio'n bennaf gan ysgolion at ddibenion hunan-werthuso heb fawr ddim cyfranogiad gan y llywodraeth ganolog.

7.3 Cyrhaeddiad a chynnydd: Mae'r Ffindir yn gwneud defnydd cyfyngedig o asesiadau safonedig, ac yn hytrach mae ganddi ffocws cryf ar gynnydd ar lefel dysgwyr unigol. Caiff canlyniadau dysgu eu monitro gan ysgolion ond ni chynhelir unrhyw arolygiadau allanol rheolaidd o ysgolion nac athrawon gan fod 'diwylliant o ymddiriedaeth' ar draws y system. Mae astudiaethau safonedig o gynnydd yn y Ffindir yn gyffredinol yn astudiaethau hydredol a gomisiynir neu a redir gan fwrdeistrefi, a gesglir ar sail samplu (Vainikainen 2014). Yr unig asesiad crynodol safonedig y mae dysgwyr yn ei wneud yw ar ddiwedd addysg uwchradd (16 oed). Fodd bynnag, mae'r sgorio ar gyfer y prawf hwn yn gymharol oddrychol a chyfrifoldeb athrawon yw ei ddehongli (Vainikainen et al. 2018). Mae athrawon yn cael gwybodaeth uniongyrchol am gymhwysedd cyffredinol eu myfyrwyr gyda rhai cymariaethau rhwng ysgolion yn cael eu creu a'u cyhoeddi gan y llywodraeth genedlaethol (Vainikainen et al. 2018). Er bod y dull goddrychol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a amlinellir uchod wedi'i hen sefydlu o fewn system addysg y Ffindir, mae dadleuon yn cael eu cyflwyno bod lefel

bresennol yr hyblygrwydd o ran dehongli'r hyn sydd ei angen i gyflawni lefelau gradd gwahanol yn rhy uchel. Nid oes unrhyw newidiadau i fynd i'r afael â hyn wedi symud ymlaen eto.¹²

- 7.4 Samplu: Gwerthusir canlyniadau dysgu safonedig trwy samplu mewn gweithgareddau asesu a arweinir gan y llywodraeth genedlaethol fel y gellir eu hallosod i'w cymhwyso i'r grŵp oedran cyfan mewn addysg cyn cynradd a sylfaenol (Vainikainen et al. 2018). Bydd tua 5–10% o ddisgyblion o grŵp oedran penodol sy'n cael eu gwerthuso yn cymryd rhan (Canolfan Werthuso Addysg y Ffindir 2014). Tynnir samplau o fewn ysgolion ac mae ymdrech weithredol i gael cwmipas daearyddol cywir (Vainikainen et al. 2018). Mae dau neu dri phwnc fel arfer yn cael eu hasesu mewn unrhyw un astudiaeth, gyda thua 5,000 o ddisgyblion yn cymryd rhan ym mhob asesiad (Vainikainen 2014). Mae'r ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y sampl cenedlaethol yn cael gwybodaeth am yr asesiad o flaen amser, gyda'r cwestiynau a'r offer hefyd ar gael i ysgolion eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y sampl i'w defnyddio'n ddewisol (Canolfan Werthuso addysg y Ffindir 2021). Datblygwyd yr asesiad seiliedig ar samplu yn raddol dros 20 mlynedd o brofi nes i'r Fframwaith ar gyfer Gwerthuso Deilliannau Addysgol yn y Ffindir gael ei gyhoeddi ym 1998 (Canolfan Werthuso addysg y Ffindir 2022). Diffinnir y carfannau blwyddyn ysgol a'r pynciau sydd i'w hasesu yng nghynllun asesu addysgol 4 blynedd y Ffindir a osodwyd gan Ganolfan Gwerthuso Addysg y Ffindir (Vainikainen et al. 2018).
- 7.5 *Dysgu ar gyfer y system Gymreig*: Mae'r Ffindir wedi gweld llwyddiant wrth greu ecosystem data a gwybodaeth sydd wedi'i hanelu at hunan-werthuso a yrrir yn lleol trwy samplu aml, â ffocws o bynciau penodol i asesu perfformiad ynghyd ag astudiaethau hydredol a arweinir yn lleol i ddeall cynnydd o fewn y system. Mae ei ddull samplu – toriadau cynrychioliadol cyfyngedig o'r boblogaeth ag arferion samplu y gellir eu haddasu ar gyfer gwahanol agweddau ar y system ysgolion – hefyd i'w weld yn effeithiol. Yn olaf, caiff yr asesiadau o agweddau ar ddysgu fel lles, cynnydd, neu gyrhaeddiad, eu harwain i raddau helaeth gan hunanarfarnu a dyrannu cymorth ar lefel ranbarthol yn bennaf, a defnyddir y canlyniadau.

¹² 'Nid oes unrhyw brofion cenedlaethol wedi'u cynllunio ar hyn o bryd i weld sut mae ysgolion yn bodloni gofynion y Cwricwlwm Craidd newydd, ond mae'n amlwg y byddai hyd yn oed system sy'n gweithredu'n gymharol dda yn elwa o ymagwedd ychydig yn fwy systematig at safonau i sicrhau tegwch y graddau y mae disgyblion eu hangen i wneud cais am addysg uwchradd uwch' (Vainikainen et al. 2018).

Seland Newydd / Aotearoa – lles, cyd-ddylunio offer casglu data

- 7.6 Lles dysgwyr: Mae Seland Newydd yn mynd ati i gasglu data am les dysgwyr trwy gyfres o arolygon o ddysgwyr, athrawon, a'r ysgol ehangach. Mae dysgwyr yn destun tri grŵp o arolygon: yr Arolwg Beth Amdana i, sy'n cael ei redeg gan Malatest International fel y'i comisiynwyd gan y Weinyddiaeth Datblygiad Cymdeithasol gyda'r nod o gael darlun cenedlaethol drwy arolwg optio i mewn sydd ar gael i blant a phobl ifanc; yr arolwg Wellbeing@School, sy'n cael ei redeg a'i ddylunio'n rhannol gan ysgolion gan ddefnyddio offer a ddarperir gan y llywodraeth genedlaethol ac sy'n canolbwyntio ar lywio hunan-werthuso a deall cymunedau ysgolion lleol; a'r Arolwg Fi a Fy Ysgol (arolwg o agwedd) (m. NZCER 2022).
- 7.7 Mae ysgolion yn defnyddio'r offer Wellbeing@School (W@S) i gasglu barn myfyrwyr ac athrawon am wahanol agweddau ar fywyd ysgol, ac i lywio ymatebion priodol i unrhyw faterion a godir. Mae'r data o'r arolwg W@S ar gael i Gyngor Ymchwil Addysgol Seland Newydd i'w dadansoddi. Maent yn cynnal dadansoddiadau ar lefel genedlaethol gan gynnwys gwaith data cymharol sy'n edrych ar bynciau fel: pa arferion a welir mewn ysgolion â lefelau is o ymddygiad ymosodol gan fyfyrwyr; a sut mae lles yn amrywio rhwng ysgolion neu o fewn ysgolion (Lawes a Boyd 2018). Yn hollbwysig, nid oes gan y llywodraeth ganolog fynediad at y data crai o'r arolygon hyn a rhaid iddi ddibynnu ar ofyn i'r partner ymchwil ymchwilio i gwestiynau penodol y maent am gael eu hateb iddynt (b NZCER 2022). Bwriad hyn yw cynyddu ymddiriedaeth ysgolion yn yr arolygon trwy sicrhau na ellir craffu arnynt yn uniongyrchol ar sail eu hymatebion.
- 7.8 Dull cyd-ddylunio: Nodweddir dull Seland Newydd o ddylunio offer casglu data ac asesu gan gydweithio â phartneriaid system (Swyddfa Adolygu Addysg 2016). Mae'r arolygon lles a ddisgrifir uchod, ac offer asesu eraill i'w defnyddio gan ysgolion, yn fodiwlaid h.y. mae rhai cwestiynau'n orfodol ond gall ysgolion gymysgu a chyfateb eraill o restr ragosodedig eu hunain. Mae hyn yn galluogi ysgolion i gasglu gwybodaeth sy'n berthnasol iddynt tra ar yr un pryd yn cynhyrchu gwaelodlin o wybodaeth gyson, gymaradwy.
- 7.9 *System Dysgu ar gyfer y Gymraeg*: mae lles yn cael ei flaenoriaethu yn system addysg Seland Newydd, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu'n helaeth yn eu hecosystem ddata a gwybodaeth. Mae deall lles yn cael ei arwain gan yr ysgol, a defnyddir y data a gynhyrchir trwy amrywiaeth o offer arolwg yn rheolaidd at ddibenion hunan-werthuso. Mae hyn yn galluogi ysgolion i ymateb yn gyflym ac

mewn ffordd wybodus i broblemau sy'n wynebu eu cymunedau (Swyddfa Adolygu Addysg 2022). Darperir cryn dipyn o ganllawiau i ysgolion ynghylch defnyddio'r arolwg W@S, yn cwmpasu popeth o gynllunio arolygon da, i ddadansoddi a gweithredu ar y canlyniadau (c. NZCER 2022).

Singapôr – tryloywder a chyfathrebu

7.10 Er bod system addysg Singapôr efallai'n debycach i gwricwlwm blaenorol Cymru na'r CiGnewydd, mae wedi bod ar daith ddiwygio dros y blynyddoedd diwethaf sy'n debyg i un Cymru o ran mynd i'r afael ag anghenion lles dysgwyr a lleihau nifer yr asesiadau safonedig sydd o bwys uchel. Ers 2018 mae Singapôr wedi ceisio symud i ffwrdd o ddeall cynnydd yn gyfan gwbl drwy lens cyrhaeddiad academaidd drwy leihau nifer yr asesiadau yn yr ysgol a newid y dull ar gyfer y rhai sy'n weddill (Ng 2020). Er enghraifft, mae dau asesiad cenedlaethol uchel eu pwys ar gyfer disgyblion oed cynradd wedi'u dirwyn i ben, ac mewn asesiadau crynodol mae disgyblion yn cael eu 'marcio...yn ôl meini prawf gosodedig yn hytrach nag o'u cymharu â myfyrwyr eraill' (Ng 2020). Fodd bynnag, mae'r system addysg wedi profi heriau drwy gydol y cyfnod pontio hwn, sef pwyslais cynhenid y cyhoedd ar raddau fel mesur o lwyddiant a chynnydd disgyblion. Er enghraifft, gyda'r gostyngiad yn nifer yr arholiadau, mae llawer o rieni a gofalwyr wedi dechrau defnyddio asiantaethau dysgu preifat i asesu eu plant, gan ddefnyddio fframweithiau asesu blaenorol, i fesur eu cynnydd yn ôl eu cyfoedion (Mokhtar, 2019 yn: Ng 2020).

7.11 *System Dysgu ar gyfer y Gymraeg:* Mae profiad Singapore yn enghraifft dda o'r angen i reoli agweddau a disgwyliadau'r cyhoedd wrth roi diwygiadau addysg ar waith, gan gynnwys defnyddio a chyhoeddi dangosyddion cyrhaeddiad. Os bydd nifer yr asesiadau'n lleihau, neu o leiaf i ba raddau y cyhoeddir data canlyniadau, bydd angen rhoi hyder i rieni a gofalwyr bod eu plant yn dysgu'r hyn y mae angen iddynt ei wneud ac na fyddant yn cael eu rhoi dan anfantais yn y dyfodol.

Sbaen – systemau dwyieithog / llueithog

7.12 Mae'r system addysg yn Sbaen wedi'i datganoli gyda llywodraethau rhanbarthol ymreolaethol yn dal pŵer gwneud penderfyniadau dros y system addysg, gyda rhai pwerau cyfyngedig wedi'u datganoli i'r ysgolion eu hunain (OECD 2018). Mae gan y system Sbaenaidd ddau asesiad safonol crynodol cenedlaethol ar ddiwedd cyfnodau ysgol, a chynigir y ddau mewn ieithoedd rhanbarthol (OECD 2018). Er

enghraifft, yng Nghatalwnia dewisodd 97 y cant o fyfyrwyr wneud yr arholiad mynediad i brifysgol yn Gatalaneg yn 2022 (Vallespín 2022). Tybiwn felly fod yn rhaid casglu data yn yr holl ieithoedd cyd-swyddogol er mwyn caniatáu dewis disgyblion.

- 7.13 Yr egwyddor sy'n sail i ddewis iaith yn y system addysg yn Sbaen yw bod â gogwydd tuag at yr hyn a ystyrir yn iaith sy'n cael ei thangynrychioli'n gymdeithasol, h.y. mae'r iaith sy'n cael ei defnyddio llai yn y gymdeithas o ddydd i ddydd yn cael ei blaenoriaethu mewn gofodau addysgu (Generalitat of Catalonia Ministry of Education 2018, Gorter a Cenoz 2011). Mae Catalwnia a Gwlad y Basg yn rheoli am iaith yn eu gweithgareddau asesu sampl o gyrhaeddiad dysgwyr, gan edrych ar famiaith y dysgwr, a hyfedredd mewn ieithoedd cyd-swyddogol yn ogystal â'u perfformiad mewn meysydd eraill fel rhifedd i gymharu â dysgwyr uniaith. Mae myfyrwyr Basgaidd yn cael eu gwerthuso yn ôl siaradwr uniaith Sbaeneg delfrydol a siaradwr uniaith Basgeg delfrydol (Gorter a Cenoz 2011). Ers 2009, mae Gwlad y Basg wedi asesu caffaeliad yr amcanion allweddol o fewn ei chwricwlwm unwaith y flwyddyn yn yr holl ddisgyblion yn y bedwaredd flwyddyn o addysg gynradd ac ail flwyddyn addysg uwchradd orfodol (Gorter a Cenoz 2011). Yng Nghatalwnia a Gwlad y Basg mae llawer o gymharu cyrhaeddiad graddau rhwng gwahanol grwpiau o siaradwyr iaith yn cael ei wneud.
- 7.14 *System Dysgu ar gyfer y Gymraeg*: Gallai casglu data gan gynnwys ar gyfer asesiadau fod ar gael ym mhob iaith gyd-swyddogol er mwyn caniatáu i ddisgyblion sefyll arholiadau cyhoeddus yn yr iaith y maent fwyaf cyfforddus â hi.

8. Canfyddiadau – mewnwelediadau eraill a chasgliadau o brofi argymhellion drafft

Meysydd lle mae angen newidiadau neu welliannau

- 8.1 Yn seiliedig ar ein hasesiad manwl o'r rhestr hir o anghenion defnyddwyr, rydym yn dod i'r casgliad bod llawer o anghenion rhanddeiliaid yn cael eu diwallu gan y data a'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd o fewn y system. Fodd bynnag, mae nifer o feysydd lle mae angen rhywfaint o newid i ddiwallu anghenion rhanddeiliaid, a grynhoir yn Nhabl 8.1 isod.
- 8.2 Mae ein hargymhellion ar gyfer y newid penodol sydd ei angen ar gyfer pob un o'r anghenion defnyddwyr hyn yn ymddangos yn yr adran Argymhellion isod. Sylwch nad yw ein hargymhellion isod yn cyd-fynd ym mhob achos yn union â'r categorïau angen yn y tabl. Er enghraifft, rydym wedi creu argymhellion ar wahân i gwmpasu lles dysgwyr a staff, ac mae cyfathrebu yn ystyriaeth ar gyfer pob un o'r argymhellion (h.y. sut mae ysgolion yn cyfathrebu gwybodaeth am les gyda chymunedau ysgolion) yn ogystal ag ar ei ben ei hun).

Tabl 8.1: crynodeb o'r angen am newidiadau penodol i'r defnydd presennol o ddata a gwybodaeth i ddiwallu anghenion rhanddeiliaid

Angen	Asesiad
Deilliannau cymwysterau CA4	Angen newid
Profiad, gwybodaeth a sgiliau	Angen newid
Cynnydd	Angen newid
Lles (dysgwyr a staff)	Angen newid
Ymddygiad a phresenoldeb y dysgwr	Angen newid
Nodweddion a Thegwch	Angen newid
Ysgolion sy'n peri pryder	Dim angen newid
Gwasanaethau cefnogi a gwella	Dim angen newid
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol / Targedau Cymraeg 2050	Dim angen newid
Cyfathrebu	<i>Ystyrir fel rhan o newidiadau eraill</i>
Agwedd at ddysgu	Dim angen newid
Deilliannau dysgu proffesiynol	Dim angen newid

Themâu a mewnwelediadau o argymhellion profi

- 8.3 Un o gamau pwysicaf ein hymchwil oedd profi argymhellion drafft. Yn aml, pan gyflwynir cynigion pendant, diriaethol iddynt, roedd rhanddeiliaid yn wir yn gallu ymgysylltu â goblygiadau a naws ymarferol manteision ac anfanteision gwahanol ddulliau o ddefnyddio data a gwybodaeth.
- 8.4 Gan i ni ddefnyddio dull gweithredu a arweiniwyd gan anghenion drwy gydol y prosiect, roedd yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan am yr heriau a'r materion cyfredol allweddol a nodwyd gennym fel y rhai pwysicaf, a'r argymhellion lefel uchel cyfatebol. Er bod profi fersiynau drafft gyda phobl wrth gwrs wedi ein galluogi i wneud y fersiynau terfynol yn fwy ymarferol, cynnil ac wedi'u halinio i anghenion.
- 8.5 Fodd bynnag, amlygodd y profion densiynau rhwng anghenion gwahanol randdeiliaid (e.e. un rhanddeiliad yn gofyn am ddata newydd a fyddai'n golygu bod baich ychwanegol ar ysgolion o ganlyniad i fwy o gasglu data) ac yn wir, mewn rhai achosion, rhwng swyddogaethau craidd yr ecosystem (e.e. rhwng hunan-werthuso ac atebolrwydd). Roedd hefyd yn addysgiadol iawn ynghylch y graddau gwirioneddol y mae diwylliant ac agweddau at ddefnyddio data a gwybodaeth yn gallu bod yn wahanol o fewn gwahanol bartneriaid ac i ba raddau y mae canllawiau gwella Ysgolion diweddar yn cael eu cydnabod a'u gwreiddio mewn arfer. Mae'r prif themâu a mewnwelediadau fel a ganlyn.

Consensws eang ar y dull 'cywir' o ddefnyddio data a gwybodaeth ymhlith arweinwyr rhanddeiliaid allweddol

- 8.6 Roedd rhanddeiliaid allweddol y buom yn ymgysylltu â nhw drwy gydol y prosiect fel arfer yn darparu adborth ystyriol, cytbwys a chynnil. Roedd gwerthfawrogiad ar bob lefel o werth posibl defnyddio data meintiol i ysgogi gwelliant, atebolrwydd a thryloywder, ond hefyd y risgiau cynhenid sy'n gysylltiedig â chyhoeddi dangosyddion a'u defnyddio i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Roedd cyfranogwyr yn ymwybodol iawn o'r heriau a grëwyd gan rai dulliau blaenorol o ddefnyddio data a gwybodaeth ac roeddent am eu hosgoi yn y dyfodol. Roeddent hefyd yn ymwybodol o'r canllawiau gwella Ysgolion diweddar ac yn dod i mewn i'r ysbryd hwnnw.
- 8.7 O ganlyniad, cymharol ychydig o achosion a gafwyd lle nododd rhanddeiliad neu grŵp penodol fod angen mawr am ddata safonedig newydd neu ychwanegol heb werthfawrogi'r effeithiau negyddol neu anfwriadol posibl y gallai eu cael ar rannau

eraill o'r system. Er enghraifft, dywedodd Estyn, awdurdodau lleol, a thimau Llywodraeth Cymru i gyd y byddai rhyw fath o wybodaeth feintiol reolaidd am les dysgwyr yn werthfawr ar gyfer cyflawni eu priod swyddogaethau. Ond roedden nhw i gyd hefyd yn cydnabod y baich newydd posibl y byddai hyn yn ei gyflwyno i ysgolion, ac yn ystyried a fyddai rhyw ddewis arall yn cyrraedd yr un nod. O ganlyniad, felly, yn gyffredinol roedd llai o alwadau cryf am ddata safonedig ychwanegol nag a ragwelwyd efallai ar ddechrau'r astudiaeth.

Diwylliant ac agweddau ehangach tuag at ddata a gwybodaeth

- 8.8 Er y byddai'r paragraffau a amlinellir uchod yn awgrymu bod y diwygiadau eisoes wedi cael effaith sylweddol ar ddiwylliant ac agweddau, roedd profi argymhellion yn rhoi darlun ychydig yn wahanol. Pan gyflwynwyd cynigion pendant ar gyfer pethau a allai newid yn yr ecosystem, roedd rhanddeiliaid yr ydym wedi ymgysylltu â nhw yn flaenorol yn gallu rhagweld a meddwl trwy oblygiadau a heriau ymarferol posibl yn fanylach nag o'r blaen. Roedd y sesiynau gweminar, a oedd yn agored i bob ysgol, hefyd yn galluogi ystod ehangach o randdeiliaid i gyfrannu.
- 8.9 I grynhoi'n gryno, roedd yr adborth hwn yn awgrymu nad yw'r canllawiau gwella Ysgolion efallai wedi treiddio allan drwy ymarferwyr yn y system (ar bob lefel) gymaint ag yr oeddem wedi meddwl yn wreiddiol. Yn yr un modd, mae agweddau tuag at ddefnyddio data a gwybodaeth yn ymddangos yn eithaf cymysg o hyd; mae llawer o bobl yn cael eu cynnwys yn y canllawiau gwella Ysgolion newydd, ond mae amheuaeth bod llawer o rai eraill yn dal i weithredu o dan baradeimau blaenorol. Mae mewnwelediadau penodol yn cynnwys:
- nid oedd ysgolion a rhanddeiliaid eraill yn hyderus, pe bai mwy o ddata safonedig ar lefel ysgol ar gael o fewn y system (e.e. datblygu sgiliau dysgwyr, lles), na fyddai'n cael ei ddefnyddio gan rai ymarferwyr mewn sefydliadau haen ganol at ddibenion craffu ac atebolrwydd yn hytrach na hunan-werthuso a gwella¹³
 - er nad yw canllawiau'r CiG a Gwella Ysgolion yn annog ysgolion i gynnal asesiad meintiol cynhwysfawr o gynnydd dysgwyr yn unol ag agweddau ar y cwricwlwm fel Camau Cynnydd, mae toreth o feddalwedd trydydd parti sydd wedi creu fframweithiau o'r fath. Mae llawer o ysgolion yn defnyddio'r systemau hyn, a dulliau eraill mwy traddodiadol o reoli perfformiad sy'n cael eu gyrru gan ddata,

¹³ Mae'n bwysig nodi nad yw'r math hwn o ymddygiad ac arfer yn effaith anochel o ddefnyddio / rhannu mwy o ddata, ond mae o fewn rheolaeth uniongyrchol Llywodraeth Cymru a sefydliadau haen ganol.

naill ai oherwydd eu bod yn teimlo bod partneriaid eraill yn y system yn disgwyl hyn ganddynt neu oherwydd mai dyma'r hyn y mae arweinwyr ysgolion a llywodraethwyr wedi arfer ag ef o'r cwricwlwm blaenorol.

- mae ysgolion wedi bod o dan bwysau sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, yn delio â'r pandemig ac yn adfer ohono a gweithredu'r CiG newydd Yn anecdotaidd, nid yw rhai penaethiaid felly hyd yn oed wedi gweld y canllawiau gwella Ysgolion newydd eto, heb sôn am eu mewnoli a dechrau hyfforddi staff a llywodraethwyr yn unol â hynny ac ati.

8.10 Mae gan y pwyntiau hyn oblygiadau sylweddol posibl i'r mathau o newidiadau y gall Llywodraeth Cymru eu gwneud i'r ecosystem data a gwybodaeth tra'n dal i hyrwyddo egwyddorion y Canllawiau Gwella Ysgolion. Mae ganddo hefyd oblygiadau ar gyfer y dull o weithredu unrhyw newidiadau.

Y cyhoedd a'r cyfryngau

8.11 Yr unig grŵp rhanddeiliaid a oedd yn galw am lawer mwy o fynediad at ddata, yn ansoddol ac yn feintiol, oedd rhieni a gofalwyr. Roedd rhieni a gofalwyr hefyd yn fwy gobeithiol na rhanddeiliaid addysg 'allweddol' ynghylch cyhoeddi data canlyniadau cymwysterau mewn ffordd sy'n galluogi cymariaethau rhwng ysgolion unigol a'u sgorau.

8.12 Gallai hyn ddangos nad oedd eu hanghenion am ddata a gwybodaeth yn cael eu diwallu mor llawn â rhanddeiliaid eraill, o dan y cwricwlwm blaenorol ac yn awr. Mae un o'n hargymhellion manwl isod yn mynd i'r afael â hyn. Fodd bynnag, gallai hefyd ddangos nad yw dealltwriaeth neu gefnogaeth ar gyfer rhai agweddau ar y CiG a'r canllawiau gwella Ysgolion newydd wedi treiddio allan i'r cyhoedd eto i'r graddau y mae wedi'i wneud ar gyfer rhanddeiliaid allweddol. Yn wir, mae gwledydd eraill sydd wedi gweithredu diwygiadau addysg tebyg wedi profi mater tebyg (e.e. gweler y Ffindir yn yr adolygiad rhyngwladol enghreifftiol, Canfyddiadau adran 7 uchod). Dylai Llywodraeth Cymru archwilio hyn yn fanylach yn dilyn yr adroddiad hwn. Mae'n bosibl ei fod yn dangos pwysigrwydd cyfathrebu cyhoeddus parhaus ynghylch gweledigaeth y CiG newydd ar gyfer creu ecosystem data a gwybodaeth effeithiol.

8.13 Roedd rôl y cyfryngau hefyd yn amlwg yn ystod profi argymhellion. Mae un o'n hargymhellion isod yn cynnig nad yw Llywodraeth Cymru bellach yn cyhoeddi canlyniadau lefel ysgol o ddeilliannau cymwysterau CA4. Y rhesymeg dros hyn yw

helpu i greu diwylliant o ddefnyddio data a gwybodaeth yn bennaf oll ar gyfer hunan-werthuso a gwella, yn unol â'r canllawiau gwella Ysgolion diweddar (a drafodir yn fanylach isod). Fodd bynnag, hyd yn oed pe bai Llywodraeth Cymru yn rhoi'r argymhelliad hwn ar waith, nododd sawl rhanddeiliad fod sefydliadau'r cyfryngau yn debygol o gyflwyno ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth i gyrchu canlyniadau ar lefel ysgol (a/neu coladu'r wybodaeth hon o ffynonellau eraill) a chreu eu tablau cynghrair eu hunain.

- 8.14 Dylai Llywodraeth Cymru felly gymryd camau i baratoi ar gyfer hyn, megis drafftio datganiadau parod os bydd cyfryngau'n creu tablau cynghrair ysgolion. Byddai'r rhain yn ceisio newid naratif y cyfryngau ynghylch addysg a chyrhaeddiad academiaidd yn gyson â'r CiG a'r cynigion cyfatebol ar gyfer yr ecosystem data a gwybodaeth a nodir yn yr adroddiad hwn. Er enghraifft, gallent bwysleisio: gweledigaeth ehangach y CiG a'r dulliau newydd o ddefnyddio data a gwybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio eu hannog, a pham; agweddau ar ddysgu sydd bellach yr un mor bwysig i gymwysterau CA4 fel lles a sgiliau; a'r berthynas rhwng canlyniadau cymwysterau CA4 a ffactorau cymdeithasol-economaidd megis incwm a chyfalaf cymdeithasol, sydd fwy neu lai y tu allan i reolaeth ysgolion unigol.

Meysydd lle nad ydym wedi gwneud argymhellion

- 8.15 Yn olaf, roedd rhai heriau neu fylchau yn y wybodaeth gyfredol a ddeilliodd o'n hymchwil i anghenion defnyddwyr na wnaethom yn y pen draw argymhellion penodol ar eu cyfer, ond y teimlwn eu bod yn ddigon pwysig i Lywodraeth Cymru eu nodi. Mae dau reswm am hyn:
- amlygwyd mater neu her yn ystod ymchwil sydd yn gyfan gwbl y tu allan i gwmpas y prosiect hwn, ond sy'n cael effaith ar ddata a gwybodaeth, y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried ar wahân (Ymddygiad a phresenoldeb)
 - mae angen data safonedig ychwanegol i ddiwallu angen a amlygwyd yn ystod ymchwil, ond mae'n debygol nad yw'r data hyn yn ddigon gwerthfawr i gyfiawnhau'r baich ychwanegol ar ysgolion o'i gasglu (llais y dysgwyr mewn cyrchfannau ÔI-16).

Ymddygiad a phresenoldeb¹⁴

- 8.16 Fe glywsom yn ystod yr ymgysylltiad gyda rhanddeiliaid fod yna anghysonderau yn y modd mae ysgolion yn mesur presenoldeb, gwaharddiadau a symud disgyblion, a all effeithio ar ansawdd a chysondeb dangosyddion y digwyddiadau hyn. I ddechrau, fe wnaethon ni ddatblygu argymhelliad drafft a anelwyd at dynhau cyfarwyddyd ar gyfer diffiniadau data i wneud cofnodi ac adrodd yn fwy cyson. Fodd bynnag, wrth brofi'r argymhelliad drafft, datgelwyd fod y cyfarwyddyd yn addas wedi'r cyfan, ac mai'r hyn sydd mwyaf o bwys efallai yw'r craffu agos mae digwyddiadau ymddygiadol fel gwaharddiadau, wedi eu denu yn y gorffennol, ac sydd wedi creu cymelliadau gwrthnysig i ysgolion gyflwyno eu data mewn modd mwy cadarnhaol. Mae hyn yn dystiolaeth bellach bod yn rhaid i randdeiliaid – yn enwedig y rhai â swyddogaethau atebolrwydd – gael eu cynnwys yn yr ethos o hunanarfarnu a gwella er mwyn bodloni gweledigaeth y Cwricwlwm i Gymru.

Llais y dysgwr mewn cyrchfannau Ôl-16

- 8.17 Roedd ysgolion, lleoliadau addysg bellach, a chyflogwyr yn gyson yn galw am fwy o bwyslais ar gyrchfannau yn y ffordd y mae lleoliadau uwchradd yn meddwl am gyflawniad dysgwyr. Teimlai'r ddau grŵp olaf yn arbennig hefyd y byddai dal rhyw elfen o leisiau'r dysgwyr eu hunain mewn cyrchfannau yn werthfawr, er enghraifft a oeddent yn mynd ymlaen i'w cyrchfan dewisol mewn addysg Ôl-16.
- 8.18 Felly datblygwyd argymhelliad drafft gennym ar gyfer arolwg llais cyrchfan y gellid ei gynnal gan ddysgwyr yn eu blwyddyn gyntaf o addysg Ôl-16, gan ofyn a aethant ymlaen i ac aros (e.e. am o leiaf 6 mis) yn eu cyrchfan dewisol, a gasglid o bosibl ar sail samplu. Y bwriad oedd helpu lleoliadau uwchradd ac Ôl-16 i roi gwell cyngor ac arweiniad i ddysgwyr tra yn yr ysgol, gan sicrhau bod mwy o ddysgwyr yn mynd i'w cyrchfan dewisol ac yn ei gynnal.¹⁵
- 8.19 Fodd bynnag, wrth brofi'r argymhelliad hwn, cododd partneriaid gwestiynau ynghylch pa mor ddibynadwy fyddai canlyniadau arolwg o'r fath. Er enghraifft, pe bai'n canfod bod cyfran o ddysgwyr yn anfodlon ar eu cyrchfan, gallai hyn ddangos eu bod yn cael eu gwthio tuag at gyrchfan nad oedd yn addas ar eu cyfer neu fod diffyg darpariaeth ôl-16 o'u dewis yn eu hardal. Ond gallai hefyd fod oherwydd bod

¹⁴ Darperir gwybodaeth ychwanegol ar gyfer y ddau faes hyn yn Atodiad E.

¹⁵ Ar hyn o bryd, mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn cofnodi cyfran y dysgwyr sy'n mynd i wahanol fathau o leoliadau a chyrchfannau Ôl-16, ond nid a yw hyn yn adlewyrchu'r hyn y mae'r dysgwyr eu hunain yn ei ddymuno.

dysgwyr wedi newid eu meddyliau. Ond yn bwysicach fyth, efallai, a hyd yn oed pe bai cynllun arolwg gofalus yn lliniaru'r her hon, roedd cwestiynau ynghylch a fyddai gwerth y data y byddai arolwg o'r fath yn eu cynhyrchu yn cyfiawnhau'r baich ychwanegol ar leoliadau Ôl-16 o'i weinyddu. Felly datblygwyd argymhelliad amgen i fynd i'r afael â'r mater hwn, yn gwneud defnyddio data sydd eisoes wedi'u casglu yn y system (gweler argymhelliad 11 isod).

9. Argymhellion

- 9.1 Mae'r adran hon yn amlinellu ein hargymhellion. Mae rhai yn awgrymu symudiadau sylweddol mewn dulliau sylfaenol o danategu'r defnydd o ddata a gwybodaeth yn y dyfodol, gan gynnig rhai egwyddorion cyffredinol uchelgeisiol. Mae eraill yn cynnig newidiadau mewn meysydd penodol er mwyn tanategu'r defnydd o ddata a gwybodaeth yn y dyfodol.
- 9.2 Mae'r rhain yn ymateb i anghenion blaenoriaethol rhan-ddeiliad a ganfuwyd drwy'r ymchwil helaeth hwn, ond rydym yn cydnabod fod pob un ohonyn nhw yn fentrau mawrion i'w datblygu a'u gweinyddu. Mae'n amlwg mai capasiti cyfyng dros ben sydd gan ysgolion a phartneriaid eraill ar gyfer newidiadau ar raddfa fawr ar hyn o bryd; bydd angen i Lywodraeth Cymru, ynghyd â phartneriaid eraill ystyried yn ofalus pa argymhellion y dylid eu bwrw ymlaen, eu gweithrediad posib, ac unrhyw weithredu'n raddol dros gyfnod o amser, wrth anelu at adeiladu system eco gwybodaeth sydd yn cydbwysu anghenion a thensiynau ar draws y system ysgol.

Proses ar gyfer datblygu argymhellion

- 9.3 Ar ddiwedd Cyfnod 3 ein hymchwil, roedd gennym ddealltwriaeth gref o'r swyddogaethau craidd y mae angen data a gwybodaeth safonedig ar eu cyfer ar bob lefel, a meysydd lle mae angen rhywfaint o newid i ddiwallu anghenion rhanddeiliaid.
- 9.4 Roedd gweithgareddau ymchwil hefyd wedi cynhyrchu amrywiaeth o fewnwelediadau newydd i: farn rhanddeiliaid ar gryfderau a diffygion dulliau hanesyddol (h.y. cyn-coronafirws) a chyfredol o ddefnyddio data a gwybodaeth o fewn y system ysgolion; arferion a dulliau gweithredu perthnasol o wledydd eraill; ac egwyddorion pwysig a all alluogi'r ecosystem newydd i gefnogi ac ategu'r cwricwlwm newydd.
- 9.5 Daethom â'r tri pheth hyn ynghyd i ddatblygu argymhellion sy'n ymateb i anghenion rhanddeiliaid fel y maent ar hyn o bryd ond sydd hefyd yn diffinio'r ecosystem yn gyffredinol ac a fydd yn ei galluogi i esblygu dros amser. Yn ymarferol, roedd hyn yn golygu ystyried ein hasesiadau manwl o anghenion defnyddwyr a chanfyddiadau'r adolygiad enghreifftiol rhyngwladol ochr yn ochr â chyfres o feini prawf pwysig yr oedd angen eu bodloni i sicrhau bod argymhellion yn briodol, yn ymarferol, ac yn cyd-fynd â gweledigaeth y CiG. Yn seiliedig ar hyn, fe wnaethom ddatblygu

damcaniaethau cychwynnol a'u profi a'u mireinio'n ailadroddol gyda phartneriaid i gyrraedd y fersiynau terfynol hyn.

Meini prawf sy'n sail i ddatblygu argymhellion

9.6 Fe wnaethom ddefnyddio set o feini prawf i helpu i lunio argymhellion. Roedd rhai o'r rhain yn berthnasol i ddatblygu pob argymhelliad penodol, rhai i'r argymhellion ar y cyd, a rhai ar gyfer y ddau. Sicraodd hyn ein bod yn cymryd golwg systemig yn hytrach na datblygu argymhellion datgysylltiedig mewn unedau bach, nad ydynt yn gweithio yn eu cyfanrwydd. Er enghraifft, fe wnaethom ddatblygu argymhellion mwy penodol i ddechrau nag sydd wedi'u cynnwys yn y fersiwn derfynol hon o'r adroddiad. Pan ystyriwyd y rhain ar y cyd, teimlwyd y byddai'n golygu cyflwyno gormod o feichiau ychwanegol ar ysgolion. O ganlyniad, cafodd rhai o'r argymhellion penodol eu haddasu neu eu dileu. Roedd cymryd y farn gyfunol hon hefyd yn golygu y gallem ddatblygu argymhellion unigol i ddiwallu anghenion nifer o ddefnyddwyr gyda dim ond un newid i ddata a gwybodaeth.

9.7 Meini prawf sy'n berthnasol i ddatblygiad argymhellion penodol:

- cydbwysu anghenion rhanddeiliaid sy'n cystadlu – ar gyfer unrhyw achos penodol o gasglu, prosesu a defnyddio data, ni ddylai anghenion un grŵp rhanddeiliaid gael eu blaenoriaethu uwchlaw grwpiau eraill. Er enghraifft, yn gyffredinol ni ddylai fod yn ofynnol i ysgolion gasglu data newydd sylweddol – sy'n achosi baich amser ac adnoddau – i roi'r data sydd eu hangen ar Lywodraeth Cymru ar gyfer ei hunan-werthuso a gwella ei hun yn unig. Os oes angen data ychwanegol i ddiwallu anghenion un rhanddeiliad, dylai'r daith ddata gael ei dylunio fel ei bod hefyd yn creu gwybodaeth sy'n werthfawr i randdeiliaid eraill; neu'n well eto, dylid cynllunio'r un daith ddata i ddiwallu anghenion rhanddeiliaid lluosog
- egwyddorion arfer da – ni ddylid rhoi gormod o bwys ar ddangosyddion unigol o agweddau ar ddysgu ar lefel dysgwr unigol neu lefel ysgol. Dylid eu defnyddio ar y cyd â dangosyddion meintiol eraill ac ystod o wybodaeth ansoddol i ddatblygu darlun cyflawn. Dylid hefyd eu dehongli bob amser ochr yn ochr â gwybodaeth gyd-destunol briodol, neu, lle nad yw hyn ar gael, dylid eu trin â gofal priodol.

9.8 Meini prawf sy'n berthnasol ar draws yr holl argymhellion:

- cydraddoldeb rhwng y cwricwlwm a'r ecosystem – mae'n drueni anffodus bod y pethau sy'n cael eu mesur mewn system yn cael eu blaenoriaethu'n naturiol gan

randdeiliaid. Am y rheswm hwn, cyn belled ag y bo'n bosibl ac yn ymarferol, dylai ecosystem data a gwybodaeth yr ysgol (h.y. y pethau a fesurir ac yr adroddir arnynt) adlewyrchu'r agweddau ar ddysgu a ystyrir yn bwysig o fewn y CiG.

9.9 Meini prawf sy'n berthnasol i argymhellion penodol ac ar y cyd:

- lleihau beichiau – mae ysgolion yn wynebu pwysau mawr ar hyn o bryd gydag adferiad coronafeirws a gweithredu'r CiG. Felly, dylid lleihau cymaint â phosibl ar unrhyw feichiau ychwanegol yn sgil casglu mwy o ddata (at bob diben) a/neu rhoi ystyriaeth i wneud gwell defnydd o'r data a gesglir eisoes (e.e. at ddibenion gweithredol yr ysgol ei hun). Dylid nodi bod sefyllfaoedd lle gall y maen prawf hwn wrthdaro ag egwyddorion cydraddoldeb uchod
- hyrwyddo diwylliant o hunan-werthuso a gwella – roedd yr holl randdeiliaid allweddol y buom yn ymgysylltu â nhw yn cefnogi ethos y canllawiau gwella Ysgolion diweddar, sy'n pwysleisio y dylid defnyddio data a gwybodaeth yn bennaf ar gyfer hunan-werthuso a gwella. Fodd bynnag, canfuom hefyd ei bod yn bosibl nad yw'r neges hon wedi treiddio drwodd i bob ymarferydd ym mhob rhan o'r system eto, gan arwain at bryderon y gallai data cyfredol ar lefel ysgol ac unrhyw ddata newydd a rennir â phartneriaid eraill (e.e. sefydliadau haen ganol) ddal i gael eu defnyddio at ddibenion craffu ac atebolrwydd. Felly, dylid defnyddio argymhellion ar gyfer defnydd ymarferol o ddata a gwybodaeth i hyrwyddo'r diwylliant ehangach o hunan-werthuso a gwella y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio ei sefydlu.
- dealltwriaeth gyfannol – dylai'r ecosystem data a gwybodaeth hefyd adlewyrchu ehangder profiad y dysgwr. Cyhyd ag sy'n bosibl, dylai dangosyddion ar gyfer agweddau penodol ar ddysgu, ac o fewn yr ecosystem yn gyffredinol, anelu at ddarparu dealltwriaeth o bellter a deithiwyd gan ddysgwyr yn hytrach nag amser yn unig, ac am hyd y dysgu, nid dim ond y diweddbwynt.

Argymhellion – trosolwg

9.10 Mae pedwar categori o argymhellion. Crynhoir y rhain yn Nhabl 9.1 a chânt eu trafod yn fanylach isod.

9.11 Mae rhai yn awgrymu symudiadau sylweddol mewn dulliau sylfaenol o danategu'r defnydd o ddata a gwybodaeth yn y dyfodol, gan gynnig rhai egwyddorion cyffredinol uchelgeisiol. Mae eraill yn cynnig newidiadau mewn meysydd penodol er mwyn tanategu'r defnydd o ddata a gwybodaeth yn y dyfodol.

9.12 Mae'r rhain yn ymateb i anghenion blaenoriaethol rhan-ddeiliad a gafodd eu hadnabod drwy'r ymchwil helaeth hwn, ond rydym yn cydnabod fod pob un ohonyn nhw yn fentrau mawrion i'w datblygu a'u gweinyddu. Mae'n amlwg mai capasiti cyfyng dros ben sydd gan ysgolion a phartneriaid eraill ar gyfer newidiadau ar raddfa fawr ar hyn o bryd; bydd angen i Lywodraeth Cymru, ynghyd â phartneriaid eraill ystyried yn ofalus pa argymhellion y dylid eu bwrw ymlaen, eu gweithrediad posib, ac unrhyw weithredu'n raddol dros gyfnod o amser, wrth anelu at adeiladu system eco gwybodaeth sydd yn cydbwysu anghenion a thensiynau ar draws y system ysgol.

Tabl 9.1: Crynodeb o'r holl argymhellion

Egwyddorion cyffredinol
<p>1. Mathau o ddangosyddion</p> <p>Dylai Llywodraeth Cymru geisio osgoi defnyddio dangosyddion perfformiad ysgolion unigol sy'n gosod ysgolion mewn trefn neu'n awgrymu dyfarniadau gwerth. Yn gyffredinol, dylai Llywodraeth Cymru fod yn ofalus wrth ddyfeisio a chyhoeddi unrhyw ddangosyddion sy'n crynhoi gwybodaeth gymhleth, a'u cyd-ddylunio â'r rhanddeiliad perthnasol y mae ei ddata'n cael eu crynhoi.</p>
<p>2. Dull o rannu data ar lefel ysgolion</p> <p>Dylai Llywodraeth Cymru barhau i hybu'r diwylliant o ddefnyddio data ar gyfer hunan-werthuso a gwella drwy ymatal rhag cyhoeddi dangosyddion ar lefel ysgolion. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhannu'r data a'r dangosyddion ar lefel ysgolion y mae'n eu casglu a'u prosesu ag ysgolion priodol yn unig (e.e. canlyniadau cymwysterau CA4), ac yn y tymor agos, dylai fod gan ysgolion ddisgresiwn dros rannu'r wybodaeth hon â sefydliadau haen ganol a chymunedau ysgolion.</p>
<p>3. Defnyddio samplu i ateb cwestiynau polisi</p> <p>Dylai Llywodraeth Cymru anelu at ddefnyddio samplu wrth geisio ateb cwestiynau hunanarfarnu ynghylch polisi er mwyn lleihau'r baich ar ysgolion o ran casglu data ychwanegol. Dylai anelu at ddosbarthu'r baich o gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u samplu mor gyfartal â phosibl ymhlith ysgolion a sicrhau bod yr holl offer ymchwil a ddefnyddir ar gael at ddefnydd dewisol ysgolion eraill.</p>
<p>4. Tryloywder a chyfathrebu â'r cyhoedd</p> <p>Dylai holl randdeiliaid y system ailymrwymo i'r egwyddor o dryloywder gyda'r cyhoedd, ond yn enwedig Llywodraeth Cymru yn y tymor hir ac ysgolion. Yn y tymor byr, dylai fod gan ysgolion beth disgresiwn dros cwrdd a ffurf yr wybodaeth a rennir gyda chymunedau ysgol (e.e. drwy FyYsgolLeol) yn unol ag egwyddor cyffredinol 2 uchod.</p>
Newidiadau penodol
<p>5. Deall sgiliau allweddol dysgwyr</p> <p>Dylai Llywodraeth Cymru arwain y gwaith o greu asesiadau dysgwyr i gasglu ystod ehangach o sgiliau na rhifedd a llythrennedd ar gyfer dysgwyr cyn CA4. Gellid cynnal asesiadau ar sail samplu yn unol ag argymhelliad cyffredinol 2, gyda'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn derbyn eu canlyniadau eu hunain at ddibenion hunan-werthuso. Dylid gwneud ymchwil pellach i benderfynu pa sgiliau i'w hasesu a sut.</p>

6. Cefnogi dulliau cyson o sicrhau cynnydd dysgwyr

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried comisiynu ymchwil pellach i ddeall y ffordd orau o gefnogi dulliau cyson o sicrhau cynnydd dysgwyr ar draws ysgolion. Yr opsiwn a ffeirir yw fod yr haen ganol yn cynnig cymorth i ysgolion ddatblygu dulliau cyson o ddeall a meincnodi cynnydd – ac nid cyflwyniad mesurydd neu ddangosydd cyson.

7. Lles a llais y dysgwr

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddatblygu ei ddull o weithredu tuag at arolygon lles dysgwr a chwilota p'un a sut y gellid cynhyrchu data lles dysgwr yn flynyddol, ar lefelau sydd yn gynrychioladol ar lefel genedlaethol ac sy'n ddefnyddiol ar gyfer ysgolion. Gallai samplu hyn helpu i gyflawni hwn a dylid ei ystyried. Dylai Llywodraeth Cymru annog cyfranogiad a datblygu ymwybyddiaeth o arolygon sydd yn bodoli eisoes a gafodd eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Dylai hefyd greu canllawiau i gefnogi ysgolion i weithredu Arolwg Llais y Dysgwr blynyddol opsiynol ac annog ei ddefnydd, i ategu'r darlun cenedlaethol â themâu sy'n berthnasol yn lleol.

8. Lles staff

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno system ar gyfer casglu data cyson ar lefel genedlaethol ynglŷn â'r diwygiadau ar les staff, a allai fod yn fodiwl newydd o fewn Cyfrifiad Blynyddol Gweithlu'r Ysgol neu arolwg lles staff ar wahân.

9. Cyd-destunoli dangosyddion ysgol a'r gallu i archwilio effeithiau tegwch

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru i ddarparu gwybodaeth gyd-destunol fwy manwl am ysgolion unigol a chynnwys hyn mewn unrhyw adroddiadau a rennir ag ysgolion ac ar FyYsgolLeol. Dylai hefyd ystyried casglu nodweddion ychwanego ar lefel dysgwr yn y CYBLD i alluogi dadansoddiad mwy gronynnog o effeithiau tegwch yn y cwricwlwm. Dylai'r argymhelliad hwn lywio adolygiad presennol Llywodraeth presennol Cymru o'r ffordd orau o ddeall amddifadedd ar lefel ysgol.

10. Mwy o dryloywder gyda chymunedau ysgolion

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal neu gomisiynu adolygiad a arweinir gan anghenion o'r system FyYsgolLeol fel bod ystod ehangach o wybodaeth ar lefel ysgol ar gael i gymunedau ysgolion yn y tymor hir, yn unol ag argymhellion cyffredinol 2 a 4, ac argymhelliad 12. Dylid ystyried cynnwys ymarferoldeb i ysgolion lanlwytho eu gwybodaeth eu hunain.

Data canlyniadau cymwysterau Cyfnod Allweddol 4

11. Adolygu dangosyddion CA4 a rhannu data

Dylai Llywodraeth Cymru anelu at greu basged o ddangosyddion defnyddiol i ysgolion ddeall canlyniadau eu cymwysterau CA4 mewn ffordd gyflawn, gyd-destunol, at ddibenion hunan-werthuso. Mae'r dull Ôl-16 (h.y. mesurau cyson) yn ganllaw defnyddiol. Gallai dangosyddion gynnwys dangosydd(ion) i grynhoi canlyniadau cymwysterau, dangosydd(ion) cyrchfannau ac ystadegau cryno ar lefel cymwysterau/pynciau. Dylai adroddiadau a ddarperir i ysgolion gael eu cynllunio gyda nhw a chynnwys gwybodaeth gyd-destunol fanylach a chymariaethau sydd fwyaf gwerthfawr yn eu barn nhw at ddibenion hunan-werthuso a dysgu.

Parhau i ddatblygu'r ecosystem

12. Map ffordd ar gyfer adeiladu diwylliant o hunan-werthuso a gwella

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno unrhyw newidiadau i'r ecosystem data a gwybodaeth sy'n deillio o'r adroddiad hwn (neu fel arall) yn raddol. Yn wir, gallai o bosibl ystyried oedi unrhyw newidiadau (gan gynnwys cyhoeddi canllawiau newydd ynghylch y defnydd o ddata a gwybodaeth am gyfnod) ac yn lle hynny ganolbwyntio ar ddylanwadu ar

ddiwylliant ehangach y system drwy atgyfnerthu'r canllawiau gwella Ysgolion presennol i sicrhau eu bod yn treiddio i bob lefel.

13. Dull o adolygu a datblygu'r ecosystem yn barhaus

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad blynyddol byr o'r ecosystem data a gwybodaeth i nodi ac ymateb i unrhyw faterion neu fylchau penodol a allai ddod i'r amlwg, yn ogystal â deall sut mae'r diwylliant sy'n ymwneud â defnyddio data a gwybodaeth yn datblygu.

Argymhellion manwl

- 9.13 Mae'r adran hon yn disgrifio argymhellion yn fanylach. Fel a nodir uchod, mae rhai yn argymhell symudiadau sylweddol ac yn cynnig rhai egwyddorion cyffredinol uchelgeisiol, lle bydd eraill yn cynnig newidiadau canolog mewn meysydd penodol. Rydym yn ymwybodol bydd yr argymhellion hyn, yn debygol o fod yn fentrau mawrion i'w datblygu a'u gweinyddu – a dylid ystyried pob un yn ofalus, gyda'r capasiti i ysgolion a phartneriaid eraill reoli'r newidiadau graddfa fawr hyn yn ystyriaeth allweddol.
- 9.14 Mae'n werth nodi yma eto y bydd gwneud defnydd effeithiol o ddata a gwybodaeth mewn system mor gymhleth ag addysg yng Nghymru bob amser yn ymarfer i gydbwysu anghenion a swyddogaethau defnyddwyr a allai fod yn cystadlu, er mwyn hyrwyddo gweledigaeth sylfaenol. Yn yr achos hwn, dyma ddau nod gweithredu'r CiG yn llwyddiannus a rhoi'r diwylliant a'r arferion ar waith o ran defnyddio data a gwybodaeth a nodir yn y [Canllawiau Gwella Ysgolion](#). Mae'n bosibl felly na chaiff anghenion unigol rhai grwpiau rhanddeiliaid eu diwallu'n llawn gan yr argymhellion isod oherwydd eu bod wedi'u cydbwysu yn ôl anghenion rhanddeiliaid eraill.
- 9.15 Nid yw'r argymhellion ychwaith yn ymdrin â phob agwedd ar yr ecosystem data a gwybodaeth. Mae'r argymhellion penodol yn arbennig yn ymateb i'r anghenion hynny a ddaeth i'r amlwg o'n hymgysylltu amrywiol fel blaenoriaethau ar adeg ysgrifennu. Nid yw hyn yn golygu na ddylai Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill adolygu a diwygio ei dulliau o ddefnyddio data a gwybodaeth mewn meysydd heblaw'r rhai a nodir isod. Yn wir, bydd y data a'r ecosystem bob amser yn esblygu wrth i'r CiG ddod yn fwy sefydledig ac wrth i'r system weithio tuag at y weledigaeth a nodir yn y Canllawiau Gwella Ysgolion. Yn wir, mae argymhelliad 13 yn awgrymu proses ar gyfer gwneud hyn yn barhaus. Yn yr un modd, mae'r argymhellion ar gyfer newidiadau i ddulliau presennol yn unig, felly nid ydynt yn atal y defnydd parhaus o ddata a gwybodaeth ar gyfer rhannau eraill o'r ecosystem nad ydynt wedi'u crybwyll yn benodol.

9.16 Yn olaf, er bod yr egwyddorion cyffredinol yn berthnasol i'r ecosystem data a gwybodaeth yn ei chyfanrwydd (trafodaeth bellach isod), gellir cymryd yr argymhellion penodol ar wahân i ryw raddau. Fel enghraifft ddamcaniaethol, gellir ystyried argymhelliad 7 ynghylch dulliau cyson o sicrhau cynnydd dysgwyr ac, os caiff ei dderbyn, gellir ei roi ar waith yn annibynnol ar argymhelliad 8 sy'n ymwneud â lles dysgwyr. Daw cafeat cyffredinol i hyn o ddau o'r meini prawf a nodir uchod, a ddefnyddiwyd i helpu i ddatblygu'r argymhellion, sef sicrhau bod yr ecosystem data a gwybodaeth yn adlewyrchu ehangder y CiG ac yn cipio dysgu mewn ffordd gyfannol. Felly, er enghraifft, os yw Llywodraeth Cymru yn teimlo nad yw'r dull gorau o feithrin dealltwriaeth o les dysgwyr drwy gyfrwng arolwg lles newydd, dylai ystyried o hyd sut i sicrhau bod lles yn cael ei flaenoriaethu'n ddigonol o fewn y system ysgolion drwy ryw ddulliau eraill.

Egwyddorion cyffredinol

9.17 Mae'r egwyddorion hyn yn allosodiadau o'r dulliau o ddefnyddio data a gwybodaeth a awgrymir yn yr argymhellion penodol isod. Maent wedi'u cynllunio i gwmpasu pob amgylchiad ond fe'u bwriedir hefyd fel canllawiau defnyddiol yn hytrach na rheolau llym i'w dilyn yn ddi-gwestiwn. O ystyried ehangder a chymhlethdod y system ysgolion, gallai sefyllfaoedd godi lle mae'n gwneud mwy o synnwyr i wyro oddi wrthynt er mwyn cyflawni'n well y nodau deul o weithredu'r CiG a chyflawni'r weledigaeth a nodir yn y Canllawiau Gwella Ysgolion. Yn yr achosion hyn, dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid perthnasol allu bodloni eu hunain bod sail resymegol gref dros wneud hynny.

1. Mathau o Ddangosyddion

Problem	<ul style="list-style-type: none"> • Fe wnaeth y dull blaenorol o rannu perfformiad ar lefel ysgol a dangosyddion eraill (h.y. ei rannu â grwpiau rhanddeiliaid allweddol a sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd) a oedd yn sgorio ysgolion neu'n llunio barn grynodol (e.e. codau lliw, tablau cynghrair, gosod teuluoedd o ysgolion yn chwarteli) greu sawl canlyniad negyddol anfwriadol, megis creu cystadlu yn hytrach na chydweithio rhwng ysgolion, a phriodoli gormod o bwysigrwydd i ddangosyddion unigol, rhannol
Argymhelliad	<ul style="list-style-type: none"> • Dylai Llywodraeth Cymru osgoi cyhoeddi dangosyddion perfformiad ysgolion unigol sy'n cynnwys sgorau (e.e. cwintel ysgol ar gyfer cymwysterau CA4) a dyfarniadau crynodol (e.e. Coch/Aubr/Gwyrdd) gyda'i gilydd • Mae dangosyddion sy'n crynhoi gwybodaeth gymhleth wrth gwrs yn dal yn werthfawr ac yn angenrheidiol er mwyn i bob partner gyflawni eu swyddogaethau craidd, ond dylent fod yn fwy cyfyngedig. Dylai

	<p>Llywodraeth Cymru fod yn ofalus wrth eu creu a'u rhannu, yn enwedig ar gyfer data ar lefel ysgolion</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae adran 4 Canfyddiadau uchod yn disgrifio egwyddorion i'w cymhwyso wrth ddatblygu dangosyddion. Er enghraifft, cyflwyno ystod o ddangosyddion i ddisgrifio'r un agwedd ar berfformiad, osgoi dangosyddion sy'n awgrymu gormod o ystyr neu farn ynghylch gwerth, darparu cyd-destun perthnasol ochr yn ochr â dangosyddion, a phrofi dangosyddion drafft gyda phartneriaid i ddeall canlyniadau a risgiau posibl cyn gweithredu
Trafodaeth: risgiau, opsiynau, ystyriaethau eraill	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd penderfynu pa fathau o ddangosyddion i'w defnyddio i grynhoi agwedd benodol ar ddysgu, boed ar lefel poblogaeth, ysgol, neu ddysgwyr, bob amser yn cynnwys rhyw elfen o farn. Nid yw'r farn hon yn bodoli ar wahân i ddiwylliant, agweddau ac ymddygiad y rhanddeiliaid a fydd yn defnyddio'r wybodaeth • O ystyried canfyddiadau ein hymchwil ynghylch canlyniadau negyddol dulliau blaenorol o ddefnyddio dangosyddion a oedd yn cynnwys sgorio barnau crynodol am berfformiad ysgolion, a nerfusrwydd presennol ynghylch a yw'n bosibl osgoi'r rhain yn y dyfodol, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru yn gyffredinol yn y tymor agos ddefnyddio dull sgwrsiol wrth benderfynu ar y mathau o ddangosyddion y mae'n eu defnyddio neu eu hargymhell ac ymgynghori ag ysgolion ar ddyluniad • Wrth i'r gwaith o weithredu'r CiG fynd rhagddo ac wrth i bartneriaid ddod yn fwy cyfarwydd â'r canllawiau gwella Ysgolion, gall Llywodraeth Cymru ddod yn llai parod i fod yn ofnus o risg.

2. Egwyddorion ar gyfer rhannu a defnyddio data ysgolion

Problem	<ul style="list-style-type: none"> • Er bod canllawiau gwella Ysgolion diweddar yn nodi gweledigaeth a fframwaith clir ar gyfer sut y dylai rhanddeiliaid ar draws y system ysgolion ddefnyddio data a gwybodaeth yn bennaf oll ar gyfer hunan-werthuso a gwella ("Dylai'r rhan fwyaf o egni a ffocws y system fod ar gyflawni gwelliannau mewn ysgolion"), amlygodd ein hymchwil, ac wrth brofi argymhellion drafft yn benodol, nad yw hyn eto wedi treiddio drwodd i newidiadau mewn ymddygiad ac arferion ar bob lefel mewn sefydliadau, gan gynnwys mewn ysgolion a'r haen ganol • Mae gan ysgolion bryderon, yn y tymor agos o leiaf, y bydd cyhoeddi data ar lefel ysgolion a'u rhannu'n uniongyrchol â sefydliadau haen ganol yn parhau i wahodd craffu ac atebolrwydd yn hytrach na gwella hunan-werthuso a gwella
Argymhelliad	<ul style="list-style-type: none"> • Yn gyffredinol, ni ddylai Llywodraeth Cymru ond dadansoddi a chyhoeddi data ar lefel genedlaethol neu lefelau eraill lle nad yw ysgolion unigol yn adnabyddadwy (e.e. rhanbarthol, yn ôl is-boblogaeth benodol). • Fodd bynnag, mae data'r ysgolion eu hunain yn dal yn werthfawr iddynt at ddibenion hunan-werthuso a gwella. Dylai Llywodraeth Cymru felly barhau i rannu adroddiadau ar lefel unigol gyda nhw (e.e. drwy AWCDs), a all gynnwys dangosyddion mwy cyfyngedig y mae ysgolion yn eu hystyried yn werthfawr.

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae rhai mathau cyfyngedig o gymariaethau ar lefel ysgolion hefyd yn werthfawr i ysgolion, cyn belled â bod y rhain ar gael iddynt hwy yn unig ac nad ydynt yn cael eu defnyddio fel dangosyddion cymharol at ddibenion atebolrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys cymhariaeth â chyfartaledd cenedlaethol, a chymariaethau â grwpiau o ysgolion sy'n gymdogion ystadegol o ran poblogaeth a demograffeg (h.y. teuluoedd o ysgolion) • Gallai ysgolion rannu'r adroddiadau hyn ag ysgolion eraill yn eu rhanbarth, gyda sefydliadau haen ganol fel awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, a chyda chymunedau ysgolion yn ôl eu disgrisiwn eu hunain ac at ddibenion gwella
<p>Trafodaeth: risgiau, opsiynau, ystyriaethau eraill</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r argymhelliad uchod yn awgrymu y dylai ysgolion gael disgrisiwn ynghylch pa ddata ar lefel ysgolion sy'n cael eu rhannu â sefydliadau haen ganol a chymunedau ysgolion lleol. Dylid ystyried hyn fel ateb tymor agos tra bod y system yn dod i arfer â'r diwylliant newydd o ddefnyddio gwybodaeth yn bennaf oll ar gyfer hunan-werthuso a gwella. Mewn blynyddoedd diweddarach, disgwyliwn y gallai data ar lefel ysgolion gael eu rhannu â phartneriaid fel mater o drefn • Wrth brofi fersiynau drafft o'r argymhelliad hwn, cododd Llywodraeth Cymru yn benodol bryderon y gallai ysgolion, mewn gwirionedd, wynebu pwysau o hyd i rannu gwybodaeth â sefydliadau haen ganol. Gallai canlyniadau gwrthnysig godi, er enghraifft, yr ysgolion hynny sy'n dewis peidio â rhannu eu data â sefydliadau haen ganol yn denu craffu ychwanegol fel mater o drefn. • Er mwyn lliniaru'r risg hon, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfarwyddedau clir i sefydliadau haen ganol na ddylai'r arfer hwn ddigwydd. Fodd bynnag, os nad yw partneriaid system yn hyderus o hyd y bydd hyn yn lliniaru'r risg, ni ddylai fod yn ofynnol i ysgolion rannu eu data o gwbl gyda sefydliadau haen ganol. Nid yw hyn yn ddymunol wrth gwrs, a chaiff ei drafod ymhellach yn argymhelliad 13 isod • Mae risg hefyd na fyddai sefydliadau haen ganol yn gallu cyflawni eu swyddogaethau atebolrwydd a hunan-werthuso eu hunain heb fynediad uniongyrchol at ddata lefel ysgol. Awgrymwn felly fod Estyn yn parhau i dderbyn data lefel ysgol gan Lywodraeth Cymru i gynnal arolygiadau (yn gyson â'u fframwaith Arolygu newydd ac arfer blaenorol). Dywedodd consortia rhanbarthol, fodd bynnag, na fyddai eu gallu i gefnogi gwella ysgolion yn cael ei lesteirio drwy beidio â chael mynediad uniongyrchol at ddata ar lefel ysgolion. • Er mwyn sicrhau bod ysgolion yn dal i gymryd rhan mewn gweithgareddau hunan-werthuso cydweithredol, gallai fod yn ofynnol iddynt rannu gwybodaeth ag un arall ar gyfer dysgu a chymorth cymheiriaid.

Defnyddio samplu i ateb cwestiynau polisi

Problem	<ul style="list-style-type: none"> • mae gan Lywodraeth Cymru nifer o gwestiynau ynghylch hunan-werthuso polisi y mae angen iddynt eu harchwilio am y cwricwlwm newydd, y mae angen i ddata safonedig a gesglir gan bob ysgol eu hateb yn llawn. Fodd bynnag, byddai casglu data safonedig newydd gan ysgolion i ateb y rhain yn cyflwyno beichiau newydd sylweddol ac anghynnaladwy o bosibl ar ysgolion os bydd ond yn arwain at wybodaeth sy'n werthfawr i Lywodraeth Cymru
Argymhelliad	<ul style="list-style-type: none"> • Ar gyfer agweddau ar hunan-werthuso a gwella ar lefel genedlaethol y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried yn flaenoriaethau uchel, ac y mae angen gwybodaeth ychwanegol arnynt gan ysgolion ar eu cyfer, dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio samplu yn gyffredinol. • Byddai data o asesiadau wedi'u samplu / arolygon yn cael eu dadansoddi a'u hadrodd naill ai ar lefel genedlaethol neu lefelau eraill lle nad yw ysgolion unigol yn adnabyddadwy (e.e. rhanbarthol, yn ôl is-boblogaeth) • Fodd bynnag, byddai ysgolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch samplu yn derbyn adroddiad gyda data gan eu hysgol eu hunain at ddibenion hunan-werthuso a gwella (yn unol ag argymhelliad 2). • Dylai Llywodraeth Cymru gadw cofrestr o'r holl weithgarwch samplu i sicrhau bod dulliau gweithredu'n gyson ac yn gynrychioliadol, a dylai anelu at ddsobarthu beichiau mor gyfartal â phosibl ymhlith ysgolion. • Dylai canllawiau a deunyddiau ar gyfer unrhyw asesiadau / arolygon a gynhelir ar sail samplu fod ar gael i bob ysgol eu cynnal ar sail ddewisol i gefnogi eu hunan-werthuso a gwella parhaus
Trafodaeth: risgiau, opsiynau, ystyriaethau eraill	<ul style="list-style-type: none"> • Ar gyfer agweddau ar y cwricwlwm sy'n flaenoriaeth uchel i Lywodraeth Cymru ac ysgolion eu deall (e.e. lles, sgiliau dysgwyr), gallai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull 'hybrid' o samplu, lle mae pob ysgol yn cymryd rhan mewn asesiad wedi'i samplu / gweithgaredd arolygu ar gylch dwy i dair blynedd. Yn y modd hwn, mae beichiau newydd yn gyfyngedig, ond mae pob ysgol yn dal i gymryd rhan mewn gweithgarwch asesu / arolygu yn lled-reolaidd a derbyn gwybodaeth fanwl at eu dibenion hunan-werthuso eu hunain o ganlyniad • Mae'n hanfodol bod unrhyw asesiad wedi'i samplu / gweithgareddau arolygu yn darparu data sy'n werthfawr i'r ysgolion eu hunain. Fel arall, mae risg efallai na chaiff asesiadau wedi'u samplu / arolygon eu blaenoriaethu na'u cymryd o ddifrif gan ysgolion, gan arwain at allbynnau o ansawdd gwael

4. Tryloywder a chyfathrebu â'r cyhoedd

Problem	<ul style="list-style-type: none"> • Tryloywder yw un o swyddogaethau craidd yr ecosystem data a gwybodaeth. Byddai cymunedau ysgolion (gan gynnwys rhieni a gofalwyr) yn arbennig yn gwerthfawrogi gwell dealltwriaeth o amgylchedd eu hysgol leol, dysgu ac effeithiolrwydd
Argymhelliad	<ul style="list-style-type: none"> • Dylai Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill ailymrwymo i dryloywder ar lefel genedlaethol a lleol o dan yr ecosystem data a gwybodaeth newydd. Yr egwyddor gyffredinol yw, os yw data a gwybodaeth yn cael eu casglu gan ysgolion neu rannau eraill o'r system mewn ffordd strwythuredig, y dylid cyhoeddi'r canfyddiadau (yn unol ag argymhelliad 2). • I Lywodraeth Cymru, mae hyn yn arbennig o berthnasol i weithgareddau ymchwil neu asesu mawr sy'n ceisio deall rhyw agwedd ar y system ysgolion gyfan (e.e. arolwg ysgol a gasglwyd ar sail samplu). Dylid nodi nad yw hyn yn wyriad mawr oddi wrth yr arfer presennol a'i fod yn fwy perthnasol i weithgareddau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol fel rhan o amcan galluogi 4. • Dylai ysgolion ymrwymo hefyd i egwyddor tebyg ar lefel gymuned ysgol leol yn y tymor hir - gyda llwyfan FyYsgolLeol yn un addas i'w gefnogi. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod fod gan ysgolion bryderon, yn y tymor agos o leiaf, y bydd cyhoeddi data ar lefel ysgolion yn parhau i wahodd craffu ac atebolrwydd yn hytrach na gwella hunan-werthuso a gwella. Gan hynny, fel yn argymhelliad 2, awgrymwn y dylai fod gan ysgolion ddisgresiwn dros pa ddata lefel ysgol y byddan nhw'n ei gyhoeddi yn y tymor agos, ond yn y blynyddoedd hwyrach, disgwyliwn y gellid rhannu data lefel ysgol fel mater o arfer gyda phartneriaid, Trafodir newidiadau i'r platfform FyYsgolLeol isod (gweler argymhelliad 11) • Mae polisiau tryloywder presennol Estyn yn cyd-fynd â chynnwys ac ethos y cwricwlwm newydd, a dylent barhau fel y maent ar hyn o bryd (e.e. fframwaith diwygiedig ar gyfer arolygu ysgolion, ystyried ystod eang o ddangosyddion, dileu barnau crynodol)
Trafodaeth: risgiau, opsiynau, ystyriaethau eraill	<ul style="list-style-type: none"> • Dylid nodi y gall yr egwyddor hon o dryloywder fod yn groes i nod Llywodraeth Cymru i ysgogi mwy o hunan-werthuso a gwella, yn enwedig ar lefel cymunedau ysgolion. Er enghraifft, gallai cyhoeddi gwybodaeth ychwanegol am amgylchedd yr ysgol a pherfformiad ar FyYsgolLeol arwain at graffu ychwanegol, naill ai'n ysgogi ymddygiadau gwrthnysig neu'n perswadio ysgolion i beidio â rhannu gwybodaeth am feysydd sydd angen eu gwella. • Gall sicrhau mwy o dryloywder ar gyfer cymunedau ysgolion felly fod yn broses raddol, gyda llai o wybodaeth ychwanegol yn cael ei rhyddhau gan ysgolion yn y tymor agos tra bod rhieni a chymunedau ysgol yn dod yn fwy cyfarwydd â ffocws ehangach y CiG. Fodd bynnag, dylai fod yn nod hirdymor • Yn ogystal, er mwyn lliniaru'r risg hon, dylai gwybodaeth a rennir bob amser gael ei rhoi yn ei chyd-destun, ac ni ddylai dangosyddion unigol ymddangos yn bwysicach nag eraill i achub y blaen ar ymddygiadau gwrthnysig drwy gefnogi'r dehongliad dymunol o wybodaeth.

Newidiadau penodol i'r defnydd o ddata a gwybodaeth

5. Deall sgiliau allweddol dysgwyr

Problem	<ul style="list-style-type: none"> • Ar gyfer cyrhaeddiad dysgwyr, rhoddodd yr ecosystem data a gwybodaeth flaenorol ffocws anghymesur ar ddeilliannau CA4. Mae'r cwricwlwm newydd yn blaenoriaethu ystod ehangach o wybodaeth a dealltwriaeth, gan gynnwys ystod eang o sgiliau a galluoedd pwysig • Ar hyn o bryd, gallu cyfyngedig sydd gan ysgolion a rhanddeiliaid eraill i ddeall datblygiad y sgiliau hyn gan ddysgwyr mewn ffordd gyson, y tu hwnt i'w gweithgareddau hunan-werthuso eu hunain.
Argymhelliad	<ul style="list-style-type: none"> • dylai Llywodraeth Cymru arwain y gwaith o greu asesiadau dysgwyr i gipio set ehangach o sgiliau nag asesiadau rhifedd a llythrennedd presennol cyn arholiadau CA4 • Gellid cynnal asesiadau ar draws sampl gwahanol o ysgolion bob blwyddyn, gyda Llywodraeth Cymru yn dadansoddi ac yn cyhoeddi canfyddiadau ar lefel genedlaethol. Byddai gan ysgolion sy'n cymryd rhan hefyd adroddiadau mynediad gyda'u data eu hunain at ddibenion hunan-werthuso a gwella • Os yn bosibl, dylid defnyddio system debyg neu'r un system i weinyddu asesiadau â'r hyn a ddefnyddir ar gyfer yr asesiadau llythrennedd a rhifedd cyfredol. Mae'r system hon yn gymharol syml i ysgolion o safbwynt defnyddioldeb a thechnoleg, ac yn galluogi ysgolion i weld eu data/canlyniadau eu hunain yn ogystal â chasglu canlyniadau ar lefel genedlaethol • Byddai gan bob ysgol fynediad at unrhyw offer asesu ar gyfer gweithgareddau hunan-werthuso dewisol (h.y. blynyddoedd nad ydynt wedi'u cynnwys mewn gwaith samplu) a chanllawiau ar gyfer dehongli canfyddiadau a'u rhannu â chymunedau ysgolion, a grëwyd gan Lywodraeth Cymru • Pe bai'r argymhelliad hwn yn cael ei dderbyn, rydym yn cynnig bod Llywodraeth Cymru yn cynnal ymchwil bellach fanylach i bennu'r sgiliau y dylid eu hasesu a'r dull gweithredu – gan weithio gydag ysgolion i ddatblygu asesiadau sy'n werthfawr fel rhan o addysgu a dysgu. Er mwyn lleihau beichiau ychwanegol ar ysgolion, gellid datblygu un asesiad sy'n cwmpasu'r ystod o sgiliau a ystyrir yn bwysig yn y CiG
Trafodaeth: risgiau, opsiynau, ystyriaethau eraill	<ul style="list-style-type: none"> • Mae ystod eang o sgiliau a galluoedd wedi'u blaenoriaethu yn y cwricwlwm newydd nad ydynt yn cael eu cynnwys mewn unrhyw ffordd gyson, safonedig ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol (h.y. rhifedd, llythrennedd a sgiliau digidol), sgiliau sy'n rhan annatod o'r pedwar diben (h.y. creadigrwydd ac arloesi, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu), yn ogystal â sgiliau eraill a grybwyllir drwy gydol canllawiau'r cwricwlwm ac mewn fframweithiau gwella ac atebolrwydd sefydliadau haen ganol eu hunain (e.e. gwytnwch). Mae rhai ysgolion hefyd ar hyn o bryd yn arbrofi ag asesiadau o allu gwybyddol. Amlinellir y rhain yn adran 6 uchod • Y brif her gyda'r argymhelliad hwn yw dod o hyd i ddull asesu priodol nad yw'n creu beichiau newydd sylweddol i ysgolion, ond a all roi mewnwelediadau digon gwerthfawr a chadarn iddynt hwy a

Llywodraeth Cymru ynghylch datblygu sgiliau dysgwyr. Gallai cynllunio'r fethodoleg samplu yn ofalus helpu i leihau'r baich hwn i ryw raddau

- Mae'r [Astudiaeth Gwmpasu a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer gwerthuso'r diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru](#) hefyd yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal astudiaeth fonitro genedlaethol sy'n canolbwyntio ar gyrhaeddiad a chynnydd, a fyddai'n cynnwys sgiliau trawsgwricwlaidd o'r mathau a nodir uchod ond gan gynnwys ffactorau dysgwyr a cyd-destunol pellach (e.e. agweddau, arferion athrawon) a defnyddio ystod o dulliau asesu (e.e. 1:1, asesiad grŵp, asesiadau ar-lein). Byddai'r math hwn o astudiaeth yn cael ei gefnogi gan Gyllid Cymdeithasol. Fodd bynnag, dylid nodi mai diben yr astudiaeth hon yw rhoi mewnwleidiad i Lywodraeth Cymru ar gynydd y cwricwlwm newydd, nid darparu gwybodaeth barhaus i'r ysgolion eu hunain at ddibenion dysgu, a ddaeth i'r amlwg o'n hymchwil fel angen yr un mor gryf. Dyma pam rydym hefyd yn argymhell dull mwy rheolaidd, symlach a chyson o asesu datblygiad sgiliau dysgwyr
- Bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ac Ysgolion hefyd ystyried y baich materol a roddir ar ysgolion yn sgil cydlynu asesiadau ar-lein neu gasglu data (h.y. arolygon). Am y rheswm hwn, gall asesiadau sgiliau fod yn fwyaf gwerthfawr ym mlynnyddoedd cynnar y diwygiadau wrth i'r system symud oddi wrth y ffocws ar ddangosyddion CA4 – dros amser, gallai amlder asesu sgiliau leihau
- Os yw ysgolion (a rhanddeiliaid eraill) yn teimlo y byddai asesiad(au) sgiliau ychwanegol fel yr amlinellwyd uchod yn creu gormod o faich ychwanegol ac na fyddai'n cael ei gyfiawnhau gan y wybodaeth y byddent yn ei chynhyrchu, gallai Llywodraeth Cymru yn lle hynny ddatblygu pecyn o offer asesu a dulliau a darparu'r rhain i ysgolion i'w defnyddio'n ddewisol ar gyfer gweithgareddau hunan-werthuso hunangyfeiriedig. Mae [cronfa ddata SPECTRUM](#) y Sefydliad Addysg Gynnar yn catalogio ystod eang o offer ymchwil sydd ar gael ar hyn o bryd

6. Cefnogi dulliau cyson o sicrhau cynnydd dysgwyr

Problem	<ul style="list-style-type: none"> • Mae ysgolion yn pryderu nad oes ganddynt ddealltwriaeth gyson o agweddau ar y cwricwlwm newydd sy'n ymwneud â chynnydd • Er y bydd ysgolion yn datblygu ac yn addysgu eu cwricwla eu hunain o dan y cwricwlwm newydd, bydd y trefniadau cymwysterau CA4 presennol yn parhau yn eu lle am y pedair blynedd nesaf. Mae perygl felly, heb rywfaint o ddealltwriaeth fwy cyson o gynnydd, y gallai dysgwyr yn ddjarwybod danberfformio yn CA4 o gymharu â'u cyfoedion mewn ysgolion eraill
Argymhelliad	<ul style="list-style-type: none"> • Rydym yn cynnig bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil pellach i benderfynu ar y ffordd orau o gefnogi dulliau cyson o sicrhau cynnydd dysgwyr • Un opsiwn yw datblygu fframwaith asesu safonol sy'n gysylltiedig â chynnydd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei argymhell. Rydym ni a bron pob un o'r rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw ar y pwnc hwn

	<p>yn teimlo y byddai hyn yn groes i ethos cynnydd yn y diwygiadau, ac yn ymarferol byddai'n heriol iawn ac yn cymryd llawer o amser i'w greu ac yna ei weinyddu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr opsiwn a ffeirir gennym fyddai rhywfaint o newid(iadau) ymarfer o fewn ysgolion a/neu sefydliadau haen ganol i gefnogi ysgolion i ddatblygu dulliau mwy cyson o ddeall a meincnodi cynnydd dysgwyr. Daeth y dulliau posibl canlynol i'r amlwg wrth brofi fersiwn ddrafft o'r argymhelliad hwn: <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r haen ganol yn gweithio'n agosach gydag ysgolion ar y pwnc cynnydd, gan gynnal o bosibl adolygiadau dysgu cyfnodol o ddulliau ysgolion unigol i lywio eu dulliau cymorth eu hunain a'u rhannu ag ysgolion eraill yn y rhanbarth. • Dull a arweinir gan gymheiriaid, lle mae ysgolion eu hunain yn cynnal ymweliadau cyfnodol ag ysgolion eraill i weld eu harferion a'u hymagweddau at gynnydd, a rhannu eu dysgu ag eraill
<p>Trafodaeth: risgiau, opsiynau, ystyriaethau eraill</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Fe wnaeth y Ffindir, a gafodd ddiwygiadau addysg tebyg i'r rhai yng Nghymru rai blynyddoedd yn ôl (h.y. cael gwared ar asesiadau meintiol o ddysgwyr cyn 16 oed ochr yn ochr â ffocws o'r newydd ar gynnydd) brofi her debyg. Galwodd ysgolion a rhanddeiliaid eraill yn y system felly am ryw ddull amgen o sicrhau bod dysgwyr mewn gwahanol ysgolion yn gwneud cynnydd ar yr un cyflymder yn fras. • Ymatebodd y llywodraeth drwy roi'r dasg i'w sefydliad cyfatebol i Estyn o gynnal asesiadau byr, rheolaidd o ddealltwriaeth ac addysgu ysgolion o agweddau ar y cwricwlwm sy'n ymwneud â chynnydd. Cyhoeddwyd adroddiadau fel y gallai ysgolion eraill gymharu a chyferbynnu eu dulliau eu hunain, a rhoi hyder i gymunedau ysgolion • Sylwch nad ydym yn argymhell yr un dull yn union, gan fod risg yng Nghymru pe bai Estyn yn cynnal adolygiadau tebyg y gallai ddod yn ymarfer atebolrwydd yn hytrach nag ar gyfer hunan-werthuso a gwella. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod angen rhyw fath o ddull ansoddol tebyg i gefnogi ysgolion i ddysgu oddi wrth ei gilydd a meincnodi cynnydd eu dysgwyr. • Dylid nodi, tra roedd yr adroddiad hwn yn cael ei ddrafftio, bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi dechrau cyhoeddi rhagor o ganllawiau i fynd i'r afael â'r mater hwn.¹⁶ Mae'n bosibl felly nad oes angen newidiadau ffurfiol pellach i ganllawiau ac arferion fel yr argymhellir yma – fodd bynnag, rydym yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r mater hwn yn agos dros y misoedd nesaf i weld a yw canllawiau diweddar yn ddigonol.

¹⁶ Er enghraifft, mae'r [Deunyddiau ategol ar gyfer y cwricwlwm, asesu a gwerthuso cynnydd dysgwyr yn cynnwys arweiniad penodol ar gyfer datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd](#). Mae [Cyfarwyddyd Gweinidogol](#) yn darparu canllawiau ychwanegol ar ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd o fewn ac ar draws ysgolion.

7. Lles a llais y dysgwyr

Problem	<ul style="list-style-type: none"> • Mae hybu lles dysgwyr yn rhan graidd o'r CiG. Er bod ysgolion ar hyn o bryd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys arsylwi ac arolygon, i ddeall lles eu dysgwyr, cyfyng yw gallu Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd o ran ei allu i gynnal dadansoddiad o les dysgwyr ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleoli lywio ei pholisi hunanwerthuso ei hun
Argymhelliad	<ul style="list-style-type: none"> • Dylai Llywodraeth Cymru gynnal gwaith pellach i ddeall dichonoldeb cynhyrchu data les o ysgolion uwchradd a chynradd yn flynyddol - tra'n sicrhau fod y data yn gynrychioladol ar lefel genedlaethol ac yn ddefnyddiol i ysgolion. Gallai samplu hyn helpu i gyflawni hwn a gellid ei ystyried. Gallai hyn fod o gymorth gan sicrhau fod holl ysgolion yn ystyried lles yn ogystal â rhoi darlun genedlaethol yn flynyddol i Lywodraeth Cymru, o set ehangach o ysgolion na'r rhai sydd ar hyn o bryd yn 'optio i fewn' i arolygon cyfredol. Byddai data'n cael eu dadansoddi a'u cyhoeddi ar lefel genedlaethol i gael mewnwleidiad i sut mae'r CiG yn cyfrannu at wella lles cyffredinol dysgwyr. Byddai ysgolion sy'n cymryd rhan hefyd yn cael adroddiad gyda'u canlyniadau eu hunain at ddibenion hunanwerthuso a gwella. Dydyn ni ddim yn cynnig fod Llywodraeth Cymru'n gorfodi pob ysgol i gwblhau arolygon lles yn flynyddol. • Dylai'r un offeryn arolygu fod ar gael i bob ysgol ei ddefnyddio ar sail ddewisol, er ein bod yn cynnig bod Llywodraeth Cymru yn annog ei ddefnydd. • Mae adolygu a gwella arolygon lles sydd ar gael ar hyn o bryd yn well na chyflwyno arolwg newydd o'r newydd (trafodir isod). Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi datblygu arolygon sydd yn bodoli eisoes ac annog eu defnyddio mewn ysgolion – hyd yn oed os penderfynir nad yw'n ddichonadwy i gael profi blynyddol wedi'i samplu. • Dylai Llywodraeth Cymru hefyd arwain y gwaith o greu Arolwg Llais y Dysgwr (LVS). Byddai'r LVS yn casglu barn dysgwyr am amgylchedd eu hysgol, y cymorth lles sydd ar gael iddynt, a'r heriau sy'n wynebu eu hysgol. Byddai hefyd yn rhoi cyfle i ddysgwyr godi materion eraill lle maent yn teimlo nad ydynt yn cael eu clywed. Byddai'r LVS yn helpu i ganolbwyntio cwricwla ar les dysgwyr, i ategu'r arolwg lles dysgwyr cenedlaethol • Byddai'r arolwg hwn yn arf dewisol i ysgolion ei ddefnyddio ar gyfer hunan-werthuso ac fel offeryn cyfathrebu â dysgwyr a chymuned ehangach yr ysgolion. Ni fyddai canlyniadau'r LVS yn cael eu casglu gan Lywodraeth Cymru i ddeall y darlun cenedlaethol, fel yn achos yr arolwg lles • Dylai Llywodraeth Cymru greu system a phroses ar gyfer gweinyddu'r arolwg LVS i leihau'r baich ar ysgolion unigol. Er enghraifft, gallai ddatblygu porthol/system hunanwasanaeth a chynnwys cyfuniad o gwestiynau gorfodol y byddai pob ysgol yn eu defnyddio, ynghyd â modiwlau thematig ag ystod o gwestiynau wedi'u cynllunio ymlaen llaw y gall ysgolion ddewis o'u plith ar bynciau sy'n debygol o fod yn berthnasol

	<ul style="list-style-type: none"> • Yn ogystal, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu canllawiau a chymorth ar sut y gall ysgolion ddehongli canlyniadau arolygon a'u hymgorffori mewn cynlluniau datblygu
<p>Trafodaeth: risgiau, opsiynau, ystyriaethau eraill</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae nifer o arolygon lles dysgwyr eisoes ar gael i'w defnyddio gan ysgolion. Mae rhai, fel yr SHRN – mae Llywodraeth Cymru yn rhan o gonsortiw m ymchwil SHRN ac yn gyllidwr ar y cyd – yn cael eu defnyddio'n eang eisoes. O fewn y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN), mae dros 200 o ysgolion yn aelodau, gan gynnwys yr holl ysgolion uwchradd a chanol a gynhelir yng Nghymru, ac mae'n cynnal arolwg bob dwy flynedd o iechyd a lles dysgwyr yn yr ysgolion uwchradd sy'n aelodau ohoni ac mae 90 y cant neu fwy yn cymryd rhan ynddi. • Felly, er mwyn osgoi dyblygu'r arolygon hyn a chyflwyno beichiau ychwanegol ar ysgolion, dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu'r SHRN. Mae hyn yn cynnwys ymgymryd â gwaith i gynyddu ymwybyddiaeth a chyfranogaeth ymhlith ysgolion uwchradd, timau polisi a rhanddeiliaid system ehangach. • Ymhellach, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnal gwaith i sicrhau fod ysgolion yn deall sut mae defnyddio data SHRN a sut mae'r data hwn yn gallu gweddu ag amcanion y Cwricwlwm i Gymru. Gellid goleuo'r gwaith hwn gydag ymchwil er mwyn deall safbwyntiau ysgolion ar ddata a'r hyn fydden nhw'n ei chael o werth i oleuo hunan-werthuso ac a allai gael ei gynnwys yn resymol yn yr arolwg – gyda'r cafeat nad yw rhai testunau efallai'n bosibl na'n foese gol i'w casglu fel rhan o'r arolwg. • Mae astudiaeth dichonoldeb yn cael ei gynnal ar hyn o bryd o fewn ysgolion cynradd ac rydym yn cynnig y dylid parhau gyda hwn a bod Llywodraeth Cymru'n parhau i gefnogi SHRN i ddatblygu'r rhwydwaith cynradd, pe bai'r astudiaeth dichonoldeb yn awgrymu byddai lledu'r arolwg ymhellach yn fuddiol. • Mewn llawer o ysgolion, fodd bynnag, byddai LVS yn faich newydd – er bod ein hymchwil wedi dangos bod rhai ysgolion ar hyn o bryd yn defnyddio rhyw ffurflen neu arolwg neu ddull arall o ddeall llais y dysgwr. Argymhellwn felly fod yr arolwg hwn yn ddewisol <p><i>Noder: Fe wnaeth yr ymchwilwyr ymgysylltu â'r tîm yn SHRN ond yn hwyr yng nghyfnod y project. O ganlyniad, dylai Llywodraeth Cymru chwilota priodoldeb unrhyw argymhellion gyda nhw cyn mynd ymhellach.</i></p>

8. Lles staff

Problem	<ul style="list-style-type: none"> Mae lles staff yn alluogwr craidd i lwyddiant y cwricwlwm newydd yn ôl Theori Newid y CiG. Ond nid oes dull cyson, cenedlaethol o ddeall lles staff, a chanfu ein hymchwil nad yw ysgolion unigol ychwaith yn ceisio ei gofnodi mor aml / mor drylwyr ag y maent yn gwneud gyda lles dysgwyr
Argymhelliad	<ul style="list-style-type: none"> Dylai Llywodraeth Cymru arwain y gwaith o greu arolwg fel yr arolwg lles dysgwyr arfaethedig (argymhelliad 7 uchod) ond gan ganolbwyntio ar les staff. Gellid gweithredu hyn naill ai fel modiwl ychwanegol o fewn Cyfrifiad Blynyddol Gweithlu Staff (SWAC), neu gallai Llywodraeth Cymru arwain y gwaith o greu arolwg newydd, fel yr arolwg lles dysgwyr a argymhellir uchod. Mae'r opsiwn cyntaf yn well, gan y byddai'n diwallu anghenion rhanddeiliaid ond yn golygu llai o gostau newydd a beichiau ychwanegol na sefydlu arolwg newydd o'r newydd. Byddai Llywodraeth Cymru yn dadansoddi ac yn cyhoeddi canfyddiadau ar lefel genedlaethol, tra byddai ysgolion yn derbyn eu data eu hunain at ddibenion hunan-werthuso ac i drafod gyda'u staff eu hunain.
Trafodaeth: risgiau, opsiynau, ystyriaethau eraill	<ul style="list-style-type: none"> Yn yr un modd â lles dysgwyr, prif anfantais sefydlu arolwg lles staff yw'r baich amser ychwanegol ar ysgolion i'w lenwi a gweithredu ar y canlyniadau. Byddai cynnwys modiwl ychwanegol o fewn y SWAC yn cyfyngu ar y gost/baich yma ond nid ei dileu Os caiff yr argymhelliad hwn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru, dylai felly sicrhau bod cwestiynau'n cael eu cadw mor fyr â phosibl a'u bod wedi'u cynllunio i ddarparu mewnwelediadau at ei dibenion dysgu a gwella ei hun ac at ddibenion ysgolion.

9. Cyd-destunoli dangosyddion ysgol a'r gallu i archwilio effeithiau tegwch

Problem	<ul style="list-style-type: none"> Dywedodd rhanddeiliaid lluosog, o dan yr ecosystem data a gwybodaeth flaenorol, na roddwyd digon o ystyriaeth i gyd-destun ysgolion a phoblogaeth leol pan oedd rhanddeiliaid heblaw am ysgolion yn dehongli dangosyddion ar lefel ysgolion (e.e., cymwysterau CA4, presenoldeb) Yn hanesyddol, defnyddiwyd y dangosydd eFSM i ddarparu'r cyd-destun hwn. Fodd bynnag, cwestiynwyd ei werth gan rai rhanddeiliaid. Amcangyfrifir nad yw llawer o ddysgwyr mewn tlodi yn gymwys neu nad ydynt yn hawlio cymhwysedd eisoes, a gyda chyflwyno pryddau ysgol am ddim i bawb ar gyfer dysgwyr cynradd, mae ansicrwydd ynghylch cyfraddau cywirdeb presennol yn gostwng ymhellach. Cododd rhai rhanddeiliaid fylchau posibl hefyd mewn data nodweddion ar lefel dysgwyr ar gyfer dadansoddiad effeithiol o effeithiau tegwch y cwricwlwm newydd (e.e. rhywedd, ffactorau cymdeithasol) Byddai risg o ddim newid yn y maes hwn yn golygu bod problemau'n parhau gyda data ysgolion yn cael eu dehongli heb gyd-destun priodol gan rhanddeiliaid system allweddol
---------	--

Argymhelliad	<p>Mae dwy ran i'r argymhelliad hwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • i) Darparu mwy o gyd-destun i gefnogi dehongli data a dangosyddion ar lefel ysgolion: <ul style="list-style-type: none"> • dylai Llywodraeth Cymru baru codau post disgyblion a gesglir yn y CYBLD â chronfa ddata Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) i gyfrifo dangosyddion IMD ar lefel ysgolion. Byddai'r dadansoddiad hwn yn cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru a'i adrodd yn ôl i ysgolion er mwyn lleihau'r baich ar ysgolion • Gallai unrhyw adroddiadau ar lefel ysgolion (e.e., adroddiadau AWCDs, FyYsgolLeol) gynnwys y wybodaeth IMD hon ar lefel ysgolion, gan sicrhau ei bod yn weladwy ochr yn ochr â dangosyddion eraill (e.e., cyflawniad CA4) • ii) Galluogi dadansoddiad mwy gronynnog o effeithiau tegwch y cwricwlwm newydd: <ul style="list-style-type: none"> • dylai Llywodraeth Cymru ystyried casglu nodweddion ychwanegol ar lefel dysgwr yn y CYBLD, megis data demograffig (e.e. hunaniaeth o ran rhywedd) a ffactorau economaidd-gymdeithasol (e.e., gofalwr ifanc, profiad o'r system ofal) a allai alluogi dadansoddiad tegwch mwy gronynnog lle gallai fod cysylltiad ag effaith ar ddeilliannau addysg • Byddai angen ychwanegu diffiniadau data ar gyfer unrhyw eitemau newydd at nodiadau cwblhau technegol presennol y CYBLD
Trafodaeth: risgiau, opsiynau, ystyriaethau eraill	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad annibynnol o'r ymchwil hwn i'r ffordd orau o ddeall amddifadedd ar lefel ysgolion drwy gyflwyno'r cynllun prydau ysgol am ddim i bawb ar gyfer dysgwyr cynradd. Dylai ein hargymhelliad (i) fwydo i mewn i'r broses hon, ond bydd canlyniadau'r adolygiad yn pennu'r dangosyddion terfynol i'w defnyddio • Dylid nodi mai pwrpas argymhelliad (i) yw darparu mwy o gyd-destun ochr yn ochr â dangosyddion ac adroddiadau eraill ar lefel ysgolion. Nid yw wedi'i fwriadu fel dewis amgen cyfangwbl nac yn amnewid am dulliau presennol o gyfrifo amddifadedd ar lefel ysgolion (e.e., i'w ddefnyddio mewn penderfyniadau ariannu). • Dylid nodi ymhellach bod sgysiau traws-lywodraethol yn mynd rhagddynt i ddatblygu dulliau cyson o ddeall a chofnodi data rhyw, hunaniaeth o ran rhywedd, hunaniaeth genedlaethol ac ethnigrwydd unigolyn sy'n berthnasol i'n hargymhelliad (ii). Dylai unrhyw newidiadau i'r CYBLD ddilyn canlyniad y sgysiau hyn • Fodd bynnag, byddai angen i Lywodraeth Cymru benderfynu ar ddefnyddioldeb a moeseg cynnwys mwy o ffactorau economaidd-gymdeithasol yn y CYBLD (e.e., profiad o ofal), ac ystyried ansawdd a gwerth tebygol y data hyn yn ôl beichiau casglu ac adrodd arno. Byddem yn awgrymu bod gan ddysgwyr yr opsiwn i beidio â datgelu'r wybodaeth hon os nad ydynt yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny • Mae rhai nodweddion ar lefel dysgwr y gellid eu casglu o'r newydd yn nodweddion gwarchoddedig a ddiffinnir yn gyfreithiol, felly mae angen y safonau uchaf o ran diogelu data a sicrhau ansawdd.

10. Mwy o dryloywder gyda chymunedau ysgolion

Problem	<ul style="list-style-type: none"> Mae rhieni, gofalwyr a chymunedau ysgolion yn sefyll allan o'r grwpiau rhanddeiliaid eraill yr ymgynghorwyd â nhw fel rhai sy'n gofyn am lefelau uwch o wybodaeth am eu hysgolion lleol. Mae hyn yn wir ar gyfer gwybodaeth am gynnydd dysgwyr unigol, ac ar gyfer gwybodaeth am berfformiad cyffredinol yr ysgol, nodweddion, ac amgylchedd
Argymhelliad	<ul style="list-style-type: none"> Rydym yn argymhell yn y tymor agos bod ysgolion yn cael disgrisiwn dros yr wybodaeth y byddan nhw'n ei rannu gyda chymunedau ysgol, ond yn yr hir-dymor bod ystod ehangach o wybodaeth lefel ysgol yn cael ei wneud ar gael i gymunedau ysgol. Dylai Llywodraeth Cymru arwain neu gomisiynu adolygiad o systemau a chynnwys y platfform FyYsgolLeol. Teimlwn fod nod datganedig y platfform o ddarparu 'cipolwg ar ysgol' yn dal yn ddilys iawn, er ar hyn o bryd, mae'r cynnwys yn adlewyrchu'r data a'r wybodaeth a ystyrir yn bwysig o dan y cwricwlwm blaenorol yn hytrach na'r CiG. Yn hytrach, dylai gyflwyno ystod ehangach o wybodaeth, gan gynnwys dangosyddion cyflawniad, presenoldeb, ac agweddau eraill ar ddysgu, yn ogystal â gwybodaeth gyd-destunol fwy cynnil am boblogaeth yr ysgol a'r amgylchedd gan gynnwys lles (yn gyson â'r argymhellion uchod). Dylai Llywodraeth Cymru ddilyn canllawiau arfer gorau'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol wrth ddylunio'r porthol i sicrhau bod gwybodaeth a'i chyflwyniad wedi'i theilwra i anghenion y cyhoedd. Yn bwysig, dylai'r dangosyddion a gyflwynir ar FyYsgolLeol gael eu harddangos mewn ffordd nad yw'n awgrymu bod rhai dangosyddion yn bwysicach nag eraill, a bob amser ochr yn ochr â gwybodaeth gyd-destunol briodol. Gellid defnyddio'r porthol hefyd i gysylltu â gwybodaeth am ysgolion sy'n cael eu cynnal mewn mannau eraill ar-lein ar hyn o bryd (e.e. arolygiadau Estyn, crynodebau gofynnol newydd o hunan-werthuso a blaenoriaethau gwella ar wefannau ysgolion) gan osgoi dyblygu cynnwys presennol. Gallai fod gan ysgolion ddewis i lanlwytho eu gwybodaeth eu hunain hefyd, gan gynnwys crynodebau ansoddol byr o unrhyw weithgareddau asesu safonol neu bwrpasol (e.e. arolwg lles, canlyniadau LVS, diweddariadau ar gynlluniau datblygu), y mynegodd rhieni a chymunedau ysgolion eu bod yn eu ffafrio Yn y pen draw, gallai'r porthol diwygiedig FyYsgolLeol hefyd fod yn brif ffynhonnell gwybodaeth ar lefel ysgolion ar gyfer sefydliadau haen ganol. Dylai ysgolion fod yn rhan o gyd-ddylunio fersiwn ddiwygiedig o FyYsgolLeol.
Trafodaeth: risgiau, opsiynau, ystyriaethau eraill	<ul style="list-style-type: none"> Dylid nodi efallai bod rhannu mwy o wybodaeth gyda chymunedau ysgol yn groes i argymhelliad cyffredinol 2 uchod yn ogystal ag argymhellion penodol megis y rhai ar gyfer data canlyniadau cymwysterau CA4 (12). Mae tensiwn cyffredinol rhwng swyddogaeth tryloywder a nod ehangach y system ysgolion i ail-flaenoriaethu defnyddio data a gwybodaeth ar gyfer hunanarfarnu a gwella.

- Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, yn gyffredinol ac yn y tymor agos, barhau i roi blaenoriaeth i newid diwylliant rhanddeiliaid allweddol yn y system o ran defnyddio data a gwybodaeth, a allai olygu cyfyngu ar faint o wybodaeth ar lefel ysgolion a rennir â chymunedau ysgolion
- Felly, gellid gohirio'r argymhelliad hwn sy'n ymwneud â FyYsgolLeol nes bod y cyhoedd a chymunedau ysgolion yn fwy cyfarwydd â ffocws ehangach y cwricwlwm CiG, a lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio gwybodaeth ychwanegol at ddibenion atebolrwydd yn hytrach na hunan-werthuso.
- Mae cyflwyno newidiadau graddol i'r ecosystem yn cael ei drafod ymhellach o dan argymhelliad 13

Data canlyniadau cymwysterau Cyfnod Allweddol 4

11. Ymagwedd ddiwygiedig at ddangosyddion cymwysterau CA4 a rhannu data

- 9.18 Mae'r cymwysterau y mae dysgwyr yn eu sefyll ym mlwyddyn 11 eu hunain y tu allan i gwmpas y prosiect ymchwil hwn. Fodd bynnag, mae trefniadau ar gyfer casglu, prosesu, rhannu a defnyddio data canlyniadau cymwysterau yn berthnasol ac yn bwysig i'r ecosystem data a gwybodaeth.
- 9.19 Mae crynodeb o'n canfyddiadau sy'n ymwneud ag arferion hanesyddol ar gyfer data canlyniadau cymwysterau CA4 yn ymddangos yn adran 6 Canfyddiadau uchod. Er mwyn datblygu argymhelliad ar gyfer newidiadau yn y dyfodol, gwnaethom gyfuno'r wybodaeth hon a chymhwyso'r egwyddorion pwysig a ganlyn a ddaeth i'r amlwg yn ystod ein hymchwil:
- ehangder a chydraddoldeb y cwricwlwm – dylai dangosyddion anelu at adlewyrchu ehangder y cwricwlwm a'r hyn y mae'n datgan sydd yn bwysig
 - dealltwriaeth gyflawn o gyrhaeddiad – dylai dangosyddion osgoi distyllu gormod o wybodaeth yn brif ddangosyddion unigol, a ysgogodd lawer o'r ymddygiadau negyddol sy'n codi o fersiynau blaenorol o ddangosyddion CA4
